**YMATEB MANWL LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD COMISIWN Y GYFRAITH AR GYFRAITH CYNLLUNIO YNG NGHYMRU**


**Pennod 5 - Darpariaethau Rhagarweiniol** ........ 1
**Pennod 6 - Llunio'r cynllun datblygu** ........ 7
**Pennod 7 - Yr angen am gais cynllunio** ........ 10
**Pennod 8 - Ceisiadau i'r awdurdod cynllunio** ........ 14
**Pennod 9 - Ceisiadau i Weinidogion Cymru** ........ 26
**Pennod 10 - Darparu seilwaith a gwelliannau eraill** ........ 28
**Pennod 11 - Apeliadau a darpariaethau atodol eraill** ........ 31
**Pennod 12 - Datblygu heb awdurdod** ........ 35
**Pennod 13 - Gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth** ........ 42
**Pennod 14 - Hysbysebion awyr agored** ........ 47
**Pennod 15 - Coed a choetiroedd gwarchodedig** ........ 51
**Pennod 16 - Gwella, adfywio ac adnewyddu** ........ 56
**Pennod 17 - Heriau yn yr Uchel Lys** ........ 62
**Pennod 18 - Darpariaethau Amrywiol ac Atodol** ........ 63

## Pennod 5 - Darpariaethau Rhagarweiniol

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 5-1 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil, i’r perwyl, wrth arfer unrhyw un o’i swyddogaethau neu eu swyddogaethau o dan y Cod, fod yn rhaid i’r awdurdod cynllunio, neu banel cynllunio strategol neu, fel y digwydd, Weinidogion Cymru:<br>1) roi sylw i’r cynllun datblygu, i’r graddau y mae’n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno;<br>2) arfer y swyddogaeth honno yn unol â’r cynllun oni noda unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill fel arall;<br><br>ond na ddylai’r ddyletswydd hon fod yn gymwys i arfer swyddogaethau sy’n ymwneud â llunio’r cynllun datblygu, penderfynu ar geisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb neu hawliadau am iawndal, na gwneud is-ddeddfwriaeth. | Derbyn mewn egwyddor | Bydd Comisiwn y Gyfraith yn ymwybodol bod trafodaethau pellach wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod bwriad yr argymhelliad hwn a'i berthynas ag Argymhellion 5-5 a 5-6 yn eglur.<br><br>Mae'r trafodaethau hyn wedi'i gwneud yn glir mai cynnig Comisiwn y Gyfraith drwy'r argymhelliad hwn yw cyfuno'r gofyniad i ystyried y cynllun datblygu (i'r graddau y mae'n berthnasol) ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill (fel y'u nodir ar hyn o bryd yn adran 70(2) ac adrannau amrywiol eraill o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) gan ragdybio y ffefrir y cynllun datblygu (fel y'i nodir ar hyn o bryd yn adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) er mwyn creu prif ddyletswydd cynllun datblygu cyffredinol yn y Bil cydgrynhoi. Byddai'r ddyletswydd hon yn gymwys i swyddogaethau a gyflawnir gan rai cyrff cyhoeddus penodol, gyda rhai eithriadau. Cadarnhawyd mai bwriad y ddyletswydd hon yw cynnal goruchafiaeth y cynllun datblygu wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Yna mae Argymhellion 5-5 a 5-6 yn cynnig y dylai'r Gymraeg a pholisïau Llywodraeth Cymru sy’n ymwneud â defnyddio a datblygu tir gael eu rhestru fel enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol posibl, wrth barhau â'r rhagdybiaeth o blaid y cynllun datblygu ar yr un pryd. Rhoddir ein hymateb i'r argymhellion hyn ar wahân isod.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â barn Comisiwn y Gyfraith y dylai'r ddyletswydd arfaethedig o ran y cynllun datblygu fod yn gymwys i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf 1990. Fodd bynnag, ni chredwn fod angen ymestyn y ddyletswydd hon i baneli cynllunio strategol.<br><br>Fel y nodir yn yr Adroddiad, ni ddylai'r ddyletswydd arfaethedig fod yn gymwys i lunio cynlluniau datblygu gan fod y ddeddfwriaeth gyfredol eisoes yn cynnwys cynllun i'r awdurdodau amrywiol ystyried rhai materion penodol wrth baratoi cynlluniau datblygu. O ystyried bod a wnelo swyddogaethau panel cynllunio strategol â'r cynllun datblygu strategol ar gyfer ei ardal, nid oes angen ymestyn y ddyletswydd arfaethedig i baneli cynllunio strategol oherwydd y darpariaethau deddfwriaethol sy'n bodoli'n barod. Byddai’r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn dileu y pŵer i greu paneli cynllunio strategol ac yn hytrach ddarparu ar gyfer swyddogaethau sy’n gysylltiedig â chynlluniau datblygu strategol sydd i’w rhoi i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol a sefydlwyd o dan y Bil hwnnw. Am yr un rhesymau sy’n berthnasol i baneli cynllunio strategol, nid ydym yn ystyried y dylai’r ddyletswydd honno gael ei hymestyn i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.<br><br>Cytunwn na ddylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i swyddogaethau sy'n ymwneud â cheisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb na hawliadau am iawndal gan mai mater cyfreithiol yw penderfynu ar geisiadau o'r fath yn ei hanfod. Nid yw'r cynllun datblygu yn ystyriaeth wrth wneud penderfyniad yn y mathau hyn o swyddogaethau. Hefyd, cytunwn na ddylai fod yn gymwys i lunio is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru, fel na allant osod agenda bolisi genedlaethol drwy ddeddfwriaeth.<br><br>Nodwn mai dim ond yn rhai o ddarpariaethau Deddf 1990 y crybwyllir yn benodol y gofyniad i ystyried y cynllun datblygu (sy'n arwain at ragdybio bod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn unol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | â'r cynllun o dan adran 38(6) o Ddeddf 2004). Yn ymarferol, mae awdurdodau cynllunio yn ystyried y cynllun datblygu wrth arfer swyddogaethau eraill o dan Ddeddf 1990.<br><br>Fodd bynnag, ni chytunwn â barn Comisiwn y Gyfraith mai cynnwys un ddyletswydd gyffredinol yn y Bil yw'r ffordd orau o reidrwydd o ddatrys yr anghysondeb hwn. Yn ein barn ni, efallai na fydd hyn yn arwain at welliannau digonol o ran hygyrchedd ac eglurder y gyfraith, ac efallai y bydd yn peri'r risg o herio pryd mae'r ddyletswydd yn gymwys. Dylai rhanddeiliaid ddeall pa swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt a sut mae'n effeithio arnynt.<br><br>Mae'r Bil cydgrynhoi yn cynnig y cyfle i roi eglurder i'r gyfraith drwy nodi mewn ffordd glir a chyson y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt, a fydd yn rhoi sicrwydd i weithredwyr y system. Bydd angen i'r gwaith manwl o nodi'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt a'r union eiriad i'w ddefnyddio gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil. Hefyd, bydd angen ystyried y berthynas rhwng yr argymhelliad hwn ac Argymhellion 14-14 a 15-2. |
| 5-2 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) nid yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o'r term "ystyriaethau perthnasol" na rhestr o enghreifftiau;<br>2) defnyddir y gair "relevant" yn lle "material" yn narpariaethau'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 62(4A), 70(2), 70A(1), 70A(6), 91(2), 92(6), 97, 102, 172 a 177(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith fod yr egwyddor a amlinellir yn *Stringer v Minister of Housing and Local Government* yn parhau i ddarparu'r man cychwyn ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag ystyriaeth gynllunio berthnasol. Eglura y gall unrhyw ystyriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir fod yn ystyriaeth gynllunio; fodd bynnag, bydd ei pherthnasedd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos.<br><br>O ystyried natur eang yr hyn y gellir ei ddosbarthu'n ystyriaeth berthnasol a'i dibyniaeth ar amgylchiadau unigol yr achos, cytunwn na fyddai'n ddefnyddiol ceisio diffinio'r term hwn. Bydd ceisio gwneud hynny yn creu mwy o broblemau nag y mae'n eu datrys. Am yr un rhesymau, nid yw ychwaith yn bosibl llunio rhestr gynhwysfawr mewn deddfwriaeth na chanllawiau o'r hyn sy'n gyfystyr ag ystyriaeth berthnasol.<br><br>Mae'r argymhelliad yn awgrymu na ddylai unrhyw enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol posibl gael eu rhestru yn y Bil. Fodd bynnag, mae Argymhellion 5-5 a 5-6 yn cynnig y dylai'r Gymraeg a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir gael eu rhestru fel enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol posibl yn y ddarpariaeth gyfunol a argymhellir yn Argymhelliad 5-1. Cynhaliwyd trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith er mwyn darparu peth eglurder o ran y gwrthdaro posibl hwn. Yn sgil y trafodaethau hyn ac Argymhelliad 5-1, mae'r Comisiwn wedi'i gwneud yn eglur, ac eithrio'r ystyriaethau perthnasol hynny a nodir yn Argymhellion 5-5 a 5-6, na ddylai unrhyw enghreifftiau pellach gael eu rhestru. Cytunwn â hyn a rhoddir ein hymateb i'r argymhellion hyn ar wahân.<br><br>Er y caiff enghreifftiau eu rhestru yn y Bil, yr egwyddorion a sefydlwyd mewn cyfraith achos a fydd yn parhau i fod yn gymwys o ran yr hyn sy'n gyfystyr ag ystyriaeth berthnasol, a'r Llysoedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr hyn y gellir ei ystyried yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gais penodol.<br><br>O ran y cynnig i ddefnyddio'r gair "relevant" yn lle "material", cytunwn â'r hyn a argymhellir gan fod y Llysoedd yn dehongli bod gan y ddau derm yr un ystyr mewn rhai o ddarpariaethau Deddf 1990. Hefyd, cytunwn fod y term yn un a ddeellir yn fwy, a fydd yn gwella hygyrchedd y gyfraith i randdeiliaid ehangach sy'n defnyddio'r system gynllunio ac yn ymwneud â hi. Fodd bynnag, cytunwn â rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a gydnabyddir gan y Comisiwn, fod rhannau o Ddeddf gyfredol 1990 lle mae'r term presennol "material" yn golygu rhywbeth gwahanol i'r term "relevant", megis "material change of use". Nodwn y darpariaethau hynny lle ystyriodd y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Comisiwn y gallai "relevant" gael ei ddefnyddio fel term amgen, a fydd yn llywio ein hystyriaeth o'r mater hwn wrth baratoi a drafftio'r Bil. |
| 5-3 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol, neu, yn ôl y digwydd, Gweinidogion Cymru, hefyd roi sylw i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Cod. | Derbyn | Mae ein trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith wedi'i gwneud yn glir nad effaith yr argymhelliad hwn yw cyflwyno dyletswydd ehangach yn y Bil cydgrynhoi ond cadw'r gofyniad presennol i roi sylw i unrhyw ystyriaeth berthnasol arall lle caiff dyletswydd y cynllun datblygu ei chymhwyso i swyddogaethau penodedig, fel y'i hargymhellir yn Argymhelliad 5-1.<br><br>Ar sail y ddealltwriaeth hon, cytunwn â'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn perthynas ag Argymhelliad 5-1, bydd angen i'r gwaith manwl o nodi'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd honno fod yn gymwys iddynt gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil. |
| 5-4 | Argymhellwn y dylid<br>1) cynnwys darpariaeth yn y Bil Amgylchedd Hanesyddol i'r perwyl bod yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag ased hanesyddol neu ei leoliad roi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella'r ased, ei leoliad, ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig sydd ganddo;<br>2) dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil Cynllunio i'r perwyl bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod Cynllunio a'r Cod Amgylchedd Hanesyddol roi sylw arbennig i'r materion hynny i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno;<br>3) dylai "corff cyhoeddus" gynnwys:<br>o Gweinidogion Cymru;<br>o unrhyw un o Weinidogion y Goron;<br>o unrhyw gorff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdod lleol, awdurdod parc cenedlaethol, panel cynllunio strategol, a chydbwyllgor);<br>o unrhyw ymgymerydd statudol (fel y'i diffiniwyd yn Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990),<br>o unrhyw berson sy'n dal swydd gyhoeddus (fel y'i diffiniwyd yn adran 85 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000);<br>4) dylai "asedau treftadaeth" gynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, ac unrhyw gyfryw gategorïau eraill o dir ag y gall Gweinidogion Cymru eu rhagnodi. | Tystiolaeth ategol er gwybodaeth bellach | Nodwn fod gwahaniaethau o ran y ffordd y caiff yr effaith ar asedau hanesyddol ei hystyried ac mae lefel pwysigrwydd yr ystyriaeth honno yn amrywio, yn dibynnu ar ddosbarth yr ased hanesyddol, wrth asesu a ddylid awdurdodi gwaith neu arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag ased treftadaeth neu yn ei leoliad.<br><br>Mae'r ddyletswydd yn adran 72 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn am roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad ardaloedd cadwraeth wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Deddfau Cynllunio. Fodd bynnag, dim ond ymwneud â rhai swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 66, mewn perthynas ag adeiladau rhestredig, i roi sylw (arbennig) i ddymunoldeb gwarchod yr adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo, ac fe'i cymhwysir mewn termau gwahanol. Ar gyfer asedau hanesyddol eraill, megis henebion cofrestredig a pharciau a gerddi cofrestredig, noda polisïau cynllunio yr ystyriaethau perthnasol o ran yr effaith ar yr asedau hyn. Nid oes i ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd unrhyw reolaethau statudol ychwanegol. Fodd bynnag, mae polisïau cynllunio yn derbyn yr angen i warchod gwerth cyffredinol neilltuol safleoedd o'r fath, yn unol â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd.<br><br>Mae Rhan (1) o'r argymhelliad hwn yn cynnig cyflwyno dyletswydd eang a chyson o ran swyddogaethau cyrff cyhoeddus. Cytunwn mewn egwyddor â Rhan (1) o'r argymhelliad hwn i'r graddau y byddai mwy o eglurder a chysondeb yn ddymunol o ran y ffordd y caiff yr effeithiau ar asedau hanesyddol eu hasesu, a faint o sylw y mae'n rhaid ei roi i'r effeithiau wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, byddai angen gwneud mwy o ymchwil fanwl a chasglu tystiolaeth er mwyn deall yr hyn y byddai dyletswydd o'r fath yn ei olygu'n ymarferol, ei effaith ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, a graddau dyletswydd o'r fath. Hefyd, byddai angen ystyried ymhellach ganlyniadau anfwriadol cyflwyno dyletswydd o'r fath. Gallai'r gwaith hwn gael ei wneud yn rhesymol ar y cyd â'r gwaith datblygu polisi sydd ei angen er mwyn cefnogi rhaglen o ddiwygio deddfwriaeth amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol.<br><br>Mae Paragraff 5.100 o adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn cysylltu'n uniongyrchol Ran (2) o'r argymhelliad hwn ag Argymhellion 13-1A a 13-1B. Gan nad ystyrir yr argymhellion hyn am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach fel rhan o'r adolygiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5-5 | Argymhellwn y dylai darpariaeth gael ei chynnwys yn y Bil i'r perwyl canlynol:<br>1) mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol neu, yn ôl y digwydd, Weinidogion Cymru roi sylw iddynt (yn unol ag Argymhelliad 5-3) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod – ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu – gynnwys effaith debygol, os oes un, arfer y swyddogaeth honno ar ddefnyddio'r Gymraeg, i'r graddau y mae hynny yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; ond<br>2) ni fydd y ddyletswydd i ystyried effaith arfer swyddogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithio ar y canlynol:<br>o p'un a oes rhaid rhoi sylw i ystyriaeth arall wrth arfer y swyddogaeth honno neu<br>o y pwys a roddir ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno.<br><br>Byddai darpariaeth o'r fath yn disodli 70(2)(aa) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac adrannau 60B(2), 60I(8), 62(6A) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. | Derbyn | Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cadarnhau bod Argymhellion 5-5 (y Gymraeg) a 5-6 (polisi cenedlaethol) yn eithriadau i Argymhelliad 5-2 (1) na ddylai unrhyw enghreifftiau o ystyriaethau perthnasol gael eu rhestru yn y Bil. Fel yr eglurir mewn ymateb i Argymhelliad 5-1 deallwn mai argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yw rhestru'r Gymraeg fel enghraifft o ystyriaeth berthnasol bosibl lle mae dyletswydd i ystyried y cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill, wrth barhau â'r rhagdybiaeth o blaid y cynllun datblygu ar yr un pryd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hyn sy'n ail-ategu bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol bosibl wrth wneud penderfyniadau, a amodir gan adran 31(4)(b) o Ddeddf 2015, gan adlewyrchu'r gyfraith gyfredol.<br><br>Cytunwn fod anghysondeb wrth nodi bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol bosibl. Ar hyn o bryd dim ond yn adran 70 y nodir y Gymraeg ac nid mewn unrhyw ddarpariaethau eraill lle nodir y ddyletswydd o ran cynllun datblygu, sydd ond yn cyfeirio at "*having regard to the development plan and to any other material considerations*".<br><br>Fel y nodwyd mewn perthynas ag Argymhelliad 5-1, bydd angen i'r gwaith manwl o nodi'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd honno fod yn gymwys iddynt a'r union eiriad i'w ddefnyddio gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil.<br><br>Mae'r argymhelliad a gyhoeddwyd yn awgrymu y byddai camau o'r fath yn golygu nad oedd angen gofynion o ran y Gymraeg mewn perthynas â llunio cynlluniau datblygu o dan Ddeddf 2004 (adrannau 60B(2), 60I(8) a 62(6A)). Mae ein trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith ynghylch yr argymhelliad hwn a'i berthynas ag Argymhelliad 5-1 wedi cadarnhau bod angen cadw'r gofynion yn adrannau 60B(2), 60I(8) a 62(6A) o Ddeddf 2004. Fel y nodwyd yn Argymhelliad 5-1 ni fydd yr argymhelliad hwnnw yn gymwys i lunio cynlluniau datblygu. Felly, mae angen cadw'r adrannau rhestredig o Ddeddf 2004 er mwyn sicrhau bod asesiad o'r effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg yn rhan annatod o'r arfarniad o gynaliadwyedd sy'n llywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu (h.y. FfDC, CDSau a CDLlau). |
| 5-6 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil i'r perwyl canlynol:<br>1) mae'n rhaid i'r ystyriaethau perthnasol, y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio, panel cynllunio strategol neu Weinidogion Cymru roi sylw iddynt (yn unol ag Argymhelliad 5-4) wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Cod – ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau, neu hawliadau digolledu – gynnwys polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir, i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth honno; Ond<br>2) na ddylai'r ddyletswydd i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru effeithio ar y canlynol:<br>o p'un a oes rhaid rhoi sylw i unrhyw ystyriaethau eraill wrth arfer y swyddogaeth honno, neu<br>o y pwys a roddir ar unrhyw ystyriaeth o'r fath wrth arfer y swyddogaeth honno. | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru fod yr argymhelliad yn cael cryn gefnogaeth gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Yn yr un modd ag Argymhelliad 5-5 yn ymwneud â'r Gymraeg, deallwn mai argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yw rhestru polisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir fel enghraifft o ystyriaeth berthnasol bosibl lle mae dyletswydd i ystyried y cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill, wrth barhau â'r rhagdybiaeth o blaid y cynllun datblygu.<br><br>Gan fod polisïau cynllunio lleol yn chwarae rhan hanfodol wrth wneud penderfyniadau lle nad oes cynllun datblygu lleol ar waith (neu lle nad oes un cyfredol), cytunwn â sylwadau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a sawl awdurdod cynllunio y bydd yr argymhelliad hwn yn arwain at ddwyn i ddeddfwriaeth arferion sefydledig a chyfraith achosion. I bob diben, bydd yr argymhelliad yn sicrhau bod y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn eglur.<br><br>Er y gallai meysydd eraill o bolisïau Llywodraeth Cymru fod yn berthnasol mewn achos penodol, cytunwn y dylai'r ddarpariaeth yn y Bil fod yn gyfyngedig i'r rhai sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu tir.<br>Fel y nodwyd o ran Argymhelliad 5-1, bydd angen i'r gwaith manwl o nodi'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd honno fod yn gymwys iddynt a'r union eiriad i'w ddefnyddio gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5-7 | Argymhellwn nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth, sy'n cyfateb i adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, i'r perwyl bod yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer rhai o'r swyddogaethau o dan y Cod wneud hynny fel rhan o'i ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. | Gwrthod | Mae'r system gynllunio wrth wraidd cyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi diben statudol ar gyfer swyddogaethau cynllunio sy'n ymwneud â chynllunio gwaith datblygu a cheisiadau am ganiatâd cynllunio yng Nghymru sy'n cadarnhau ac yn egluro'r gofyniad i gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ategu nodau ac amcanion y Ddeddf honno.<br><br>Gan fod cyflawni datblygu cynaliadwy yn rhan bwysig o'r system gynllunio, dylai adran 2 o Ddeddf 2015 gael ei chadw, gan ei bod yn gadarnhad pwysig i'r rhai sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system, ac am ymwneud â hi.<br><br>Os cedwir y ddarpariaeth hon, nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y dylai gael ei hehangu i fod yn gymwys i unrhyw swyddogaeth a gyflawnir gan gorff cyhoeddus o dan y Bil. Cytunwn mewn egwyddor ag ehangu'r ddarpariaeth hon; fodd bynnag, ystyrir yn fanwl y graddau y gellir gwneud hynny wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi er mwyn sicrhau bod y sefyllfa gyfreithiol gyfredol yn parhau. |
| 5-8 | Argymhellwn y dylid cynnwys cyfeiriadau at y dyletswyddau mewn deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth gynllunio a all fod yn berthnasol i arfer swyddogaethau o dan y Cod mewn mannau priodol mewn canllawiau gan Weinidogion, ac y dylent fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan y Porth Cynllunio. | Derbyn mewn egwyddor | Gyda nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth gynllunio yn gosod dyletswyddau sy'n uniongyrchol berthnasol i arfer swyddogaethau o dan y prif ddeddfau cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i'r rhai sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system gynllunio ac am ymwneud â hi os caiff cyfeiriadau at y dyletswyddau eu hamlinellu mewn canllawiau. Nodwn fod rhai cyfeiriadau eisoes wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr.<br><br>Cytunwn y bydd y cyfeiriadau hyn yn helpu i atgoffa'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am y dyletswyddau ehangach y mae'n rhaid iddynt eu hystyried wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio. Ystyrir y man priodol ar gyfer y cyfeiriadau hyn ac a ddylent gael eu lleoli gyda'i gilydd neu eu cynnwys mewn mannau priodol mewn canllawiau cenedlaethol. |
| 5-9 | Argymhellwn y dylid diddymu adran 53 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 (dyletswyddau amgylcheddol mewn cysylltiad â chynllunio). | Gwrthod | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith na ddylai adran 53 o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994 gael ei hatgynhyrchu yn y Bil. Fodd bynnag, ni chytunwn â'r argymhelliad i ddiddymu'r adran.<br><br>Darparodd Deddf y Diwydiant Glo 1994 ar gyfer ad-drefnu'r diwydiant glo, gan gynnwys sefydlu'r Awdurdod Glo. Fel y cyfryw, mae'r rhan fwyaf o'i darpariaethau – yn cynnwys adran 53 – yn gymwys ledled Prydain Fawr. Ymddengys fod adran 53 yn dyblygu rhai o'r gofynion a fyddai'n gymwys fel arfer o ran penderfyniadau o dan ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref. Fodd bynnag, byddai'r argymhelliad yn gofyn am ddiwygio adran 53 fel nad yw'n gymwys yng Nghymru, a fyddai'n debygol o roi argraff gamarweiniol am y sefyllfa yng Nghymru drwy awgrymu mai yn Lloegr a'r Alban yn unig mae'r materion a grybwyllir yn yr adran yn berthnasol. Felly, o bwyso a mesur, ystyriwn y byddai'n fwy buddiol cadw adran 53. |
| 5-10 | Yng ngoleuni'r cynigion blaenorol yn y Bennod hon, nid ydym yn argymell y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n esbonio diben y system gynllunio yng Nghymru. | Gwrthod | Mae diben statudol i'r system gynllunio yng Nghymru eisoes wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth gynllunio drwy adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'n cadarnhau ac yn egluro'r gofyniad i gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n ategu nodau ac amcanion y Ddeddf honno.<br><br>Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 5-7, cynigiwn gynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil cydgrynhoi am ei bod yn gadarnhad pwysig i'r rhai sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system ac am ymwneud â hi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5-11 | Argymhellwn y dylid cyfeirio at bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar apeliadau, cynnal ymchwiliadau a chyflawni swyddogaethau tebyg eraill yn y Bil Cynllunio fel “arolygwyr”. | Derbyn mewn egwyddor | Noda Llywodraeth Cymru y dadleuon o blaid newid y derminoleg i derm mwy dealladwy er mwyn gwella hygyrchedd y ddeddfwriaeth a'r term amgen a argymhellir.<br><br>Fodd bynnag, gan fod Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo'n ddiweddar i sefydlu corff apeliadau newydd i Gymru yn unig, bydd angen i'n hystyriaeth o derm amgen i'w ddefnyddio yn y Bil gael ei llywio gan y trefniadau a ddatblygir ar gyfer y corff newydd. Bydd hyn yn galluogi'r ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r trefniadau newydd yn fwy cywir, gan sicrhau bod yr hyblygrwydd a ddarperir gan y sefyllfa gyfreithiol gyfredol yn cael ei gynnal ar yr un pryd er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi unrhyw berson annibynnol i gyflawni swyddogaeth benodol ar eu rhan. |
| 5-12 | Argymhellwn nad yw’r Bil yn cynnwys y darpariaethau a geir yn Rhan 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd gan alluogi dynodi awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu tai yn awdurdodau cynllunio lleol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddatgymhwyso at ddiben Cymru bwerau presennol Deddf 1990 sy'n galluogi dynodi awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu tai yn awdurdod cynllunio eu priod ardaloedd, pan y'i sefydlir o dan ddeddfwriaeth ar wahân.<br><br>Diben y cyrff ardal hyn yw hyrwyddo'r gwaith o adfywio neu wella'r ardaloedd maent yn eu cwmpasu. O ystyried rôl bwysig awdurdodau cynllunio presennol wrth greu lleoedd, credwn y dylai'r cyrff hyn weithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a bywiog yn cael eu creu ar gyfer ein cymunedau. Bydd atal cyrff o'r fath rhag bod yn awdurdodau cynllunio yn eu rhinwedd eu hunain yn helpu i greu'r gwaith partneriaeth hwn.<br><br>Mae argymhellion 16-8, 16-10 ac 16-11 yn awgrymu na ddylai deddfwriaeth sy'n ymwneud ag awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol ac ymddiriedolaethau gweithredu tai fod yn gymwys i Gymru yn gyfan gwbl. Ystyriwyd ymatebion i'r argymhellion hyn ar wahân. |
| 5-13 | Argymhellwn y dylid defnyddio’r term “awdurdod cynllunio” yn y Bil Cynllunio yn lle’r term “awdurdod cynllunio lleol” ac “awdurdod cynllunio mwynau” a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad, gan fod y symleiddiad arfaethedig yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu system llywodraeth leol unedol Cymru yn fwy cywir. Fel yr awgrymwyd gan rai ymatebwyr, gallai helpu gyda dryswch posibl gan rai nad y 'cyngor lleol' yw’r awdurdod cynllunio o reidrwydd, oherwydd gallai fod yn awdurdod parc cenedlaethol mewn rhai ardaloedd neu'n fwrdd cynllunio ar y cyd os cafodd ei sefydlu o dan ddeddfwriaeth gynllunio.<br><br>Hefyd, cytunwn â Chomisiwn y Gyfraith nad yw'r term 'awdurdod cynllunio mwynau' bellach yn ofynnol ychwaith o ystyried mai'r awdurdod cynllunio mwynau yw'r awdurdod cynllunio yng Nghymru.<br><br>Ni fydd defnyddio'r term arfaethedig yn newid sylwedd y ddeddfwriaeth ond bydd yn darparu eglurder ac yn gwella hygyrchedd. |

## Pennod 6 - Llunio’r cynllun datblygu

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 6-1 | Argymhellwn y dylai Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cynlluniau datblygu), fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gael ei hailddatgan yn y Bil, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol sy’n ymwneud â Chynllun Gofodol Cymru a’r cynigion yng ngweddill y Bennod. | Derbyn | Mae system gynllunio a arweinir gan gynllun yn hanfodol er mwyn cydgysylltu mannau a chymunedau cynaliadwy. O ystyried pwysigrwydd cynlluniau datblygu yn y system gynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cynlluniau datblygu), fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gael ei hymgorffori yn y Bil cydgrynhoi. Bydd hyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system, oherwydd bydd y rhain a darpariaethau pwysig eraill sy'n sail i'r system gynllunio wedi'u lleoli mewn un Bil. |
| 6-2 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai’r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 gael eu diddymu; a dylid<br>2) rhoi ystyriaeth maes o law i’r canlynol:<br>o cynnwys darpariaethau cyfatebol mewn canllawiau;<br>o gwneud diwygiadau priodol i’r Rheoliadau Adeiladu. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 (y Ddeddf) gael eu diddymu yng Nghymru, gan fod yr ystyriaethau penodol hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) eisoes wedi'u nodi mewn polisïau cenedlaethol.<br><br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) eisoes yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran awdurdodau cynllunio (ACau) a'r canlynol:<br><br>• llunio polisïau ar gyfer gwaith datblygu sy'n defnyddio ynni o ffynonellau carbon isel ac adnewyddadwy lleol;<br>• cynnwys polisïau i osod safonau effeithlonrwydd ynni sy'n rhagori ar y gofynion mewn rheoliadau adeiladu ar gyfer safleoedd datblygu strategol.<br><br>Felly, nid oes fawr ddim gwahaniaeth o ran effaith polisi rhwng yr hyn a nodir eisoes yn y Ddeddf hon ac yn PCC.<br><br>Dim ond annog cynnwys polisïau o'r fath a wna'r Ddeddf, yn hytrach na gosod unrhyw rwymedigaethau llymach ar ACau. I'r gwrthwyneb mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i AC ystyried polisïau cenedlaethol cyfredol wrth baratoi CDLl. Felly, wrth baratoi CDLl rhaid i AC ystyried y polisïau yn PCC. Yn ein barn ni, mae hyn yn gosod mwy o ofyniad ar ACau na'r Ddeddf drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried y materion hyn wrth baratoi eu CDLlau.<br><br>Heb fawr ddim gwahaniaeth o ran effaith polisi rhwng yr hyn a nodir yn y Ddeddf ac yn PCC, credwn fod yr argymhelliad i gynnwys darpariaethau cyfatebol mewn canllawiau eisoes wedi'i gyflawni gan fod darpariaeth wedi'i chynnwys mewn polisïau cenedlaethol.<br><br>Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth maes o law i wneud diwygiadau priodol i'r Rheoliadau Adeiladu. Mae Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu, sy'n cwmpasu effeithlonrwydd ynni adeiladau domestig ac annomestig, wrthi'n cael ei hadolygu. Mae rhai cynigion i gynyddu safonau eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gyda chynigion pellach i fod yn destun ymgynghori cyn bo hir.<br><br>Fel y nodwyd uchod mae PCC yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru i bolisïau lleol gael eu cynnwys sy'n gosod safonau effeithlonrwydd ynni sy'n rhagori ar y gofynion mewn rheoliadau adeiladu ar gyfer safleoedd datblygu strategol, er bod PCC yn nodi mai dim ond lle mae tystiolaeth glir y dylid dilyn y trywydd hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6-3 | Argymhellwn y dylai'r gofyniad yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ynghylch arfarnu cynaliadwyedd cynlluniau datblygu gael ei gario ymlaen i'r Bil Cynllunio, ond:<br>1) y dylai'r canllawiau ar weithredu'r gofyniad hwnnw gael eu drafftio er mwyn lleihau'r baich i'r eithaf yn ymarferol;<br>2) y dylai'r sefyllfa ynglŷn â'r gofyniad hwnnw gael ei hadolygu yng ngoleuni unrhyw adolygiad arfaethedig o'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Statudol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad bod angen i'r gofynion ynghylch Arfarnu Cynaliadwyedd yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 gael eu cadw a'u cynnwys yn y Bil cydgrynhoi. Mae eu cadw yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan fod cwmpas Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) wedi'i gyfyngu i effeithiau amgylcheddol cynlluniau, tra bod cylch gwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) yn ehangach ac yn cwmpasu effeithiau llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.<br><br>Er na ddylent gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi, mae hefyd yn bwysig cadw'r gofynion i baratoi AEAau gan eu bod yn ofynnol ar gyfer ystod ehangach o gynlluniau a rhaglenni nag AoGau er mwyn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol gwahanol fathau o gynlluniau yn cael eu hystyried yn llawn.<br><br>Mae canllawiau cynlluniau datblygu Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir ei bod yn well ymgorffori gofynion y Rheoliadau AAS mewn AoG er mwyn osgoi ailadrodd diangen. Mae Argraffiad 3 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar (Mawrth 2020), sy'n cynnwys chanllawiau newydd ar integreiddio asesiadau amgylcheddol strategol (AASau) mewn arfarniadau o gynaliadwyedd (pennod 4). Drwy gynnwys y canllawiau ychwanegol hyn yn y Llawlyfr, cwblheir is-adrannau 1 o'r argymhelliad hwn.<br><br>O ran adolygu'r Rheoliadau AAS, nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gydberthynas rhwng AAS ac AoG yn fater a gaiff ei ystyried mewn unrhyw adolygiad o'r asesiadau hyn yn y dyfodol. |
| 6-4 | Argymhellwn na ddylai adran 114 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (cyfrifoldeb am y weithdrefn mewn ymchwiliadau i gynlluniau lleol) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio. | Derbyn | Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn darparu ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Fodd bynnag, nid ydynt yn amlinellu gweithdrefn fanwl ar gyfer archwilio cynlluniau datblygu lleol (CDLlau), sy'n groes i'r hyn a awgrymir yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith.<br><br>Caiff agweddau gweithdrefnol manwl ar archwilio CDLlau eu pennu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru lle dilynir ysbryd rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefnau eraill. Rhydd hyn hyblygrwydd o ran gweithredu'r broses archwilio er mwyn diwallu anghenion pawb dan sylw, wrth sicrhau yr ymdrinnir â phawb yn deg yn ystod y broses hefyd.<br><br>Yn sgil dilyn y trywydd hwn, ni fu angen adran 114 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 am na wnaed unrhyw reolau gweithdrefnol manwl. Fodd bynnag, yn ein barn ni dylid cadw darpariaeth yn y Bil cydgrynhoi er mwyn i ni allu parhau i ragnodi'r weithdrefn o ran archwiliadau o dan ddarpariaethau presennol Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mewn is-ddeddfwriaeth os bydd angen gwneud hynny yn y dyfodol.<br><br>Mae adran 114 yn cynnwys archwiliadau CDLlau o fewn cwmpas pwerau i wneud rheolau gweithdrefnol yn Neddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992, ond mae'r pwerau cyfatebol ar gyfer ymchwiliadau cynllunio eraill bellach i'w cael yn y ddeddfwriaeth gynllunio ei hun. Cynigiwn y dylid cynnwys archwiliadau o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 o fewn y pwerau mewn deddfwriaeth gynllunio fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi (megis adran 323A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r gweithdrefnau ar gyfer rhai achosion penodol, gan gynnwys apeliadau cynllunio, mewn rheoliadau). Yn sgil hyn, ni fydd angen ailddatgan adran 114. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6-5 | Argymhellwn y dylai Pennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio ar eu ffurf bresennol. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor ailddatgan Pennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (hysbysiadau malltod) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf. Fodd bynnag, wrth ddrafftio'r Bil yn fanwl, ystyrir a ddylai'r holl ddarpariaethau sy'n gymwys i Gymru gael eu symud i'r Bil cydgrynhoi, oherwydd y cysylltiadau amrywiol â chyfundrefnau deddfwriaethol eraill. |

## Pennod 7 - Yr angen am gais cynllunio

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 7-1 | Argymhellwn na ddylai pŵer Gweinidogion Cymru i ddileu categorïau penodol o ddymchwel o fewn cwmpas datblygu, a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 55(4)(g), gael eu hailddatgan yn y Bil newydd, ond y dylid cyflawni'r un canlyniad drwy ddefnyddio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall bod yr argymhelliad hwn yn ymwneud ag adran 55(2)(g) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y gyfraith ynghylch dymchwel yn hynod ddryslyd i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn sgil dileu yn rhannol Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Dymchwel - Disgrifiad o Adeiladau) 1995 gan y Llys Apêl (Save Britain's Heritage v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol) [2011] EWCA Civ 332).<br><br>Ym mis Mai 2018 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ganslo'r cyfarwyddyd dymchwel presennol a darparu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer categorïau penodol o ddymchwel fel rhan o ddiwygiadau yn y dyfodol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Drwy beidio ag ailddatgan y pŵer cyfarwyddyd a geir yn adran 55(2)(g) ynghyd â'r diwygiadau i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) bydd yn sicrhau bod y system gynllunio yn trin unrhyw achos o ddymchwel adeilad mewn modd gweithdrefnol cyson.<br><br>Drwy wneud hyn bydd y gyfraith yn fwy hygyrch ac yn darparu eglurder y mae ei ddirfawr angen. Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau cynllunio (ACau) i orfodi Cyfarwyddydau Erthygl 4 i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl yn lleol pan fo angen.<br><br>Cafodd y cynnig ei gefnogi gan y sawl a ymatebodd i'n hymgynghoriad, a nodwn fod yr argymhelliad hwn hefyd wedi cael cryn gefnogaeth gan y sawl a ymatebodd i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith. |
| 7-2 | Argymhellwn y dylai graddau mân weithrediadau adeiladu nad ydynt wedi'u hepgor o'r diffiniad o ddatblygiad gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 55(2)(a) ar hyn o bryd yn amod a 55(2)(a) ac a 55(2A) a (2B), gael eu hegluro drwy un ddarpariaeth i'r perwyl mai datblygiad yw unrhyw waith i gynyddu arwynebedd llawr mewnol adeilad, boed yn danddaearol ai peidio. | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru gefnogaeth aruthrol ymatebwyr i'r argymhelliad hwn a chytuna y dylai graddau mân weithrediadau adeiladu sy'n perthyn i'r diffiniad o ddatblygiad, fel y'i nodir yn adran 55 (2)(a), (2A) a (2B) ac Erthygl 2A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 gael eu symleiddio.<br><br>Cytunwn nad oes angen cyfeirio at waith i unioni difrod rhyfel mwyach. Hefyd, cytunwn â'r cynnig i gynnwys gwaith i gynyddu arwynebedd llawr mewnol adeilad yn y diffiniad o ddatblygu ond gan ddarparu ar gyfer achosion lle dylai gwaith o'r fath fod yn ddatblygiad a ganiateir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). Mae hyn yn ffordd resymegol o symleiddio'r mater o ran pryd mae gwaith addasu mewnol i adeilad yn gyfystyr â gwaith datblygu. Bydd hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy eglur, wrth ddarparu hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol hefyd - os bydd angen gwneud newidiadau o'r fath.<br><br>Wrth wneud y newid hwn, byddwn yn ceisio cynnal y sefyllfa bresennol, sef mai dim ond ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar adeilad y tu mewn y mae angen gwneud cais cynllunio, lle mae'r gwaith hwnnw yn creu mwy o le dan ddaear neu'n cynyddu arwynebedd llawr adeilad fwy na 200 metr sgwâr mewn amgylchiadau lle caiff yr adeilad hwnnw ei ddefnyddio i fanwerthu nwyddau heblaw am fwyd poeth. Byddai hyn yn golygu darparu hawliau datblygu a ganiateir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) ar gyfer gwaith i gynyddu arwynebedd llawr adeilad, heblaw lle mae'r gwaith yn gwneud y canlynol: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - darparu lle ychwanegol yn yr adeilad dan ddaear, neu<br>- cynyddu'r arwynebedd llawr fwy na 200 metr sgwâr mewn amgylchiadau lle caiff yr adeilad ei ddefnyddio i fanwerthu nwyddau heblaw am fwyd poeth.<br><br>Ni fyddai Erthygl 2A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn effeithiol mwyach ychwaith a byddai'n cael ei dileu. |
| 7-3 | Argymhellwn na ddylai'r Bil gynnwys diffiniad o "gweithrediadau peirianyddol". | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylai'r Bil cydgrynhoi geisio darparu diffiniad cynhwysfawr o weithrediadau peirianyddol.<br><br>Er y gall diffiniad ddarparu peth eglurder, mae'r mathau o ddatblygiadau a allai fod yn gyfystyr â gweithrediad peirianyddol ar hyn o bryd yn eang iawn ac mae unrhyw ymgais i ragnodi hyn mewn statud yn debygol o leihau cwmpas gwaith a allai gael ei gynnwys o bosibl yn y diffiniad o ddatblygiad.<br><br>Mae'n amlwg o'r adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod cynnwys diffiniad yn y Bil yn debygol o greu mwy o broblemau nag y byddai'n eu datrys. |
| 7-4 | Argymhellwn y dylai'r Bil Cynllunio ddarparu ar gyfer cymeradwyo rheoliadau dosbarthiadau defnydd drwy'r weithdrefn penderfynu negyddol. | Derbyn | Gan nad yw'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (a wneir o dan bwerau yn adran 55(2)(g) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu'r Senedd ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n briodol i'r offeryn statudol hwn fod yn destun gweithdrefn penderfynu negyddol y Senedd. Bydd hyn yn darparu lefel briodol o graffu gan y Senedd sy'n gyson â rheoliadau a gorchmynion tebyg eraill a wneir ar hyn o bryd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, megis y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). |
| 7-5 | Argymhellwn y dylid gwneud adran 55(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn fwy eglur drwy ddarparu bod y defnydd o adeilad a ddefnyddiwyd gynt fel nifer o anheddau gwahanol fel un neu ragor o anheddau yn newid perthnasol i'r defnydd o'r adeilad ac i bob rhan ohono a ddefnyddir felly. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y byddai'n dileu ansicrwydd i nodi'n glir y dylai unrhyw newid i nifer yr unedau preswyl mewn adeilad, boed hynny'n gynnydd neu'n lleihad, gael ei ystyried yn newid perthnasol i'r defnydd o'r adeilad, ac felly'r datblygiad. Felly, mae'r diwygiad arfaethedig i adran 55(3)(a) yn darparu mwy o eglurder o ran y gyfraith.<br><br>Er gwaethaf hyn, credwn fod lleihau nifer yr unedau preswyl, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn lleihau'r effeithiau cynllunio ac y dylid felly ei ganiatáu. O ganlyniad, byddwn yn parhau â'r sefyllfa bresennol lle na fyddai angen cais cynllunio ar gyfer newidiadau o'r fath. Cyflawnir hyn drwy wneud diwygiadau canlyniadol priodol i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) fel bod unrhyw achos o leihau nifer yr unedau preswyl mewn adeilad yn ddatblygiad a ganiateir.<br><br>Fodd bynnag, lle gallai newid o'r fath esgor ar effeithiau cynllunio andwyol, er enghraifft lle mae pwysau ar y stoc dai bresennol, byddai ACau yn gallu defnyddio Cyfarwyddydau Erthygl 4 er mwyn dileu hawliau datblygu a ganiateir a chymhwyso polisïau cynlluniau datblygu lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer newidiadau o'r fath. |
| 7-6 | Argymhellwn y dylid gwneud adran 55(2)(d) i (f) yn fwy eglur drwy ddarparu y dylid tybio nad yw'r newidiadau defnydd canlynol at ddibenion y Ddeddf yn cynnwys datblygu'r tir:<br>1) y newid defnydd tir o fewn cwrtil annedd i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â mwynhad o'r annedd fel y cyfryw; | Accept | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai newid technegol yn unig ydyw a fydd yn egluro sefyllfa bresennol y gyfraith ynghylch newid defnydd. Ar y sail hon cefnogir yr argymhelliad.<br><br>Fodd bynnag, nodwn sylwadau rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch geiriad arfaethedig y ddarpariaeth ddiwygiedig, yn enwedig o ran (1). Bydd union eiriad y ddarpariaeth yn gofyn am ystyriaeth ofalus wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2) y newid defnydd o unrhyw dir i'w ddefnyddio at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth (gan gynnwys coedwigo) a'r newid defnydd o unrhyw adeilad a feddiennir ynghyd â'r tir fel y'i defnyddir at unrhyw un o'r dibenion hynny;<br>3) yn achos adeiladau neu dir arall a ddefnyddir at ddefnydd o fewn unrhyw ddosbarth a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon, y newid defnydd o'r adeiladau neu'r tir arall neu, yn ddarostyngedig i'r rheoliadau, o unrhyw ran o'r adeiladau neu'r tir arall, o'r defnydd hwnnw i unrhyw ddefnydd arall o fewn yr un dosbarth. | | |
| 7-7 | Argymhellwn na ddylai adran 58 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ffyrdd o roi caniatâd cynllunio) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd ar ei ffurf bresennol, ond y dylai rhestr gynhwysfawr, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd yn ôl y gofyn, gael ei chynnwys mewn canllawiau. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw diben adran 58 yn glir, nad yw'n ychwanegu unrhyw beth o sylwedd, a'i bod yn gamarweiniol am nad yw'r rhestr yn un gynhwysfawr. Felly, ni ddylai gael ei hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi ar ei ffurf bresennol.<br><br>Fel mae Comisiwn y Gyfraith yn ei gydnabod, gall y Bil cydgrynhoi gynnwys trosolygon a chyfeirio at ddarpariaethau. Nid oes gan y darpariaethau hyn unrhyw effaith sylweddol, ond bwriedir iddynt helpu i wneud y ddeddfwriaeth yn hygyrch i'r darllenydd. Wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi, byddwn yn ystyried a ddylai trosolygon a chyfeiriadau gael eu cynnwys er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch.<br><br>Nodwn farn y Comisiwn y gallai fod yn well cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r ffyrdd o roi caniatâd cynllunio yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu. Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o raglen waith yn y dyfodol i ddiweddaru'r Llawlyfr Rheoli Datblygu. |
| 7-8 | Argymhellwn na ddylai adran 61 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud yn bennaf â chymhwysedd deddfwriaeth cyn 1947 ) gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. | Derbyn | Nid ydym yn ymwybodol o ddarpariaethau mewn gorchmynion datblygu a wneir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n dibynnu ar is-adrannau adran 61(3) a (3). Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes gan adran 61(2) a (3) unrhyw ddefnydd ymarferol nac effaith ac na ddylai felly gael ei hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi. Fel y nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, nid oes angen adran 61(1) mwyach am ei bod yn cael ei dyblygu gan adran 333(4B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |
| 7-9 | Argymhellwn na ddylai adrannau 88 nac 89 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (caniatâd cynllunio a roddir gan gynllun ardal fenter) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. | Derbyn | Mae adrannau 88 ac 89 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu a ddisgrifir mewn cynllun sy'n dynodi ardal fenter. Caiff cynlluniau ardaloedd menter eu cymeradwyo gan Orchmynion a wneir o dan Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.<br><br>Mae Gorchmynion Datblygu Lleol, a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2012 drwy fewnosod adrannau 61A-61D o, ac Atodlen 4A i, Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn galluogi ACau i gyflawni canlyniad tebyg.<br><br>Ers i ddarpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ddod i rym, gwnaed pedwar Gorchymyn yn dynodi ardaloedd menter yng Nghymru, gyda phob un wedi'i sbarduno gan un Awdurdod Lleol a'i ddynodi o fewn ei hardal gyfan. Petai'r ardaloedd menter hynny yn cael eu dynodi heddiw, i'r graddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio gan adrannau 88 ac 89, gallai ACau gyflawni canlyniad tebyg o ran rhoi caniatâd cynllunio drwy Orchymyn Datblygu Lleol. Felly, ni fyddai angen adrannau 88 nac 89 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn ein hymateb manwl i Argymhelliad 16-8, cytunwn y dylid datgymhwyso darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn ymwneud ag ardaloedd menter, at ddibenion Cymru. Mae'n dilyn nad oes angen i adrannau 88 ac 89 gael eu hailddatgan yn y Bil newydd. |
| 7-10 | Argymhellwn na ddylai adrannau 82 i 87 ac Atodlen 7 i'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (parthau cynllunio syml) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod Gorchmynion Datblygu Lleol yn darparu dull mwy syml a phriodol o leihau gofynion cynllunio datblygwyr er mwyn annog gwaith datblygu mewn ardal benodol o gymharu â pharthau cynllunio syml.<br><br>Mae Gorchmynion Datblygu Lleol yn cyflawni'r un effaith â pharthau cynllunio syml drwy sefydlu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau mewn lleoliadau diffiniedig â gweithdrefn symlach ar gyfer eu sefydlu.<br><br>Ar y sail hon cytunwn na ddylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â pharthau cynllunio syml gael eu hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi. |
| 7-11 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â therfynau amser a thystysgrifau cyfreithlondeb, a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 171B a 191 a 196, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio newydd ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â'r angen am ganiatâd cynllunio. Dylent gael eu drafftio ar hyd llinellau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 64(1) (gan gynnwys cyfeiriad at yr angen am gyflwyno cais cynllunio, yng ngoleuni gorchmynion datblygu cyffredinol a lleol, ond nid cynlluniau ardal fenter na chynlluniau parth cynllunio syml). | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai unrhyw un fod yn gallu pennu a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer gweithrediad neu newid defnydd. Mae'r weithdrefn dystysgrif bresennol yn darparu ar gyfer hyn ac felly mae'n rhaid ei chadw yn y Bil cydgrynhoi.<br><br>Nodwn gefnogaeth ymatebwyr i ailffraimio'r darpariaethau fel mai'r man cychwyn yw diffinio a yw'r datblygiad yn "weithrediad cyfreithlon" ac yn "ddefnydd cyfreithlon" yn hytrach nag fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, p'un a yw wedi'i eithrio o gamau gorfodi ai peidio. Er ein bod yn cefnogi'r dull hwn o weithredu mewn egwyddor, fe'i hystyrir ymhellach wrth ddrafftio'r Bil er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i ailffraimio'r darpariaethau yn y ffordd hon. Byddwn hefyd yn achub ar y cyfle i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch wrth strwythuro'r Bil cydgrynhoi, gan sicrhau bod y darpariaethau hyn wedi'u lleoli'n briodol yn y rhan berthnasol o'r Bil.<br><br>Amlinellir ein barn o ran ardaloedd menter a pharthau cynllunio syml yn ein hymatebion i Argymhellion 7-9, 7-10 ac 16-8. |
| 7-12 | Argymhellwn na ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl y dylid tybio bod cais am ganiatâd cynllunio yn cynnwys cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad neu dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli; ond y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru atgoffa awdurdodau cynllunio i ystyried, wrth ddilysu ceisiadau, p'un a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y cynnig dan sylw mewn gwirionedd ac, os felly, p'un a yw'n cael ei roi drwy orchymyn datblygu. | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru farn ddiwygiedig Comisiwn y Gyfraith am y mater hwn ar ôl ystyried y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr i'r cynnig yn yr ymgynghoriad. Cytunwn â barn ddiwygiedig Comisiwn y Gyfraith na ddylai darpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y Bil.<br><br>Mae'r materion i'w pennu a'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais am dystysgrif cyfreithlondeb yn wahanol iawn i'r rhai ar gyfer cais cynllunio. Er y gall y ddau gais orgyffwrdd, byddant yn dra gwahanol - rhoddir tystysgrif yn seiliedig ar ystyriaethau ffeithiol ynghylch a yw'r datblygiad dan sylw yn cydymffurfio â'r gyfraith, a chymeradwyir cais cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau yn erbyn polisïau cynllunio.<br><br>Yn ymarferol, y man cychwyn i ACau wrth ystyried cais am ganiatâd cynllunio fydd nodi ai datblygiad yw'r cynnig ac, os felly, a gaiff ei roi gan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). Os na fydd angen caniatâd cynllunio, bydd awdurdodau yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig ac yn gwahodd cais am dystysgrif cyfreithlondeb.<br><br>Fel yr awgrymir yn yr Adroddiad, byddwn yn darparu canllawiau priodol ar y camau i'w cymryd yn hyn o beth mewn diweddariad pellach i'r Llawlyfr Rheoli Datblygu. |

## Pennod 8 - Ceisiadau i’r awdurdod cynllunio

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 8-1 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylid cadw darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio amlinellol yn y Bil, ond eu gwneud yn gliriach, a'u dwyn ynghyd yn yr un rhan o'r Ddeddf â'r rhai sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio manwl, sydd yn adrannau 62 a 70 ar hyn o bryd; ac<br>2) pan gaiff y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)(Cymru) ei ddiweddaru nesaf, dylid ystyried p'un a ddylid ychwanegu categorïau o faterion at y rhestr o'r rhai y gellir eu cadw yn ôl ar hyn o bryd i'w cymeradwyo'n ddiweddarach. | Gwrthod | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y problemau a nodwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r weithdrefn amlinellol bresennol.<br><br>Cytunwn ag asesiad Comisiwn y Gyfraith yn y ddogfen ymgynghori nad oes unrhyw wahaniaeth amlwg mewn egwyddor mwyach rhwng rhoi caniatâd llawn, ac yna gymeradwyo materion sy'n ofynnol o dan un neu ragor o amodau, a rhoi caniatâd amlinellol ac yna gymeradwyo'r materion a gadwyd yn ôl. Cytunwn, yn y naill achos a'r llall, y caiff egwyddor y datblygiad arfaethedig ei chymeradwyo drwy roi caniatâd i ddechrau, ond ni all fynd rhagddo'n gyfreithlon nes bod yr holl fanylion wedi cael eu cymeradwyo. Mae lefel y wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cais cynllunio amlinellol yn debyg iawn i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer cais llawn, yn arbennig o ganlyniad i erthygl 3(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.<br><br>Rydym yn cydnabod natur ranedig yr ymatebion i'r cwestiwn ymgynghori hwn. Er hyn, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod yr argymhelliad am nad yw'n cynnig diwygio'r broses caniatâd cynllunio amlinellol mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Credwn o hyd fod y gwahaniaeth rhwng caniatâd cynllunio amlinellol a chaniatâd cynllunio llawn wedi lleihau i'r graddau ei bod yn rhaid ailystyried gwerth cais amlinellol.<br><br>I'r graddau hynny, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i werth caniatâd cynllunio amlinellol ar ei ffurf bresennol fel rhan o adolygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried a ddylai caniatâd mewn egwyddor, fel y cyflwynwyd yn Lloegr gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016, gael ei gyflwyno yng Nghymru. Bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn gyfystyr â newid polisi, y byddai angen Bil diwygio yn y dyfodol i'w gyflawni. Bydd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, a'r sylwadau a wnaed gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad i lywio'r Bil hwnnw.<br><br>Fydd bynnag, gan ei bod yn debygol yr eir ar drywydd Bil Cydgrynhoi Cynllunio cyn y rhaglen waith hon ar gyfer y dyfodol a'r angen posibl am Fil diwygio, caiff y darpariaethau presennol sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio amlinellol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eu cynnwys fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi. O ran y ffordd y cânt eu cyflwyno yn y Bil cydgrynhoi, cytunwn â barn Comisiwn y Gyfraith y byddai'r gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch petai'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio amlinellol wedi'u lleoli'n agosach at y darpariaethau hynny sy'n gysylltiedig â gwneud a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio manwl – er mwyn adlewyrchu'r dull rydym wedi'i ddilyn yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru).<br><br>Gan ein bod yn cynnig y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ganiatâd cynllunio amlinellol, nid ydym yn bwriadu gwneud newidiadau fesul cam i'r elfen hon o'r system. Felly, ni fyddwn yn ystyried gwneud newidiadau i'r categorïau cyfredol o faterion y gellir eu cadw yn ôl i'w cymeradwyo'n ddiweddarach, fel y cynigiwyd yn Argymhelliad 8-1(2), ar wahân i'r adolygiad hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-2 | Argymhellwn na ddylai adran 327A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – sy'n darparu bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio beidio ag ystyried ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol – gael ei hailddatgan yn y Bil. | Gwrthod | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae adran 327A yn nodi'n glir na chaniateir i Awdurdod Cynllunio (AC) ystyried cais os nad yw'n bodloni gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) o ran ar ba ffurf neu ym mha ffordd y mae'n rhaid iddo gael ei wneud a ffurf neu gynnwys unrhyw ddeunydd ategol a gyflwynir gyda'r cais. Credwn fod y ddyletswydd hon yn hanfodol i gynnal y broses ddilysu, er mwyn cynnal safon y cais a sicrhau y caiff cais cyflawn ei gyflwyno sy'n rhoi digon o wybodaeth i ACau allu penderfynu arno o fewn yr amserlenni statudol. Mae adran 327A yn sicrhau dull dilysu cyson ledled y wlad fel bod angen yr un lefel o wybodaeth i gyflwyno cais dilys, ni waeth ble y caiff y cais hwnnw ei gyflwyno.<br><br>Nodwn y pryder y gallai adran 327A gael ei ddefnyddio fel llwybr herio gan drydydd partïon. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod gan y llys ddisgresiwn ynghylch rhwymedi. At hynny, pryderwn ynglŷn â chanlyniadau peidio ag ailddatgan yr adran hon yn y Bil cydgrynhoi. Bydd peidio ag ailddatgan y ddarpariaeth yn cyflwyno disgresiwn i ACau, ac ansicrwydd yn y pen draw, yn y broses ddilysu er anfantais i geisyddion.<br><br>Mae adran 327A hefyd yn darparu cysylltiad pwysig â'r hysbysiadau barnu'n annilys a'r system apelio. Mae adran 62ZA yn ei gwneud yn ofynnol i AC roi hysbysiad ffurfiol i geisydd os yw o'r farn nad yw'r cais a gyflwynwyd iddo yn cydymffurfio â “gofyniad dilysu” a osodwyd gan adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng adran 62ZA(7) ac adran 327A o ran y diffiniad o'r term “gofyniad dilysu”. Mae adran 62ZB yn rhoi hawl i geisyddion apelio i Weinidogion Cymru os yw'r AC wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 62ZA ei fod o'r farn bod cais yn annilys. Credwn fod y broses ddilysu a'r system apelio'n gweithio'n dda ar eu ffurf bresennol.<br><br>At hynny, nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â dehongliad Comisiwn y Gyfraith o'r berthynas rhwng adran 62, adran 62ZA ac adran 327A a'u heffaith gyfunol ar bolisi. Nid ydynt yn gweithredu fel ffordd o roi rhybudd cynnar er mwyn tynnu sylw ceisyddion ar gamgymeriadau a hepgoriadau. Maent yn cynnig trefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r AC roi hysbysiad (ar ôl cyfnod o negodi â'r ceisydd mewn rhai achosion) sy'n nodi eu penderfyniad ffurfiol a therfynol nad yw'r cais a gyflwynwyd iddynt yn cydymffurfio â “gofyniad dilysu”. Adlewyrchir y sefyllfa hon yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu (Diwygiad 2, Mai 2017), sy'n nodi yng nghyd-destun apeliadau yn erbyn hysbysiad barnu'n annilys mai “*...yr hysbysiad fydd yr unig gyfle a gaiff yr ACLl i gyflwyno'i achos ac egluro pam y mae'n credu bod y cais yn annilys*”. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y ffaith mai'r hysbysiad yw penderfyniad ffurfiol a therfynol yr AC, a gaiff ei gyflwyno wedyn fel sylwadau'r AC mewn unrhyw apêl gan y ceisydd. |
| 8-3 | Argymhellwn y dylai adran 65(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (tystysgrifau perchenogaeth) gael ei hailddatgan yn y Bil ar ei ffurf bresennol. | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru fod y cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori wedi cael ei ddiwygio yn sgil sylwadau ymatebwyr, yn enwedig y rhai a wnaed gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y gofynion hysbysu ac ardystio o dan adran 65. Mae adran 65(5) yn nodi'n glir na chaniateir i AC ystyried cais sy'n methu â bodloni'r gofynion hyn.<br><br>Cytunwn â sylwadau'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai cael gwared ar adran 65(5) effeithio ar gyfranogiad tirfeddianwyr neu feddianwyr hirdymor yn y broses gwneud cais. Bydd ailddatgan adran 65(5) yn cynnal y safbwynt polisi presennol.<br><br>Nodwn y sylwadau a wnaed gan rai ymatebwyr ynglŷn â'r dryswch y gall tystysgrifau ei beri i geisyddion a'r gwelliannau a awgrymir y gellid eu gwneud i'r ffurflen gais er mwyn rhoi mwy o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | eglurder. Byddwn yn ystyried y gwelliannau hyn fel rhan o'n rhaglen waith yn y dyfodol i ategu'r Bil cydgrynhoi. |
| 8-4 | Argymhellwn y dylai gofynion adran 65(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y ddarpariaeth honno ynghylch hysbysu tenantiaid amaethyddol o geisiadau cynllunio a hysbysiadau am geisiadau mwynau gael eu hailddrafftio er mwyn nodi'r amgylchiadau cyfyngedig y maent yn gymwys ynddynt yn glir. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â'r argymhelliad hwn. Rydym yn cydnabod y gall y dystysgrif daliadau amaethyddol yn arbennig beri dryswch i geisyddion, sydd i'w weld yn glir yn y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r gefnogaeth eang o blaid yr argymhelliad. Gallai'r dryswch hwn olygu y caiff ceisiadau annilys eu cyflwyno ac arwain at oedi cyn i geisiadau gael eu dilysu a chyn i benderfyniadau gael eu gwneud arnynt wedi hynny.<br><br>Bydd angen inni ystyried yn fanylach a fydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddelio â'r materion a godwyd, neu a ellid gwneud diwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth neu i'r canllawiau a'r ffurflenni rhagnodedig. |
| 8-5 | Argymhellwn y dylai adran 70A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (pŵer i wrthod ceisiadau tebyg) gael ei hailddatgan yn y Bil ar y ffurf y mae'n gymwys yn Lloegr ar ôl diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008, ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai adran 70A gael ei hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi.<br><br>Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn egwyddor y diwygiad a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i ganiatáu i ACau wrthod penderfynu ar gais os cafodd dau gais tebyg eu gwrthod yn flaenorol (heb apêl), h.y. er mwyn atal ceisydd rhag ceisio sicrhau caniatâd drwy broses o athreuliad, nid ydym am ddechrau gwneud y diwygiad hwn oherwydd gallai'r ddarpariaeth wrthdaro â'r cysyniad o olrhain ar y cyd, a chadw'r cysyniad hwnnw yw safbwynt polisi Llywodraeth Cymru o hyd. Yn ein barn ni, gall olrhain ar y cyd, h.y. cyflwyno ail gais ar yr un pryd â chais tebyg neu tra bo cais tebyg yn cael ei ystyried, gyflymu'r broses gynllunio os oes mwy nag un opsiwn datblygu, yn ogystal â sicrhau dull cyfryngu arall er mwyn cadw'r ddeialog yn agored wrth drafod opsiynau amgen posibl. Os caiff dau gais a gyflwynwyd ar y cyd eu gwrthod gan AC, gallai adran 70A(4) (mewn grym yn Lloegr fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) atal unrhyw geisiadau pellach rhag cael eu cyflwyno.<br><br>Gan y bydd olrhain ar y cyd yn parhau yng Nghymru, sy'n ddull a gefnogir gan Gomisiwn y Gyfraith yn y testun ategol i Argymhelliad 8-6, byddwn yn ceisio rhoi egwyddor diwygiad 2004 ar waith ond yn sicrhau y gall y datblygwr fynd rhagddo drwy'r broses o roi caniatâd ddwywaith, lle bo un o'r troeon hyn yn gynnig a gaiff ei olrhain ar y cyd (h.y. tri chais i gyd) nad yw diwygiad 2004 yn darparu ar ei gyfer. Er mwyn inni fynd ati i addasu diwygiad 2004, mae'n debygol y bydd hyn yn gyfystyr â newid polisi y byddai angen ei gynnwys mewn Bil diwygio yn y dyfodol.<br><br>At hynny, nid ydym yn bwriadu ailddatgan y ddarpariaeth yn y Bil fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008. Diwygiodd Deddf Cynllunio 2008 adran 70A er mwyn caniatáu i AC wrthod penderfynu ar gais os yw'r un peth neu'r un peth i raddau helaeth â chais tybiedig sy'n deillio o apêl gorfodi a wrthodwyd. Credwn fod y pwerau yn adran 70C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n gymwys yng Nghymru, yn rhoi pwerau digonol i awdurdodau cynllunio mewn achosion lle y rhoddwyd hysbysiad gorfodi.<br><br>Felly, i grynhoi, byddwn yn ceisio ailddatgan adran 70A ar ffurf ddiwygiedig sy'n rhoi egwyddor diwygiad 2004 ar waith mewn perthynas â cheisiadau lluosog, gan addasu'r diwygiad er mwyn cadw olrhain ar y cyd yng Nghymru. Ni chaiff diwygiad 2008 mewn perthynas â cheisiadau tybiedig ei roi ar waith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-6 | Argymhellwn y dylai adran 78A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi cyfnod o awdurdodaeth ddeuol rhwng yr awdurdodau cynllunio a'r Arolygiaeth Gynllunio gael ei hailddatgan yn y Bil, ond nid adran 70B (sy'n atal olrhain ar y cyd i bob diben). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith na ddylai adran 78A gael ei hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi.<br><br>Cytunwn hefyd na ddylai adran 70B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei chyflwyno yng Nghymru ac felly na ddylai gael ei chynnwys yn y Bil. Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 8-5, cadw olrhain ar y cyd yw safbwynt polisi Llywodraeth Cymru o hyd. Gall olrhain ar y cyd gyflymu'r broses gynllunio os oes mwy nag un opsiwn datblygu, yn ogystal â chadw'r ddeialog yn agored wrth drafod opsiynau amgen posibl. Gan mai bwriad adran 70B oedd atal y broses olrhain ar y cyd, nid ydym am gyflwyno'r ddarpariaeth hon yng Nghymru. |
| 8-7 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio baratoi datganiad sy'n nodi'r categorïau hynny o bobl a sefydliadau yn y gymuned (gan gynnwys cynghorau cymuned a thref) y bydd yn ceisio eu cynnwys yn y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor cynyddu cyfraniad y cyhoedd yn y broses o wneud cais cynllunio, am ei bod yn hanfodol ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn llunio'r lleoedd lle maent yn byw.<br><br>Fodd bynnag, credwn fod angen adolygiad mwy sylfaenol o ymgysylltu lleol yn y system gynllunio. Dyma pam y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad helaeth ac eang o ymgysylltu ym mhob rhan o'r system gynllunio, gan gynnwys opsiynau ar gyfer moderneiddio'r broses gyhoeddusrwydd. Rydym wrthi'n cwmpasu'r gwaith hwn, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r adolygiad. Bydd unrhyw newid i ddeddfwriaeth sylfaenol y bydd ei angen o ganlyniad i'r casgliadau yn ffurfio sylfaen dystiolaeth i lywio Bil diwygio yn y dyfodol. |
| 8-8 | Argymhellwn na ddylid diwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) mewn perthynas â sylwadau sy'n ymwneud â chais cynllunio sy'n dod i law ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori o 21 diwrnod; dylai unrhyw rwymedigaeth i ystyried sylwadau diweddarach aros, fel y mae ar hyn o bryd, yn fater o arfer da. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a fynegodd bryderon am gamddefnydd posibl gan bobl sy'n ceisio rhwystro ac oedi unrhyw benderfyniadau gan AC petai gofyniad yn cael ei osod mewn statud y dylid ystyried sylwadau a ddaw i law ar ôl i'r cyfnod ymgynghoriad 21 diwrnod ddod i ben, ond cyn dyddiad y penderfyniad.<br><br>Fel mater o arfer dda, dylai ACau ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl y cyfnod cyhoeddusrwydd ond cyn i benderfyniad ffurfiol gael ei wneud ar y cais. Mae paragraff 8.2.9 o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu (Diwygiad 2, Mai 2017) yn nodi hyn yn glir drwy gynghori y dylai unrhyw sylwadau perthnasol a ddaw i law ar ôl y cyfnod cyhoeddusrwydd hefyd gael eu hystyried, os nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cais. Felly, cytunwn â'r argymhelliad y dylai'r sefyllfa a'r arferion presennol mewn perthynas â'r mater hwn gael eu cynnal. |
| 8-9 | Argymhellwn y dylai'r term “amod” gael ei ddiffinio er mwyn cynnwys “cyfyngiad”. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor o ddileu'r gwahaniaeth rhwng amodau a chyfyngiadau, a nodwn y cafwyd cefnogaeth eang o blaid yr egwyddor gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Rydym yn derbyn ac yn cytuno bod y gwahaniaeth rhwng ‘cyfyngiad’ ac ‘amod’ yn ddryslyd ac yn cymhlethu'r gyfraith yn ddiangen. Bydd integreiddio’r termau yn rhoi eglurder o ran y gyfraith a chysondeb ym mhob rhan o'r Bil. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil gael ei ystyried yn ofalus yng nghyd-destun pob darpariaeth ac yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth gyfan, yn enwedig yn yr achosion hynny lle mae'r darpariaethau'n cyfeirio at “amodau” yn unig neu at “gyfyngiadau” yn unig. Bydd hynny'n cynnwys ystyried ai diffinio “amod” er mwyn cynnwys “cyfyngiad” yw'r ffordd fwyaf defnyddiol o weithredu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-10 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai'r Bil gynnwys pŵer cyffredinol i awdurdodau cynllunio osod y cyfryw amodau [neu gyfyngiadau] ag y gwelont yn dda, cyhyd â'u bod:<br>o yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio,<br>o yn berthnasol i'r datblygiad ac i ystyriaethau cynllunio yn gyffredinol,<br>o yn ddigon manwl gywir i allu cydymffurfio â hwy a'u gorfodi<br>o yn rhesymol ym mhob ffordd arall;<br>2) dylai fod gan ymgeiswyr yr hawl i weld amodau drafft a gynigir gan awdurdod cynllunio sy'n penderfynu ar gais, gyda chyfnod cyfyngedig ar gyfer ymateb, a dyletswydd ar yr awdurdod i roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir. | Derbyn | Cytunwn y byddai'n ddefnyddiol i'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r pŵer i osod amodau, mewn termau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y dyfarniad yn *Newbury* ac mewn canllawiau presennol. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd y gyfraith a dealltwriaeth ohoni. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil gael ei ystyried yn ofalus.<br><br>Rydym hefyd yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith y dylid hefyd gyflwyno pŵer galluogi er mwyn gallu rhoi hawl i geisyddion weld amodau drafft a gynigir gan AC sy'n penderfynu ar gais. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu yn cynghori awdurdodau lleol i edrych yn ffafriol ar geisiadau gan geisyddion i weld amodau drafft. Bydd gosod y gofyniad hwn mewn statud yn sicrhau dull cyson ledled Cymru ac o bosibl yn golygu y caiff llai o amodau wedi'u drafftio'n wael eu cynnwys mewn hysbysiadau o benderfyniad.<br><br>Er bod Comisiwn y Gyfraith wedi amlinellu gweithdrefn amlinellol yn yr adroddiad terfynol, bydd angen ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid wrth ei datblygu er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hwyluso trafodaeth rhwng AC a cheisydd, a gwneud penderfyniadau amserol. Bydd angen ystyried materion fel cwmpas y swyddogaethau, y cyfnod hysbysu ac unrhyw newidiadau angenrheidiol i dargedau perfformiad ymhellach. |
| 8-11 | Argymhellwn, yn ogystal â'r pŵer cyffredinol i osod amodau y cyfeirir ato yn Argymhelliad 8-10, mai dim ond pŵer penodol i osod amodau o fath penodol lle mae angen awdurdod statudol y dylid ei gynnwys yn y Bil – er enghraifft, er mwyn gallu gorfodi amod o'r fath yn erbyn person heblaw'r ymgeisydd – fel arall dylai cyngor ar amodau fod mewn canllawiau. | Derbyn | Ar sail trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith, cawn ar ddeall bod Comisiwn y Gyfraith yn argymell mai dim ond ar gyfer amodau ychwanegol mewn perthynas â materion nas cwmpesir gan y pŵer cyffredinol i osod amodau y cyfeirir atynt yn Argymhelliad 8-10 y dylid gwneud darpariaeth benodol. Yr amodau hyn yw'r rhai y cyfeirir atynt yn Argymhellion 8-15, 8-16 ac 8-18. Rydym wedi ymateb i bob un o'r argymhellion hyn yn unigol. Dylai cyngor gael ei roi mewn canllawiau ar gyfer pob math arall o amod.<br><br>Ar sail y ddealltwriaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn. |
| 8-12 | Argymhellwn na ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n galluogi gosod amodau i'r perwyl:<br>1) na fydd y gwaith cymeradwy yn dechrau nes bod rhyw ddigwyddiad penodol wedi digwydd (amod Grampian); neu<br>2) na fydd y gwaith cymeradwy yn cael ei wneud nes bod:<br>o contract ar gyfer rhyw ddatblygiad arall wedi'i wneud;<br>o caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y datblygiad y mae'r contract yn darparu ar ei gyfer,<br><br>ond y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gynnwys cyngor ar yr amgylchiadau lle y byddai amodau o'r fath yn briodol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes rheswm dros gynnwys darpariaeth benodol yn y Bil sy'n galluogi gosod amodau Grampian. Rydym yn cytuno bod y llysoedd wedi cadarnhau cyfreithlondeb gosod amodau Grampian y tu hwnt i bob amheuaeth. Felly, yn unol ag Argymhelliad 8-11 – h.y. mai dim ond pŵer penodol i osod amodau o fath penodol lle mae angen awdurdod statudol y dylid ei gynnwys yn y Bil – mae darpariaeth o'r fath yn ddiangen.<br><br>Pan gaiff y Llawlyfr Rheoli Datblygu ei adolygu a'i ddiweddaru nesaf i ymgorffori Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, gellir ymhelaethu ar y canllawiau sydd ynddo ar ddefnyddio amodau Grampian i roi mwy o hyder i ACau wrth osod amodau o'r fath. |
| 8-13 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n annog awdurdodau i beidio â chreu unrhyw feichiau diangen drwy osod amodau amhriodol, ac yn benodol drwy beidio â drafftio amodau drwy gyfeirio at gychwyn datblygiad;<br>2) ni ddylid gwneud unrhyw newid deddfwriaethol i alluogi amodau cyn cychwyn i gael eu categoreiddio'n bendant (yn unol â Hart Aggregates);<br>3) lle y rhoddir caniatâd, yn ddarostyngedig i un neu ragor o amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol peidio cychwyn ar y | 8-13(1) ac 8-13(2) - Derbyn<br><br>8-13(3) - Gwrthod<br><br>8-13(4) - Derbyn mewn egwyddor | Mewn perthynas ag Argymhelliad 8-13(1), mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd unrhyw adolygiad o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu yn cynnwys canllawiau yn annog awdurdodau i beidio â chreu beichiau diangen drwy osod amodau amhriodol. Yng ngoleuni Argymhelliad 8-13(2), gall ein hadolygiad o'r canllawiau hyn yn y dyfodol hefyd gynnig cyfle i roi mwy o eglurder ynglŷn â chynsail amodau yng ngoleuni'r egwyddorion sy'n deillio o gyfraith achosion.<br><br>Ni chytunwn â'r cynnig a nodir yn Argymhelliad 8-13(3) mewn perthynas â rhoi cyfle i geisyddion wneud cais am dystysgrif i gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r holl amodau cyn cychwyn. Ystyriwyd cynnig tebyg wrth lunio Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ond ni wnaeth Llywodraeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | datblygiad dan sylw nes bod materion penodol wedi'u datrys, dylai ymgeisydd allu gwneud cais am dystysgrif yn nodi ei fod wedi cydymffurfio â phob un o'r amodau hynny;<br>4) a phan fo datblygiad wedi cychwyn yn groes i gynsail amodol ac, o ganlyniad i hynny, ystyrir ei fod yn rhydd rhag camau gorfodi, tybir bod y caniatâd a fyddai fel arall wedi'i awdurdodi wedi'i roi heb yr amod dan sylw, fel y gall yr amodau eraill ddal mewn bod ac yn orfodadwy. | | Cymru fwrw ymlaen ag ef am fod ACau eisoes yn cynnig cyfle o'r fath ar ffurf tystysgrif cyfreithlondeb. Hefyd, mae'n annhebygol y byddai gweithdrefn o'r fath yn arwain at benderfyniad pendant mewn achosion lle byddai amod yn gofyn am gydymffurfiaeth barhaus. Byddai cyflwyno gweithdrefn newydd yn cyflwyno cymhlethdod diangen yn hytrach nag eglurder.<br><br>Yn olaf, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig y rhai gan Gymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd, cytunwn ag egwyddor Argymhelliad 8-13(4). Lle yr eir ati i ddatblygu heb gydymffurfio ag amod cyn cychwyn, nodwn y gyfraith achosion helaeth. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn y pryder, os na fydd caniatâd wedi cael ei roi ar waith, y gallai wedyn ddod yn rhydd rhag camau gorfodi pan ddaw'r cyfnod a nodir yn adran 171B(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ben, a pharhau i fod yn rhydd rhag unrhyw reolaethau amodol a osodwyd o dan y caniatâd cynllunio 'nas rhoddwyd ar waith' gwreiddiol. Er y byddai camau gorfodi cynllunio effeithiol ac amserol yn atal hyn rhag digwydd, cydnabyddir y bydd achosion pan ddaw datblygiad yn rhydd rhag camau gorfodi dan yr amgylchiadau hyn, gan arwain at amodau a all fod wedi cael eu gosod i reoli effeithiau datblygiad nad yw'n orfodadwy mwyach. Byddwn yn ystyried sut y gellid datrys y broblem hon, gan gynnwys yr argymhelliad i dybio bod caniatâd wedi cael ei roi gan hepgor yr amod(au) dan sylw, sy'n golygu y gall yr amodau sy'n weddill barhau i fodoli a bod yn orfodadwy. Bydd angen ystyried ymhellach er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddatrysiad yn arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd.<br><br>I'r graddau y byddai unrhyw ddatrysiad yn gyfystyr â newid polisi, mae'n debygol y bydd angen Bil diwygio i'w gyflawni yn hytrach na gwneud hynny drwy gwmpas yr ymarfer cydgrynhoi. Bydd yn bwysig ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid fel rhan o'r adolygiad i lywio'r Bil hwnnw er mwyn nodi unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd yn sgil y newid hwn. |
| 8-14 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Bil yn nodi'r canlynol:<br>1) bod yn rhaid i ddatblygiad a awdurdodir drwy ganiatâd a roddir mewn ymateb i gais gychwyn erbyn y dyddiad neu'r dyddiadau a bennwyd mewn unrhyw amod perthnasol;<br>2) yn absenoldeb unrhyw amod o'r fath, bod yn rhaid i'r datblygiad gychwyn o fewn pum mlynedd i roi caniatâd. | Derbyn | Ar ôl trafod â Chomisiwn y Gyfraith, mae Llywodraeth Cymru ar ddeall nad newid y gyfraith yw'r bwriad (h.y. ni fwriedir cyfyngu'r argymhelliad hwn i ddatblygiadau a awdurdodir drwy ganiatâd ar adeg gwneud cais).<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylid cynnal y ddarpariaeth gyfredol ei bod yn rhaid i ddatblygiad gychwyn erbyn y dyddiad a bennwyd mewn unrhyw amod perthnasol; neu o fewn pum mlynedd yn absenoldeb unrhyw amod o'r fath. Nodwn safbwynt Comisiwn y Gyfraith y caiff adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei chamddehongli'n aml yn ymarferol fel gofyniad bod yn rhaid i'r holl ddatblygiad gael ei gwblhau o fewn pum mlynedd, yn ddieithriad. Cawn ar ddeall mai argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yw y dylai'r Bil egluro mai trefniant i'w ddefnyddio os na chaiff cyfnod arall ei bennu yw'r cyfnod pum mlynedd. Ystyrir y ffordd orau o gyflawni hyn yn ystod y gwaith o ddrafftio'r Bil cydgrynhoi.<br><br>Rydym hefyd yn cytuno â'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod amodau sy'n ymwneud â datblygiadau ar sawl cam yn codi materion gwahanol o'u cymharu â datblygiadau symlach. Dylai datblygiadau o'r fath fod yn destun cyd-drafod rhwng yr AC a'r datblygwr i gytuno ar amserlen gychwyn ac ni ddylent fod yn ddarostyngedig i gyfnod diofyn. |
| 8-15 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl y gall awdurdodau cynllunio osod amodau sy'n darparu y dylai'r datblygiad neu'r defnydd o dir o dan reolaeth yr ymgeisydd (p'un a yw'n dir y mae'r cais wedi'i wneud mewn perthynas ag ef ai peidio) gael ei reoleiddio er mwyn sicrhau bod y datblygiad cymeradwy yn dderbyniol o ran cynllunio ac yn parhau felly. | Derbyn | Yn dilyn trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith, cawn ar ddeall mai bwriad yr argymhelliad hwn yw ailddatgan adran 72(1)(a) ac, ar y sail honno, cytunwn â'r argymhelliad.<br><br>Bydd cadw darpariaeth gyfatebol yn helpu i osgoi unrhyw amheuaeth a allai godi fel arall ynghylch cyfreithlondeb amodau o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-16 | Argymhellwn y dylai'r Bil, neu reoliadau o dan y Bil, alluogi gosod amodau lle y rhoddwyd caniatâd am gyfnod cyfyngedig, i'r perwyl:<br>1) ar ddiwedd y cyfnod bod yn rhaid i'r adeiladau neu'r gwaith a awdurdodwyd gan y caniatâd gael eu gwaredu, neu fod yn rhaid i'r defnydd a awdurdodwyd ddirwyn i ben, ac<br>2) ar yr adeg honno, bod yn rhaid i waith i adfer y tir gael ei gwblhau. | Derbyn | Mae'r effaith polisi a geisir drwy'r argymhelliad hwn eisoes yn cael ei gyflawni drwy ddarpariaethau presennol a nodir yn adran 72(1)(b) a 72(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>Bydd cadw darpariaeth gyfatebol yn helpu i osgoi unrhyw amheuaeth a allai godi fel arall ynghylch cyfreithlondeb amodau o'r fath. |
| 8-17 | Argymhellwn y dylai darpariaeth sy'n cyfateb i adran 72(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad 1990 (ynghylch amodau am gyfnod penodol) gael ei chadw yn y Cod, ond ei drafftio er mwyn ei gwneud yn glir mai dim ond yn yr achosion canlynol y mae'n gymwys:<br>1) caniatadau a roddwyd rhwng 29 Awst 1960 a 31 Rhagfyr 1968;<br>2) caniatadau am gyfnod penodol a roddwyd o dan yr hyn sy'n adran 72(1)(b) bellach. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad, gan y bydd yn cadw darpariaeth bwysig drwy ailddatgan adran 72(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar ffurf ddiwygiedig er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran pryd y bydd yn gymwys (a phryd na fydd yn gymwys). Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |
| 8-18 | Argymhellwn y dylai'r Bil alluogi gosod amodau i'r perwyl:<br>1) bod yn rhaid i nodweddion penodol adeilad neu dir y mae a wnelo'r caniatâd ag ef gael eu gwarchod, naill ai fel rhan ohono neu ar ôl iddynt gael eu gwahanu oddi wrtho;<br>2) bod yn rhaid gwneud iawn am unrhyw ddifrod a achosir i'r adeilad neu'r tir gan y gwaith a awdurdodwyd ar ôl i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau; neu<br>3) fod yn rhaid i'r adeilad neu'r tir gael ei adfer yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ôl i'r gwaith a awdurdodwyd gael ei gwblhau, gan ddefnyddio deunyddiau gwreiddiol i'r graddau y mae hynny'n ymarferol a chyda'r cyfryw newidiadau ag y gellir eu pennu. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad a'r gefnogaeth a gafodd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, nodwn y darpariaethau presennol i osod amodau at ddiben cynllunio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r gwarchodaethau a roddir i adeiladau rhestredig yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Felly, hoffem ystyried yn fanylach a oes angen unrhyw ddarpariaeth bellach mewn deddfwriaeth gynllunio.<br><br>Mae angen ystyried ymhellach ai'r system gynllunio yw'r gyfundrefn fwyaf priodol i ddiogelu nodweddion adeiladau neu dir o'r fath lle na cheir budd o amddiffyniad statudol neu ddynodiad o dan ddeddfwriaeth arall. Yn benodol, pan fydd y penderfyniad ynghylch a yw nodwedd adeilad neu dir yn deilwng o gael ei gwarchod yn debygol o fod yn oddrychol heb fawr ddim rheswm na theilyngdod cynllunio, os o gwbl.<br><br>I'r graddau na ellir gosod amodau o dan y ddeddfwriaeth bresennol, byddai'r argymhelliad hwn yn gyfystyr â newid polisi y byddai angen ei gynnwys mewn Bil diwygio yn y dyfodol. Felly, caiff ei ystyried ymhellach fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r Bil yn y dyfodol ac, yng nghyd-destun casgliadau'r adolygiad a gynhelir o ganiatadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol â'r system gynllunio, a fydd yn cynnwys caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 13-1A. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-19 | Argymhellwn y dylai'r Bil wneud yn fwy eglur y gyfraith a'r gweithdrefnau presennol ynghylch cymeradwyo manylion sy'n ofynnol o dan un o amodau'r caniatâd cynllunio, p'un a gafodd ei osod ar gais ymgeisydd (mewn perthynas â materion na fanylwyd arnynt ddigon yn y cais) neu gan yr awdurdod ei hun. | Derbyn | I'r graddau y gall y gyfraith ar gyfer cymeradwyo manylion sy'n ofynnol o dan amod caniatâd cynllunio a chymeradwyo materion a gadwyd yn ôl sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio amlinellol gael ei hegluro ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud hynny. Mae'n bwysig bod y fframwaith statudol yn cynnwys sail glir a chyson ar gyfer y gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd.<br><br>Yn ein hymateb i Argymhelliad 8-1, rydym wedi nodi ein bwriad i ystyried y polisi ymhellach mewn perthynas â gwerth caniatâd cynllunio amlinellol a materion cysylltiedig a gadwyd yn ôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig y caiff y gyfraith bresennol mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl ei hegluro drwy'r Bil cydgrynhoi wrth i hyn gael ei wneud fel rhan o raglen waith yn y dyfodol y gall fod angen Bil diwygio i'w chyflawni.<br><br>Ystyrir a phenderfynir i ba raddau y gellir egluro'r gyfraith yn ystod y gwaith o baratoi a drafftio'r Bil cydgrynhoi a nodwn rai o'r meysydd yr awgrymodd Comisiwn y Gyfraith y dylid eu hegluro. Yn ystod y gwaith hwn, byddwn hefyd yn ystyried ai canllawiau yw'r ffordd orau o gyflwyno'r eglurhad sy'n ofynnol. |
| 8-20 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) sy'n galluogi awdurdod cynllunio i wrthod penderfynu ar gais i gymeradwyo mater a gedwir yn ôl neu gymeradwyaeth sy'n gofyn am amod os na ddarperir rhagor o fanylion, drwy weithdrefn sy'n cyfateb i'r hyn a geir yn erthygl 3(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. | Derbyn mewn egwyddor | Lle bo rhai amodau yn ddibynnol ar ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith y byddai'n fuddiol i'r awdurdod penderfynu gael yr holl wybodaeth a manylion y gall eu defnyddio, er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a sicrhau na chaiff yr amodau hyn eu hystyried ar eu pen eu hunain.<br><br>Fodd bynnag, nid ydym o reidrwydd yn cytuno â'r dull a awgrymir.  Byddwn yn ystyried ymhellach a ellir cyflawni'r canlyniad a ddymunir drwy wneud diwygiadau gwahanol i Orchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a fyddai diwygio'r gofynion dilysu sy'n gysylltiedig â cheisiadau am gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod neu gymeradwyo mater a gadwyd yn ôl yn ddull gwell o bosibl.<br><br>Fodd bynnag, yng nghyd-destun ceisiadau ar gyfer materion a gadwyd yn ôl, rhaid nodi y gall ein hystyriaeth bellach ynghylch gwerth caniatâd cynllunio amlinellol (fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 8-1) arwain at y cysyniad bod ceisiadau o'r fath yn mynd yn ddiangen ac na fydd angen y ddeddfwriaeth gysylltiedig mwyach. |
| 8-21 | Argymhellwn y dylai'r Bil wneud yn fwy eglur y gyfraith a'r gweithdrefnau presennol ynghylch cymeradwyo manylion sy'n ofynnol:<br>1) gan amod caniatâd a roddwyd drwy orchymyn datblygu; neu<br>2) gan awdurdod cynllunio yn dilyn hysbysiad o waith arfaethedig o dan orchymyn datblygu. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn. Mae'n bwysig bod y gyfraith yn eglur ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo manylion. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gyfraith mewn perthynas â'r materion dan sylw yn yr argymhelliad fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi a bydd yn achub ar unrhyw gyfleoedd i egluro a/neu symleiddio'r gyfraith ymhellach lle y bo'n briodol.<br><br>Caiff unrhyw ddiwygiadau dilynol i is-ddeddfwriaeth er mwyn gwella hygyrchedd eu gwneud pan gaiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei hadolygu yn y dyfodol. |
| 8-22 | Argymhellwn na ddylid newid y gyfraith o ran y terfynau amser y dylai awdurdodau ymateb i hysbysiad o ddatblygiad a ganiatawyd gan Rannau penodol o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn unol â hwy (er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud ag adeiladau ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad hwn, gan ein bod o'r farn bod y terfynau amser presennol sy'n gysylltiedig â chymeradwyo ymlaen llaw yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (Gorchymyn 1995) yn annigonol.<br><br>Er hyn, rydym wedi ymgynghori ar ddiwygio Gorchymyn 1995 er mwyn caniatáu i ACLlau a cheisyddion gytuno ar estyniad i'r cyfnod hwn pan fydd angen trafod neu ystyried y cynnig ymhellach. Rhagwelir y caiff y newid deddfwriaethol hwn ei ddwyn ymlaen fel rhan o ddiwygiadau i Orchymyn 1995 yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-23 | Argymhellwn y dylai adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer gofyn am newidiadau i amodau a atodir i ganiatâd cynllunio, gael ei hailddatgan yn y Bil ar ffurf ddiwygiedig er mwyn caniatáu gwneud cais am unrhyw newid i ganiatâd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i newid amodau, cyhyd â bod:<br>1) wrth ystyried cais o'r fath, dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod cynllunio ystyried y rhan yn unig o'r caniatâd cynllunio y mae'r cais i amrywio yn ymwneud â hi'<br>2) os bydd yn penderfynu bod y newid yn un digon mân fel y gellid ymdrin ag ef drwy gais o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 96A (mân newidiadau ansylweddol), gall yr awdurdod drin y cais fel petai wedi cael ei wneud o dan y ddarpariaeth honno;<br>3) os bydd yn penderfynu y dylai'r newid arfaethedig fod yn destun cais newydd, dylai hysbysu'r ymgeisydd mor fuan â phosibl. | 8-23(1) – Derbyn<br><br>8-23(2) – Derbyn mewn egwyddor<br><br>8-23(3) – Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan ac y dylid ymestyn ei chwmpas fel bod modd gwneud mân ddiwygiadau sylweddol i ganiatâd cynllunio drwy ganiatáu newidiadau i ran weithredol y caniatâd (h.y. y disgrifiad o'r datblygiad) yn ogystal â'r amodau cysylltiedig.<br><br>Rydym hefyd yn cytuno, lle y caiff diwygiad i ganiatâd cynllunio sy'n bodoli ei gynnig drwy gais a wneir o dan adran 73, mai ar y diwygiad arfaethedig i'r caniatâd y dylai ystyriaethau'r AC ganolbwyntio. Ni ddylai'r AC achub ar y cyfle i ailystyried unrhyw rannau eraill o'r caniatâd, oni bai bod angen iddo wneud hynny wrth ystyried effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, cronnol neu amgylcheddol y diwygiad arfaethedig. Mae adran 73(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eisoes yn culhau ystyriaeth yr AC o gais a wneid o dan adran 73 i "only the question of the conditions subject to which planning permission should be granted". At hynny, fel y nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, mae'r llys wedi dyfarnu mai mater y byddai'r ddyletswydd i ystyried y cynllun datblygu yn gymwys iddo yw penderfynu ar gais o dan adran 73 (gweler ein hymateb i Argymhelliad 5-1 yn hyn o beth) ac ni chaiff yr AC anwybyddu'r ystyriaethau ehangach y bydd y diwygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, gan y byddai cais llwyddiannus yn arwain at ganiatâd newydd. Credwn y bydd cynnwys darpariaeth bellach ynglŷn â chwmpas y pŵer yn adran 73 yn rhoi mwy o eglurder. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil.<br><br>Nodwn awgrym Comisiwn y Gyfraith y dylai ACau allu troi cais a wneir o dan adran 73 (cais am fân ddiwygiadau sylweddol) yn un a wneir o dan adran 96A (cais am ddiwygiadau ansylweddol) os byddant o'r farn bod hynny'n briodol a bod y ceisydd yn cytuno â hynny. Cytunwn â'r egwyddor o greu mwy o hyblygrwydd i ACau ymdrin â chais yn unol â graddfa'r diwygiad, gan gadw'r weithdrefn ar gyfer diwygiadau ansylweddol a ddarperir o dan adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 hefyd ar yr un pryd, y teimlai ymgyngoreion y dylid ei chadw fel gweithdrefn ar wahân. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch a fydd y dull arfaethedig yn gweithio'n ymarferol o ystyried y gwahaniaethau pwysig rhwng y ddwy weithdrefn gwneud cais, megis pwy a all wneud cais a'r math o ganiatâd a roddir. Bydd angen ystyried hyn ymhellach, yn ogystal â'r newidiadau deddfwriaethol y gall fod angen eu gwneud er mwyn sicrhau'r addasiad a awgrymir ac unrhyw weithdrefn gysylltiedig, y bydd angen iddynt fod yn gyflym ac yn syml.<br><br>Cytunwn hefyd â barn Comisiwn y Gyfraith y dylid hysbysu'r ceisydd cyn gynted â phosibl os bydd yr AC wedi penderfynu y dylai'r diwygiad arfaethedig fod yn destun cais newydd. Mae hyn yn debygol o ddilyn arferion presennol ACau. Fodd bynnag, gan y dylai'r AC gymryd y camau gweinyddol hyn fel arfer dda, credwn y gallai fod yn fwy priodol iddynt gael eu nodi mewn canllawiau yn hytrach na'u bod yn ofyniad deddfwriaethol. Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o ddiweddariad i'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn y dyfodol. |
| 8-24 | Argymhellwn y dylai'r Bil ei gwneud yn glir fod cwmpas y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 96A (cymeradwyo mân newidiadau) yn cynnwys gwneud mân newidiadau ansylweddol i fanylion datblygiad a gymeradwywyd mewn ymateb i un o amodau caniatâd. | Derbyn | Mae adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu ar gyfer gwneud mân newidiadau ansylweddol i ganiatâd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys i amodau a atodir i ganiatâd. Cytunwn y dylai'r ddarpariaeth ailddatganedig nodi'n glir bod y pŵer hwn yn ymestyn i gynnwys diwygiadau ansylweddol i'r manylion a gymeradwyir o dan amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Nodwn fod y Llys Apêl yn *R. (on the application of Fulford Parish Council) v York City Council* wedi dyfarnu bod y pŵer a roddir i ACau gan adran 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys y pŵer i wneud newidiadau o'r fath i gymeradwyaethau amodol mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl. Credwn y byddai'n ddefnyddiol egluro hyn yn y Bil. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8-25 | Argymhellwn y dylai gweithdrefn gyflym fod ar gael i benderfynu ar gais i amrywio caniatâd – o dan y darpariaethau sy'n ailddatgan naill ai adran 96A neu adran 73 – lle mae'r datblygiad a ganiateir ar fin cael ei weithredu neu'n mynd rhagddo, a hynny wedi'i chyfyngu i achosion nad ydynt wedi denu sylwadau mewn perthynas â'r rhan o'r datblygiad y mae cais i'w hamrywio bellach. | Gwrthod | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith ar y mater hwn. Rydym yn cydnabod y gall fod angen ceisio diwygiad brys i ganiatâd ar ôl i'r datblygiad gychwyn o bryd i'w gilydd, o ganlyniad i faterion yn codi ar y safle, er mwyn osgoi oedi wrth gyflawni'r datblygiad. Fodd bynnag, cytunwn â'r sylwadau a gadwyd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a rhai ACau ei bod yn rhaid i dderbynioldeb amrywiad i ganiatâd ddibynnu ar ei effaith sylweddol ac nid ar angen y datblygwr i gael penderfyniad cyflym ar y mater.<br><br>Mae gweithdrefn gyflym eisoes yn bodoli drwy adran 96A, gydag erthygl 28A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (Gorchymyn 2012) yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad gael ei wneud o fewn 18 diwrnod (oni chytunir ar gyfnod hwy yn ysgrifenedig â'r ceisydd). Mae'n afresymol disgwyl i AC gyflymu'r broses hon ymhellach heb i hynny effeithio ar ansawdd y broses benderfynu, fel y gwelwyd yn y sylwadau a gafwyd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad mewn perthynas ag adnoddau. Os bydd diwygiad yn sylweddol, yna bydd yn briodol i'r AC ei ystyried yn fanwl, gan gynnwys unrhyw ymgyngoreion perthnasol.<br><br>Er hyn, dim ond i nifer bach o geisiadau y bydd yr argymhelliad yn gymwys, h.y. y rhai lle na wnaed sylwadau mewn perthynas â'r rhan o'r cais gwreiddiol y ceisir ei hamrywio, gan olygu y bydd cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn llai buddiol.<br><br>At hynny, nid yw'n glir a fyddai'r weithdrefn gyflym a ragwelir gan Gomisiwn y Gyfraith yn cynnwys ymgynghoriad. Mae'n bosibl na wnaeth ymgynghorai sylwadau ar y cais gwreiddiol am ei fod yn fodlon ar y cynnig bryd hynny. Fodd bynnag, gall y diwygiad arfaethedig godi materion newydd y byddai angen ymgynghori arnynt ac yna wneud sylwadau arnynt i'r AC, a byddai'n heriol cyflawni hynny o fewn yr amserlenni penderfynu a gynigir yn yr Adroddiad (14 diwrnod ar gyfer diwygiadau ansylweddol arfaethedig a 28 diwrnod ar gyfer mân ddiwygiadau sylweddol arfaethedig). |
| 8-26 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:<br>1) gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol eu hysbysu am geisiadau mewn categori penodol, a<br>2) gwneud cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol eu hysbysu am gais penodol, fel y gallant benderfynu p'un a ddylid ei alw i mewn er mwyn iddynt benderfynu arno. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag ail ran yr argymhelliad hwn. Nodwn hefyd y rhan gyntaf sy'n argymell y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hysbysu am gategorïau penodol o geisiadau. Rydym yn cydnabod ei bod yn ddymunol sicrhau bod y broses hysbysu a galw i mewn yn gweithredu mor dryloyw â phosibl ond hoffem ystyried ymhellach a oes angen rheoliadau yng nghyd-destun gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru am geisiadau cynllunio.<br><br>Y safbwynt presennol yw y caiff cyfarwyddydau hysbysu eu gwneud o dan bwerau yng Ngorchymyn 2012. Er mwyn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, byddai angen cynnwys pŵer galluogi newydd yn y Bil.<br><br>Mae cyfarwyddydau hysbysu yn gosod mân ddyletswydd weinyddol ar ACau. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i AC hysbysu Gweinidogion Cymru am fathau penodol o geisiadau drwy roi copi o'r cais, y ddogfennaeth ategol ac unrhyw sylwadau a wnaed, ac maent yn cyfyngu ar allu'r AC i benderfynu arno am gyfnod byr (21 diwrnod) er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried a ddylai gael ei 'alw i mewn' ai peidio. Os penderfynir y dylai cais penodol gael ei 'alw i mewn', rhoddir cyfarwyddyd dilynol mewn perthynas â'r cais penodol hwnnw.<br><br>Caiff cyfarwyddydau hysbysu cyffredinol eu cyhoeddi. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a ellid gwella'r trefniadau cyhoeddi, er enghraifft drwy gyhoeddi ar wefan Cyfraith Cymru.<br><br>Mae'r gofyniad i hysbysu yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru gadarnhau bod polisïau cynllunio cenedlaethol yn cael eu dilyn mewn meysydd polisi pwysig fel datblygu mewn ardaloedd lle ceir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | perygl o lifogydd a datblygu adnoddau olew a nwy anghonfensiynol. Nid yw'n cyflwyno polisi cynllunio newydd nac yn gosod unrhyw ofynion rheoliadol ychwanegol ar ACau wrth iddynt ystyried a phrosesu ceisiadau cynllunio.<br><br>Mae'r weithdrefn gyfredol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i achosion o ddatblygiadau/technolegau sy'n newydd neu'n datblygu a pholisïau sy'n newid yn gyflym. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i allu ymateb yn gyflym i newidiadau o'r fath er mwyn plismona'r system gynllunio yn effeithiol at ddiben cynnal polisi cenedlaethol a'i roi mewn grym. Hoffem ystyried ymhellach a all rhoi'r argymhelliad ar waith gyfyngu ar allu presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 8-27 | Argymhellwn, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu galw cais am ganiatâd cynllunio i mewn, dylai fod dyletswydd arnynt hwy (yn hytrach na'r awdurdod cynllunio) i hysbysu'r ymgeisydd. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru eisoes yn hysbysu ceisydd am benderfyniad Gweinidogion Cymru i alw ei gais i mewn ar yr un pryd ag y caiff yr AC ei hysbysu. Fodd bynnag, dyletswydd yr AC yw cyflwyno'r hysbysiad o gyfeiriad sy'n ofynnol yn ôl erthygl 13 o Orchymyn 2012.<br><br>Gan mai Gweinidogion Cymru a fydd yn penderfynu galw cais i mewn, cytunwn y dylai'r ddyletswydd i hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad gael ei gosod ar Weinidogion Cymru yn hytrach na'r AC. Ystyrir y ffordd orau o gyflawni hyn yn ystod y gwaith o ddrafftio'r Bil. |
| 8-28 | Argymhellwn na ddylai'r darpariaethau canlynol a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd gael eu hailddatgan yn y Bil, ond y dylai darpariaethau cyfatebol gael eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol:<br>1) adran 71(3) (ymgynghori ynghylch safleoedd carafanau);<br>2) adran 71ZB (hysbysiad o ddatblygiad cyn dechrau, ac arddangos caniatâd tra bydd yn mynd rhagddo)<br><br>ac y dylai is-ddeddfwriaeth o'r fath ystyried nodweddion arbennig datblygu mewn categorïau penodol, gan gynnwys, yn benodol, mwynau. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai is-ddeddfwriaeth, yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol, yw'r lle gorau i roi'r gofynion gweithdrefnol a nodir yn adran 71(3) a rhannau o adran 71ZB o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn ystod y gwaith o baratoi a drafftio'r Bil, bydd angen inni ystyried ymhellach pa yn yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.<br><br>Nodwn y sylwadau a wnaed gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol ynglŷn ag anawsterau wrth arddangos gwybodaeth ar y safle mewn perthynas â chaniatadau mwynau fel sy'n ofynnol yn ôl adran 71ZB(2) a diwygio cynnig amodol Comisiwn y Gyfraith yn sgil y sylwadau a gafwyd. Effaith fwriadedig y ddarpariaeth hon yw hwyluso mwy o eglurder, tryloywder a sicrwydd i bob rhanddeiliad, gan gynnwys cymunedau lleol, yn y broses rheoli datblygu, yn enwedig lle bo gan un datblygiad fwy nag un caniatâd. Er nad ydym yn bwriadu dileu'r gofyniad i arddangos hysbysiad, byddwn yn ystyried ffurf yr hysbysiad a'r modd y caiff ei arddangos. Bydd angen ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch unrhyw newidiadau yn y dyfodol. |
| 8-29 | Argymhellwn na ddylai'r darpariaethau canlynol a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, yr ymddengys eu bod yn ddiangen (o leiaf mewn perthynas â Chymru) gael eu hailddatgan yn y Bil:<br>1) adran 56(1) (cychwyn datblygu);<br>2) yn adran 70(3), y cyfeiriad at Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1976 (ceisiadau am ysbytai preifat);<br>3) adran 74(1)(b) (gwneud darpariaeth i roi caniatâd ar gyfer cynigion nad ydynt yn unol â'r cynllun datblygu);<br>4) adran 74(1A) (ceisiadau cynllunio yr ymdrinnir â hwy gan fathau gwahanol o awdurdod cynllunio);<br>5) adran 76 (dyletswydd i dynnu sylw at ddarpariaethau penodol er budd pobl anabl);<br>6) adran 332 (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y dylai ceisiadau cynllunio hefyd gael eu trin fel ceisiadau o dan ddeddfwriaeth arall). | 8-29 (1) to (5) – Derbyn<br><br>8-29 (6) – Gwrthod | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r cynnig i beidio ag ailddatgan adran 56(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y Bil cydgrynhoi. Mae deddfwriaeth gynllunio yn cynnwys cyfeiriadau amrywiol at ddatblygiadau sy'n defnyddio'r geiriau Saesneg "*begun*", "*started*" neu "*commenced*" a dim ond un defnydd o'r gair "*initiated*" Byddwn yn ystyried yn gyffredinol a ellir cysoni'r cyfeiriadau hyn, ac a oes angen egluro eu hystyr.<br><br>Cytunwn hefyd na ddylai'r cyfeiriadau at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd 1976 yn adran 70(3), adran 74(1)(b) ac adran 74(1A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu hailddatgan yn y Bil. Mae'r rhain yn ddiangen mewn perthynas â Chymru oherwydd dylent fod wedi cael eu diddymu o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i ddeddfwriaeth dros y blynyddoedd neu am nad ydynt yn berthnasol i'r system gynllunio yng Nghymru. Fel y cydnabu Comisiwn y Gyfraith, mae adran 76 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eisoes wedi cael ei diddymu gan atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.<br><br>Fodd bynnag, ni dderbyniwn fod y pŵer a ddarperir gan adran 332 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ddiangen. Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhellion 13-1A, 13-1B, 13-9, 14-7 ac 15-5, rydym yn cynnig cynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol, mewn rhaglen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | waith yn y dyfodol, er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml. Os daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod angen dwyn cyfundrefnau cydsynio statudol penodol ynghyd, gall adran 332 fod yn un dull posibl o gyflawni hyn. |
| 8-30 | Argymhellwn y dylid gwneud y pŵer i benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio, a geir yn adran 70(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd yn fwy eglur, er mwyn nodi'n benodol bŵer awdurdod i roi caniatâd ar gyfer yr holl ddatblygiad y mae a wnelo'r cais ag ef neu ran ohono. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor y dylid egluro'r gyfraith er mwyn galluogi AC i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cyfan neu ran ohono.<br><br>Ar hyn o bryd, mewn achosion lle bo AC o'r farn bod rhan o ddatblygiad yn annerbyniol, byddai'n gofyn am ddiwygiad i'r cynllun a gyflwynwyd, gan ddileu'r rhan annerbyniol o'r datblygiad o'r cais. Gall hyn arwain at oedi cyn penderfynu ar y cais. Byddai'r gallu i wneud penderfyniad rhanedig, yn debyg i geisiadau am ganiatâd hysbysebu, sy'n fodd i roi caniatâd llawn neu rannol, yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ACau wrth iddynt benderfynu ar achosion.<br><br>Fodd bynnag, mae angen ystyried materion technegol rhoi penderfyniad rhanedig ymhellach, gan gynnwys strwythur yr hysbysiad o benderfyniad ac unrhyw newidiadau cysylltiedig i'r broses apelio.<br><br>Mae'r gwelliant arfaethedig yn gyfystyr â newid polisi y mae'n debygol y bydd angen Bil diwygio i'w gyflawni yn hytrach na gwneud hynny drwy gwmpas yr ymarfer cydgrynhoi. Bydd unrhyw gynnig gan Lywodraeth Cymru a fydd yn deillio o ystyried yr argymhelliad hwn ac unrhyw weithdrefn gysylltiedig ymhellach yn destun ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn llywio Bil diwygio yn y dyfodol a newidiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth. |
| 8-31 | Argymhellwn y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio i roi rheswm dros benderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn wyneb argymhelliad gan swyddogion i wrthod caniatâd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i gyflwyno dyletswydd ffurfiol i AC au roi rheswm dros benderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn wyneb argymhelliad gan swyddogion i wrthod rhoi caniatâd, h.y. penderfyniad a wneir gan y pwyllgor cynllunio neu'r Cyngor llawn sy'n groes i argymhelliad ei swyddogion.<br><br>Cytunwn y byddai hyn yn gwneud y broses benderfynu yn fwy tryloyw drwy nodi pam y rhoddodd yr aelodau ganiatâd yn groes i argymhelliad y swyddogion. Caiff y gwelliant awgrymedig hwn ei wneud fel rhan o becyn o ddiwygiadau i Orchymyn 2012 yn y dyfodol. |
| 8-32 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ynghylch cyflwyno hysbysiadau cwblhau gael eu hailddatgan yn y Bil, ond wedi'u diwygio er mwyn cyfeirio at gyhoeddi yn hytrach na chyflwyno hysbysiad. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau cwblhau gael eu hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwerau defnyddiol i ACau er mwyn datrys achosion o ansicrwydd ac effeithiau cynllunio negyddol sy'n deillio o ddatblygiad anghyflawn.<br><br>Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r ddarpariaeth gyfeirio at gyhoeddi'r hysbysiadau hyn yn hytrach na'u cyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â'r dull ar gyfer hysbysiadau eraill a amlinellir yn Argymhellion 12-8 a 12-17. |

## Pennod 9 - Ceisiadau i Weinidogion Cymru

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 9-1 | Argymhellwn y dylai adrannau 62M i 62O o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy’n galluogi ymgeisydd i gyflwyno cais cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardal awdurdod cynllunio sy’n tangyflawni gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein cynigion ym Mhenodau 7 ac 8. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod yn rhaid i'r darpariaethau hyn gael eu cadw am eu bod yn rhoi pwerau pwysig i Weinidogion Cymru ddynodi bod awdurdod cynllunio (AC) yn perfformio'n wael, sydd wedyn yn rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr gyfeirio eu ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r AC i benderfynu arnynt yn ystod y cyfnod dynodi. Mae angen y pwerau hyn er mwyn sicrhau nad yw tangyflawni yn rhwystro gwaith datblygu neu'n lleihau sicrwydd yn y system gynllunio i ddatblygwyr a'r gymuned leol.<br><br>Cafodd yr angen am y pwerau hyn ei ategu gan sail dystiolaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a chafodd ei ystyried yn ofalus gan y Cynulliad wrth iddo graffu ar y Bil. Yn ystod y broses honno nododd y Llywodraeth yn glir mai dim ond pan fetho popeth arall y byddent yn cael eu defnyddio, lle nad oedd pob ffordd arall o annog gwelliannau wedi gweithio. Hwn yw ein safbwynt polisi o hyd.<br><br>Nid yw'r pwerau hyn na'r gweithdrefnau cysylltiedig wedi cychwyn eto, wrth i ni barhau i ystyried gydag ACau ffyrdd o gynyddu cydnerthedd hirdymor wrth gynllunio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun cyllidebau is a llai o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gynigir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a all chwarae rôl wrth gyflawni swyddogaethau cynllunio defnydd tir, y mae'r Senedd yn craffu arnynt ar hyn o bryd.<br><br>Lle rydym wedi derbyn cyflwyno newidiadau arfaethedig a nodir ym Mhenodau 7 ac 8 o'r adroddiad, sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a wneir i AC, byddwn yn gwneud addasiadau priodol i'r darpariaethau hyn. |
| 9-2 | Argymhellwn y dylai’r gyfraith sy’n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio a gwasanaethau cyn ymgeisio mewn cysylltiad â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael ei hadolygu a, lle y bo’n briodol, ei gwneud yn fwy eglur. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y byddai rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio a gwasanaethau cyn ymgeisio mewn cysylltiad â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn cael budd o gael eu gwneud yn fwy eglur.<br><br>Cydnabyddir y gall fod amwysedd o ran cwmpas a chymhwysiad gwasanaethau cyn ymgeisio ac ymgynghori cyn ymgeisio, lle mae a wnelo â chysyniadau eilaidd sy'n ymwneud â cheisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.<br><br>Ystyrir hyn yn fanwl wrth ddrafftio'r Bil, a bydd angen i'r geiriad penodol a ddylai gael ei ddefnyddio gael ei ystyried yn ofalus yng nghyd-destun pob darpariaeth.<br><br>Er gwaethaf hyn, amcan Llywodraeth Cymru yw cyflwyno proses gydsynio unedig a phwrpasol ar gyfer seilwaith yng Nghymru, a fyddai, i bob diben, yn cymryd lle'r gyfundrefn bresennol ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Cafodd ymgynghoriad ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2018 yn amlinellu'r cynigion hyn. Cyflwynir y broses gydsynio newydd drwy Fil diwygio yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bil hwn yn rhan o raglen ddeddfu Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, mae'r rhaglen yn cael ei hadolygu'n barhaus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9-3 | Argymhellwn y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr wrth iddynt benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sy'n destun ymchwiliadau neu wrandawiadau gael ei ymestyn i ganiatáu eu penodi mewn cysylltiad â cheisiadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ymestyn penodiad aseswyr i achosion y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig at ddibenion datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Byddai hyn yn hwyluso'r broses o benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ac mae'n gyson â'n hymateb i Argymhelliad 11-3.<br><br>Cyfeirier at ein sylwadau yn Argymhelliad 9-2 ynghylch dyfodol y weithdrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. |
| 9-4 | Argymhellwn y dylai adrannau 62D i 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein cynigion ym Mhenodau 7 ac 8. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r cynnig i ailddatgan adrannau 62D i 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y Bil gan fod y rhain yn ddarpariaethau mwy diweddar a gyflwynwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.<br><br>Lle rydym wedi derbyn cyflwyno newidiadau arfaethedig a nodir ym Mhenodau 7 ac 8 o'r adroddiad, sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a wneir i AC, byddwn yn ystyried gwneud addasiadau priodol i'r darpariaethau hyn at ddibenion datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol ar yr un pryd.<br><br>Cyfeirier at ein sylwadau yn Argymhelliad 9-2 ynghylch dyfodol y weithdrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. |
| 9-5 | Argymhellwn na ddylai adran 101 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (comisiynau ymchwiliadau cynllunio) nac Atodlen 8 i'r ddeddf honno gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes diben i adran 101 nac Atodlen 8 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac na ddylent gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi.<br><br>Ni ffurfiwyd unrhyw Gomisiynau Ymchwiliadau Cynllunio yng Nghymru ac maent wedi mynd yn ofer i raddau helaeth yn sgil cyflwyno'r broses ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Nodwn fod y Gwyddoniadur Cyfraith ac Arferion Cynllunio yn nodi bod gan y weithdrefn ddiffygion sylfaenol, a gefnogir gan ddatganiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU. |

## Pennod 10 - Darparu seilwaith a gwelliannau eraill

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 10-1 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, ar hyn o bryd yn Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011), gael eu hymgorffori yn y Bil, tan adolygiad mwy trylwyr a all gael ei gynnal maes o law. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi. Fel y nodwyd yn yr adroddiad terfynol, dim ond yn ddiweddar y datganolwyd cymhwysedd deddfwriaethol yn ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol drwy Ddeddf Cymru 2017. Bydd angen i'n gwaith polisi yn ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol gael ei ystyried fel rhan o adolygiad ehangach a hirdymor Llywodraeth Cymru o'r trefniadau hyn. Bydd yn hanfodol ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio ein gwaith polisi yn y dyfodol.<br><br>Mae'n synhwyrol cynnwys y darpariaethau hyn yn y ddeddfwriaeth gynllunio wedi'i chydgrynhoi heb wneud unrhyw ddiwygiadau sylweddol tra bod y maes polisi hwn yn cael ei adolygu. O ystyried y gydberthynas agos rhwng yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio, byddai o fudd i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system ddwyn y darpariaethau hyn ynghyd mewn un darn o ddeddfwriaeth yn hytrach na'u cael mewn Deddfau ar wahân, fel y mae ar hyn o bryd. |
| 10-2 | Yn amodol ar yr argymhellion canlynol yn y Bennod hon, argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio a geir ar hyn o bryd yn adrannau 106 i 106B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu hymgorffori yn y Bil Cynllunio, tan unrhyw adolygiad mwy trylwyr a all gael ei gynnal maes o law. | Derbyn | Gweler yr ymateb i Argymhelliad 10-1. |
| 10-3 | Argymhellwn y dylai'r rheolau ynglŷn â defnyddio rhwymedigaethau cynllunio, a geir ar hyn o bryd yn rheoliad 122 o Reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, gael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Drwy symud y ddarpariaeth ar gyfer defnyddio rhwymedigaethau cynllunio o'r rheoliadau i'r Bil gellir cadarnhau natur statudol y profion a nodir ar hyn o bryd yn rheoliad 122 o reoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae hyn hefyd yn gyson â'n dull o ymdrin ag amodau cynllunio a fydd, yn sgil Argymhelliad 8-10, yn arwain at symud y profion ar gyfer defnyddio amodau cynllunio i'r Bil cydgrynhoi hefyd. |
| 10-4 | Argymhellwn y dylai unrhyw adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol ystyried cyflwyno darpariaeth lle gallai cytundeb cynllunio (o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 bellach) mewn rhai amgylchiadau gynnwys darpariaeth a allai gael ei chynnwys mewn cytundeb o dan adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn yn fanylach fel rhan o'r adolygiad ehangach y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 10-1. Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith a barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a fydd yn llywio ein hystyriaeth fanwl wrth gynnal yr adolygiad hwn. |
| 10-5 | Argymhellwn y dylai unrhyw adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol ystyried cynnwys torri rhwymedigaeth gynllunio o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y diffiniad o dorri rheolaeth gynllunio. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater hwn yn fanylach fel rhan o'r adolygiad ehangach y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 10-1. Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith a barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a fydd yn llywio ein hystyriaeth fanwl wrth gynnal yr adolygiad hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10-6 | Argymhellwn na ddylai adran 106(12) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu rheoliadau lle y byddai torri rhwymedigaeth i dalu swm o arian yn arwain at osod arwystl ar y tir, gan hwyluso'r broses o adennill costau oddi wrth berchenogion canlyniadol, gael ei hailddatgan yn y Bil Cynllunio. | Gwrthod | Ym marn Llywodraeth Cymru mae adran 106(12) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn parhau i fod o ddefnydd ymarferol. Er na wnaed unrhyw reoliadau hyd yn hyn, nodwn sylwadau rhai ymatebwyr ynghylch defnyddioldeb posibl rheoliadau yn y dyfodol.<br><br>Nodwn mai arwystl tir lleol o dan adran 106(11) yw rhwymedigaeth gynllunio. Gallai rheoliadau o dan adran 106(12)(a) ddarparu ar gyfer gosod arwystl ar y tir ar ffurf unrhyw swm neu symiau y mae angen ei dalu neu eu talu o dan rwymedigaeth gynllunio. Er na wnaed unrhyw reoliadau, dymunwn gadw'r pŵer i wneud y cyfryw reoliadau i gofrestru swm o arian sy'n daladwy o dan rwymedigaeth gynllunio fel arwystl cyfreithiol neu dir a all hwyluso'r broses o adennill costau oddi wrth berchenogion presennol.<br><br>O ran adran 106(12)(b), mae galluogi Awdurdodau Cynllunio (ACau) i adennill costau oddi wrth berchenogion canlyniadol yn gyson â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 178(5) ac 219(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n darparu ar gyfer gosod arwystl ar y tir ar ffurf unrhyw dreuliau y gall AC eu hadennill y naill drwy adran 178(1) a'r llall drwy adran 219(1) yn y drefn honno. Hefyd nodwn fod argymhelliad 15-13 yn argymell defnyddio'r pŵer yn adran 209(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gosod arwystl ar y tir ar ffurf unrhyw dreuliau y gall AC eu hadennill o dan adran 209(1).<br><br>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth gymhellol sy'n nodi bod ACau wedi ei chael hi'n anodd adennill arian drwy'r llysoedd a fyddai'n gofyn am wneud rheoliadau o dan adran 106(12). Er gwaethaf hyn, nid ydym am gyfyngu ar ein gallu i ymdrin ag unrhyw heriau a all ddigwydd pan fo ACau yn ceisio adennill rhwymedigaethau a threuliau ariannol petai amgylchiadau yn newid yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried hyn yn fanylach fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir gennym yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ac adran 106.<br><br>Ystyrir a ddylai'r pŵer i wneud rheoliadau gael ei gynnwys yn y Bil neu drwy wneud darpariaeth ymhlyg yn y Bil y gall symiau sy'n ofynnol gan rwymedigaeth gynllunio a threuliau adenilladwy gael eu cofrestru fel pridiannau tir. |
| 10-7 | Argymhellwn y dylid hyrwyddo'r defnydd o gymalau safonol mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Cydnabyddwn yr ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid i'r cynnig a chytunwn fod potensial i gymalau safonol gael eu cynnwys mewn canllawiau er mwyn helpu i gyflymu'r broses ddrafftio.<br><br>Mae rhywfaint o ganllawiau eisoes wedi cael eu cyhoeddi ar y mater hwn, gyda '*Securing Mortgage Access for Affordable Housing: A good practice note for planning and housing practitioners*' (2013) yn nodi cymalau safonol yn ymwneud â chyflenwi tai fforddiadwy. Cyflawnwyd hyn mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru a Chyngor y Benthycwyr Morgeisi mewn ymateb i'r anawsterau a brofwyd gan bawb wrth ddarparu tai fforddiadwy yn barhaol.<br><br>Bydd hefyd yn hanfodol sicrhau cydweithio â rhanddeiliaid, megis CLILC, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chymdeithas y Gyfraith, wrth fynd ati i lunio'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y cymalau safonol a nodir yn y canllawiau yn hwyluso'r gwaith o ddrafftio rhwymedigaethau gan ACau a datblygwyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10-8 | Argymhellwn y dylai unrhyw adolygiad o’r gyfraith sy’n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol ystyried cyflwyno gweithdrefn i ddatrys anghydfodau ynglŷn â thelerau cytundeb adran 106, o bosibl yn debyg i Atodlen 9A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater a godwyd a'r dull o weithredu a awgrymir sydd ar waith yn Lloegr yn fanylach fel rhan o'r adolygiad ehangach y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 10-1. Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith a barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a fydd yn llywio ein hystyriaeth fanwl wrth gynnal yr adolygiad hwn. |
| 10-9 | Argymhellwn y dylai unrhyw adolygiad o’r gyfraith sy’n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio ystyried cyflwyno gweithdrefn i Weinidogion Cymru osod cyfyngiadau neu amodau ar orfodadwyedd rhwymedigaethau cynllunio fel y maent yn ymwneud â chategorïau penodol o fuddiannau. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater a godwyd a'r dull o weithredu a awgrymir sydd ar waith yn Lloegr yn fanylach fel rhan o'r adolygiad ehangach y cyfeirir ato yn ein hymateb i Argymhelliad 10-1. Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith a barn ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a fydd yn llywio ein hystyriaeth fanwl wrth gynnal yr adolygiad hwn. |
| 10-10 | Argymhellwn y dylid rhoi pŵer i awdurdod cynllunio, wrth roi caniatâd cynllunio i ddatblygu ei dir ei hun, wneud penderfyniad ar yr un pryd sy’n nodi telerau rhwymedigaeth y tybid bod unrhyw drydydd parti sy’n caffael y tir wedi ymrwymo iddi o fewn cyfnod penodedig. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad mewn egwyddor – cafodd gryn gefnogaeth gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Nodwn na all Awdurdod Lleol lunio cytundeb ag ef ei hun ac mae'r argymhelliad diwygiedig yn mynd i'r afael â hyn.<br><br>Mae angen ystyried y materion cyfreithiol ac ymarferol, gan gynnwys gorfodi, ymhellach.<br><br>Bydd yr argymhelliad hwn yn gyfystyr â newid polisi sy'n debygol o ofyn am Fil diwygio yn hytrach na Bil cydgrynhoi. Caiff y materion hyn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad i lywio'r Bil hwnnw. |
| 10-11 | Rydym yn cynnig y dylai fod modd i berson heblaw perchennog y tir (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i berson sy’n ystyried ymrwymo i gontract i’w brynu) ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio ynglŷn â’r tir, a fyddai’n weithredol os a phryd y bydd buddiant perthnasol yn cael ei gaffael mewn gwirionedd gan y person hwnnw. Dylai unrhyw ganiatâd sy’n gysylltiedig â rhwymedigaeth dros dro o’r fath fod yn ddarostyngedig i amod, os bydd y tir yn cael ei drosglwyddo i drydydd parti, na fydd y datblygiad a ganiateir yn dechrau nes bod cytundeb sy’n cynnwys yr un telerau neu’r un telerau i raddau helaeth wedi cael ei lunio â’r awdurdod. | Derbyn mewn egwyddor | Er bod yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn yn rhesymegol, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bryderon y bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhellach yn eu cylch er mwyn deall goblygiadau'r cynnig hwn yn llawn. Yn arbennig, fel y nodwyd gan rai ymatebwyr i'r ymgynghoriad, mae angen i ni ystyried yr egwyddor ynghylch a ddylai'r cytundeb amodol fod yn gysylltiedig â'r tir neu ond rhwymo'r darpar berchennog sy'n ymrwymo iddo.<br><br>Bydd yr argymhelliad hwn yn gyfystyr â newid polisi a byddai angen ei gynnwys mewn Bil diwygio. Caiff y materion hyn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad i lywio'r Bil hwnnw. |

## Pennod 11 - Apeliadau a darpariaethau atodol eraill

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 11-1 | Argymhellwn y dylai adran 79(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hymgorffori yn y Bil Cynllunio heb ei diwygio fwy neu lai. | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru fod y cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori wedi cael ei ddiwygio yn sgil sylwadau ymatebwyr, yn enwedig y rhai a wnaed gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru.<br><br>Rydym o'r un farn â'r Arolygiaeth Gynllunio bod adran 79(1) eisoes yn cynnig hyblygrwydd i Arolygwyr Cynllunio ystyried cais o'r newydd wrth benderfynu ar apeliadau cynllunio ar ran Gweinidogion Cymru. Fel y tanlinellwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, man cychwyn y rhan fwyaf o apeliadau fydd rheswm neu resymau'r awdurdod cynllunio (AC) dros wrthod. Felly, mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi'r disgresiwn i Arolygwyr Cynllunio fynd y tu hwnt i'r prif faterion os bydd unrhyw faterion sylweddol eraill a allai fod yn bwysig wrth benderfynu ar yr apêl.<br><br>Petai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i Arolygwyr Cynllunio ystyried y cais o'r newydd, fel y cynigiwyd yn wreiddiol yn y papur ymgynghori, byddai'n arwain at ddyblygu gwaith yn ddiangen gan gynyddu amser a chost apeliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio ac ACau.<br><br>Rydym yn falch bod Comisiwn y Gyfraith yn cydnabod y problemau a fyddai'n deillio o'r cynnig gwreiddiol a'ch bod wedi newid eich barn ynghylch y mater hwn yn yr argymhelliad. Felly, cytunwn â'r argymhelliad, y dylai'r hyblygrwydd presennol a geir yn adran 79(1) gael ei gadw a'i gynnwys yn y Bil cydgrynhoi. |
| 11-2 | Argymhellwn y dylai'r Bil ei gwneud yn fwy eglur y bydd pob apêl (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynigion datblygu gan ymgymerwyr statudol) yn cael ei phenderfynu gan arolygwyr, ac eithrio:<br>1) y rhai mewn categorïau y rhagnodwyd y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt;<br>2) y rhai sydd wedi cael eu hadfer gan Weinidogion Cymru (mewn cyfarwyddiadau ynglŷn ag achos penodol) er mwyn iddynt benderfynu arnynt. | Derbyn mewn egwyddor | Gan fod Arolygwyr Cynllunio bellach yn penderfynu ar y rhan fwyaf o apeliadau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a rhai apeliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'r darpariaethau presennol yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol.<br><br>Cytunwn y byddai'n symlach ac yn gliriach i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio er mwyn gwrthdroi'r rhagdybiaeth bresennol mai Gweinidogion Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am benderfynu ar apeliadau sy'n gysylltiedig â chynllunio oni ddirprwyir hynny i berson a benodir ganddynt, i un lle mae'n glir mai'r person a benodwyd (Arolygwyr Cynllunio) sy'n gyfrifol, oni nodir gan Weinidogion Cymru.<br><br>Ceir nifer bach o apeliadau o dan y prif Ddeddfau cynllunio y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt yn uniongyrchol, fel y rhai y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol a hysbysiadau tir ac adeiladau blêr yr olwg a wneir o dan adran 217 (Argymhelliad 16-4). Bydd angen i ni ystyried pob apêl o'r fath yn fanylach er mwyn penderfynu ai'r person a benodir (Arolygwyr Cynllunio) yn hytrach na Gweinidogion Cymru a ddylai neu a all benderfynu arni. Gwneir hyn wrth baratoi a drafftio'r Bil cydgrynhoi.<br><br>Yng nghyd-destun apeliadau yn erbyn hysbysiadau tir ac adeiladau blêr yr olwg a wneir o dan adran 217, nodir ein barn yn ein hymateb i Argymhelliad 16-4. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11-3 | Argymhellwn y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr wrth iddynt benderfynu ar apeliadau a gweithrediadau eraill sy'n destun ymchwiliadau neu wrandawiadau:<br>1) gael ei ehangu er mwyn iddo fod yn arferadwy gan arolygwyr yn ogystal â chan Weinidogion Cymru;<br>2) gael ei ymestyn i ganiatáu'r defnydd o aseswyr mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig. | Derbyn | Mae'r newidiadau hyn a argymhellir yn cefnogi'r newidiadau ehangach a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith er mwyn sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng deddfwriaeth gynllunio.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Arolygwyr Cynllunio gael yr un pwerau â Gweinidogion Cymru i benodi aseswyr. Drwy ehangu'r ddarpariaeth yn y fath fodd bydd Arolygwyr Cynllunio yn gallu penodi aseswyr mewn ffordd hwylus i'w cynorthwyo a'u cynghori wrth benderfynu ar apeliadau.<br><br>Hefyd, cytunwn y dylai'r darpariaethau gael eu hehangu lle penderfynir ar apeliadau drwy sylwadau ysgrifenedig. Bydd hyn yn sicrhau bod y darpariaethau yn cael eu cymhwyso'n gyson i bob math o weithdrefnau apelio. |
| 11-4 | Yn amodol ar ein hargymhellion ym Mhennod 13 sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, Argymhellwn y dylai'r newidiadau a gynigiwyd yn argymhellion 11-1 i 11-3 fod yn gymwys yn yr un modd i:<br>1) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi;<br>2) apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth, cydsyniad penodol i arddangos hysbysebion, a chydsyniad i ymgymryd â gwaith ar goed a warchodir;<br>3) apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth, hysbysiadau i ddirwyn hysbysebion i ben, hysbysiadau cyfnewid coed, a hysbysiadau ynglŷn â thir blêr y golwg. | Derbyn mewn egwyddor | Yn sgil ein hymateb i Argymhellion 11-2 i 11-3, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r newidiadau arfaethedig hefyd fod yn gymwys i'r mathau o apeliadau a nodir gan yr argymhelliad hwn. Yn ymarferol mae llawer eisoes yn gweithredu yn yr un modd i apeliadau sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio; er enghraifft, Arolygwyr Cynllunio sy'n ymdrin â mwyafrif yr apeliadau hyn eisoes. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng deddfwriaeth gynllunio.<br><br>Fodd bynnag, bydd angen i ni ystyried ymhellach y graddau y gall Argymhelliad 11-1 fod yn gymwys i bob math o apêl a restrir oherwydd mae adran 79(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ond yn gymwys i apeliadau penodol o dan adran 78 or Deddf. Hefyd, fel enghraifft, caiff adran 79(1) ei chymhwyso gan addasu apeliadau yn erbyn hysbysiadau dirwyn hysbysebion i ben.<br><br>Gall ein rhaglen waith yn y dyfodol i adolygu a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml (fel y nodir yn ein hymateb i argymhellion 13-1(A), 13-1(B), 14-7 a 15-5) arwain at fod angen gwneud newidiadau i'w gweithdrefnau apelio cysylltiedig yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu y gall fod angen i'r dull o ymdrin ag apeliadau sy'n ymwneud â chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad ardal gadwraeth, cydsyniad i arddangos hysbysebion a chydsyniad i ymgymryd â gwaith ar goed a warchodir gael ei newid ymhellach yn sgil unrhyw gasgliadau sy'n deillio o'r adolygiad yn y dyfodol. |
| 11-5 | Argymhellwn y dylai'r Bil ddarparu, mewn achos lle bu apêl i Weinidogion Cymru, y dylai'r cyfnod y gellir cyflwyno hysbysiad prynu oddi mewn iddo redeg o ddyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn glir ynghylch a yw'r cyfnod o 12 mis y mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad prynu oddi mewn iddo yn dechrau ar ddyddiad penderfyniad yr ACau perthnasol neu ddyddiad penderfyniad Gweinidogion Cymru, lle mae cais cynllunio yn destun apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae hefyd yn synhwyrol, mewn achosion o'r fath, y dylai'r cyfnod o 12 mis ddechrau ar ddyddiad penderfyniad apêl Gweinidogion Cymru. Bydd diwygiad o'r fath yn gwneud y gyfraith yn eglur ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system ynghylch y broses.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r cyfnod o 12 mis wedi'i ragnodi yn Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 ("Rheoliadau 1992") ac ystyriwn y dylid ei gadw mewn rheoliadau. Felly, caiff y diwygiad arfaethedig i wneud y dyddiad pan fydd y 12 mis yn dechrau rhedeg yn eglur, lle mae cais cynllunio yn destun apêl o dan adran 78, ei wneud i Reoliadau 1992. Caiff y diwygiad hwn ei ystyried ymhellach pan gaiff Rheoliadau 1992 eu hadolygu nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11-6 | Argymhellwn y dylai'r Bil Cynllunio ei gwneud yn eglur na ellir diwygio hysbysiad prynu, ond y dylid tybio bod ail hysbysiad neu hysbysiad canlyniadol a gyflwynir mewn perthynas â phenderfyniad unigol yn disodli unrhyw hysbysiad cynharach o'r fath. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau gyda Chomisiwn y Gyfraith mai bwriad yr argymhelliad hwn oedd darparu y dylai achos Cyngor Swydd Henffordd v White gael ei godeiddio cymaint â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor lle ceisir codeiddio'r achos. Ystyrir i ba raddau y gellir cyflawni hyn a sut y gellir gwneud hynny yn ystod y broses ddrafftio. |
| 11-7 | Argymhellwn y dylai'r pwerau a geir ar hyn o bryd yn adrannau 247, 248, 253 i 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â phriffyrdd y mae datblygiad yn effeithio arnynt) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio, ond na ddylid ailddatgan y rhai yn adrannau 116, 118 a 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad a barn mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad na ddylai adrannau perthnasol Deddf Priffyrdd 1980 sy'n gysylltiedig â chau neu wyro priffyrdd gael eu hintegreiddio. Mae'r darpariaethau hyn yn cyflawni swyddogaethau a gweithdrefnau gwahanol iawn, ac mae angen eu cadw er mwyn cynnal yr hyblygrwydd a ddarperir ganddynt i'r rhai sydd am fynd ar drywydd gorchmynion o'r fath, gan gynnal y gallu i ddewis y dull mwyaf priodol o fodloni eu hamgylchiadau.<br><br>Felly, caiff yr adrannau perthnasol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 eu hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi ac nid effeithir ar y rhai yn Neddf Priffyrdd 1980. |
| 11-8 | Argymhellwn na ddylai adran 249 nac adran 250 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â gorchmynion sy'n diddymu'r hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd, ar y cyd â chynnig i wella amwynder ardal) gael eu hailddatgan yn y Bil, o ystyried y darpariaethau cyfochrog yn adran 1 o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru o'r un farn bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y darpariaethau hyn a'r rhai a geir yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Fel y tanlinellwyd yn y papur ymgynghori nid ymddengys fod unrhyw amgylchiadau lle byddai modd defnyddio'r pŵer o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 na fyddai modd ymdrin â nhw hefyd o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.<br><br>Hefyd, mae'r pwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn drech na'r rhai a geir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn cynnal y gydberthynas bwysig â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae eu cadw hefyd yn bwysig o ystyried bod y pwerau yn cael eu defnyddio'n amlach gan na thelir unrhyw iawndal am wneud gorchymyn o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, yn wahanol i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>O ystyried natur ddyblyg y pwerau yn y ddwy Ddeddf a'r ffaith bod y rhai a geir yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn bwysicach, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad nad oes angen adrannau 249 a 250 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac na ddylent gael eu hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11-9 | Argymhellwn y dylai penderfyniadau sy'n ymwneud â gorchmynion o dan adran 252 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Atodlen 14 i'r ddeddf honno gael eu gwneud fel arfer gan arolygwyr yn hytrach na chan Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i bŵer iddynt wneud cyfarwyddyd i adfer achos penodol er mwyn iddynt benderfynu arno. | Gwrthod | Ar hyn o bryd, rôl gyfyngedig sydd gan Arolygwyr yn y broses o ran gwneud gorchmynion priffyrdd a wneir o dan adran 252 a chadarnhau gorchmynion a gwmpesir gan y weithdrefn yn Atodlen 14 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br><br>Dim ond pan geir gwrthwynebiadau i wneud Gorchmynion na ellir eu datrys drwy negodi y byddant yn chwarae rhan. Mewn achosion o'r fath, gall Gweinidogion Cymru gynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r gwrthwynebiadau a wnaed, a bydd Arolygydd yn cynnal yr ymchwiliad ar ran Gweinidogion Cymru. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben, bydd yr Arolygydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benderfynu p'un a ddylai'r Gorchymyn gael ei wneud ai peidio. Yna bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd ati i wneud y Gorchymyn a'r prosesau gweinyddol cysylltiedig.<br><br>Os na fydd angen ymchwiliad cyhoeddus, cynhelir yr holl brosesau gan Lywodraeth Cymru, heb i Arolygwyr gael eu cynnwys o gwbl. Mae hyn fel y broses ar gyfer holl Orchmynion y Ddeddf Priffyrdd, Gorchmynion Rheoleiddio Traffig a Hysbysiadau Brys.<br><br>Ar sail y weithdrefn bresennol, sy'n gyson â'r broses ar gyfer gwneud gorchmynion a hysbysiadau priffyrdd a rhai sy'n gysylltiedig â thraffig o dan ddeddfwriaeth arall a rôl gyfyngedig Arolygwyr yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod digon o gyfiawnhad dros drosglwyddo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau hon i Arolygwyr, na budd mewn gwneud hynny. |

## Pennod 12 - Datblygu heb awdurdod

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 12-1 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn adrannau 171C a 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu huno'n un pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio gyflwyno "gorchymyn gwybodaeth gynllunio" (neu "hysbysiad o wybodaeth gynllunio") i unrhyw un sy'n berchen ar y tir neu sy'n ei feddiannu, unrhyw un sydd â buddiant ynddo, unrhyw berson sy'n ymgymryd â gweithrediadau neu weithgareddau eraill ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben ac unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i'w reoli. Dylai'r pŵer fod yn arferadwy pan fo Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod yn credu bod rheolaeth gynllunio wedi cael ei thorri o bosibl, neu lle mae angen gwybodaeth i wneud unrhyw orchymyn, cyhoeddi, neu gyflwyno hysbysiad neu unrhyw ddogfen arall o dan y Ddeddf.<br>Dylai'r pŵer i wneud gorchymyn gynnwys y nodweddion a grybwyllir yn adran 171C(3) (gwybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu) a 171C(4) (cynnig cyfarfod i drafod); ac os credir bod rheolaeth wedi'i thorri o bosibl, mae'n rhaid i'r gorchymyn gynnwys y wybodaeth a bennir yn adran 171C(5) (ynglŷn â chamau gorfodi posibl). | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor y gall un pŵer i gael gwybodaeth wneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch a chynnig eglurder. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried yn fanwl a fyddai uno adran 171C ac adran 330 yn arwain at ddeddfwriaeth fwy hygyrch lle na fydd efallai'n bosibl i uno pwerau ymchwiliol eraill (megis pwerau mynediad) ac efallai mai dim ond ar gyfer achosion gorfodi y bydd rhai darpariaethau'n briodol.<br><br>Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen diwygio'r rhestr o bobl y gellir rhoi'r hysbysiad iddynt, i gynnwys unrhyw un a awdurdodir i reoli'r tir fel yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br><br>Os rhoddir yr argymhelliad hwn ar waith, ystyrir enw'r hysbysiad hefyd, a awgrymir yn yr argymhelliad, pan gaiff y Bil cydgrynhoi ei ddrafftio. |
| 12-2 | Argymhellwn y dylai'r cyfyngiad ar fynd i mewn i eiddo at ddibenion gorfodi dim ond ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr, a geir ar hyn o bryd yn adran 196A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw eiddo sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd. | Derbyn | Ym marn Llywodraeth Cymru, bydd y diwygiad hwn i adran 196A (4) yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Fel sydd wedi'i egluro yn ein hymateb i Argymhelliad 18-15(1), mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid defnyddio "dwelling" yn lle "dwellinghouse" yn y Bil cydgrynhoi, am ei fod yn derm mwy cyffredin. |
| 12-3 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru dynnu sylw'n glir at yr egwyddor cyfraith gyffredin a nodwyd yn Welwyn Hatfield Council v Secretary of State [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304;<br>2) ni ddylai gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio, a gyflwynwyd yn Lloegr o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gael ei chynnwys yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith a'r ymatebwyr na ddylai gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio gael ei chyflwyno yng Nghymru, o ystyried yr holl broblemau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â hi. Credwn ei bod hi'n synhwyrol i Awdurdodau Cynllunio (ACau) ddibynnu ar yr egwyddor sy'n deillio o achos Welwyn Hatfield Council v Secretary of State mewn achosion priodol, a chytunwn â barn a rhesymeg Comisiwn y Gyfraith ynghylch pam na ddylai'r un achos hwn gael ei godeiddio mewn statud. Caiff y Llawlyfr Rheoli Datblygu ei ddiweddaru i gynnwys canllawiau ar yr egwyddor hon er mwyn rhoi mwy o hyder i ACau wrth ddelio â chelu. |
| 12-4 | Argymhellwn y dylai adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig fel y bydd y cyfnod ar gyfer camau gorfodi eraill, os cyhoeddwyd hysbysiad rhybudd gorfodi, yn dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad, ond na ellir ymestyn y terfyn amser ymhellach drwy gyhoeddi hysbysiadau rhybudd gorfodi ychwanegol mewn perthynas â'r un mater. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylai fod yn bosibl i ymestyn y cyfnod ar gyfer cymryd camau gorfodi yn ddibendraw, drwy gyhoeddi hysbysiadau rhybudd gorfodi pellach. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil gael ei ystyried yn ofalus.<br><br>Yn y rhan fwyaf o achosion, yn dilyn hysbysiad rhybudd gorfodi dylid naill ai gyflwyno cais cynllunio (a rhoi caniatâd cynllunio wedyn yn ddarostyngedig i amodau i ddatrys yr achos o dorri rheolaeth), neu gyflwyno Hysbysiad Gorfodi os na cheir cais. Drwy sicrhau na ellir ymestyn y cyfnod ar gyfer cymryd camau gorfodi fwy nag unwaith, bydd ACau yn canolbwyntio ar sicrhau y cymerir unrhyw un o'r camau hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12-5 | Argymhellwn y dylai’r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop dros dro, a geir ar hyn o bryd yn adran 171F(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw annedd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y diwygiad a argymhellir i adran 171F(1)(a) yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Fel yr eglurwyd mewn ymateb i Argymhelliad 18-15(1) ac fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 12-2, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid defnyddio "dwelling" yn lle "dwellinghouse" yn y Bil cydgrynhoi, am ei fod yn derm mwy cyfarwydd. |
| 12-6 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai hysbysiad stop dros dro ddod yn weithredol ar yr adeg a’r dyddiad a nodir ynddo, sef pryd y caiff hysbysiad ei arddangos ar y tir dan sylw fel arfer;<br>2) dylai fod yn weithredol am 28 diwrnod llawn (yn dechrau ar ddechrau’r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei arddangos);<br>3) dylai’r hysbysiad sy’n cael ei arddangos ar y tir, mor agos â phosibl i’r man lle mae’r gweithgarwch y mae’n ymwneud ag ef yn digwydd:<br>o nodi bod hysbysiad stop dros dro wedi cael ei gyhoeddi;<br>o crynhoi effaith yr hysbysiad stop dros dro;<br>o nodi’r cyfeiriad (ac, os yw’n gymwys, y wefan) lle y gellir gweld copi llawn o’r hysbysiad stop dros dro;<br>4) dylai fod gan yr awdurdod bŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o’r hysbysiad stop dros dro i berchennog a meddiannydd y tir ac i eraill fel y bo’n briodol;<br>5) dylai canllawiau Llywodraeth Cymru bwysleisio, ar ôl i’r hysbysiad gael ei arddangos, y dylai copïau o’r hysbysiad stop dros dro gael eu cyflwyno o fewn amser rhesymol i berchennog a meddiannydd y tir, os yw’r naill neu’r llall yn hysbys i’r awdurdod cynllunio. | 12-6 (1) a (2) Derbyn mewn Egwyddor<br><br>12-6(3)–(5) Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r diwygiadau a argymhellir i ddarpariaethau mewn perthynas â Hysbysiadau Stop Dros Dro. Bydd y diwygiadau yn cynnig eglurder o ran pryd y daw hysbysiad o'r fath i rym.<br><br>Bydd diwygio'r darpariaethau fel bod Hysbysiadau Stop Dros Dro yn dod i rym ar yr amser a'r dyddiad a nodir ynddynt hefyd yn sicrhau cysondeb o fewn y system orfodi gyfan, o ran pryd y daw hysbysiadau eraill a gyflwynir fel rhan o'r broses orfodi i rym. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil gael ei ystyried yn ofalus, yn enwedig o ran y dyddiad y daw Hysbysiad Stop Dros Dro i rym fel arfer.<br><br>Mae trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith wedi cadarnhau mai bwriad Argymhelliad 12-6(4) yw cynnal y sefyllfa gyfreithiol sydd ohoni. Cytunwn â Chomisiwn y Gyfraith y dylai ACau barhau i gael pŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o'r Hysbysiad Stop Dros Dro. Dylai'r canllawiau nodi y cyflwynir yr hysbysiad i'r perchennog a'r deiliad lle mae hynny'n hysbys, fel eu bod yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ei fodolaeth, ond ni fydd y ffaith nad yw AC yn gwneud hynny yn tanseilio effeithiolrwydd yr hysbysiad. Felly, cefnogwn y farn bod angen canllawiau i ategu'r diwygiadau hyn ar ôl iddynt gael eu gwneud.<br><br>Nodir hefyd sylwadau un AC ynghylch ymestyn y cyfnod y gall Hysbysiad Stop Dros Dro fod mewn grym y tu hwnt i 28 diwrnod. Fodd bynnag, egwyddor sylfaenol Hysbysiad Stop Dros Dro yw mai dim ond lle mae'n fuddiol bod datblygiad nad yw wedi'i awdurdodi yn cael ei stopio ar unwaith y dylai gael ei ddefnyddio. Adnodd ydyw i roi terfyn ar weithgarwch heb ei awdurdodi a rhoi amser i AC baratoi ei achos gorfodi. Ystyrir bod 28 diwrnod yn ddigon o amser i AC drefnu ymateb gorfodi effeithiol. |
| 12-7 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai fod yn drosedd mynd yn groes i hysbysiad stop dros dro sydd wedi dod yn weithredol (yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno i’r cyhuddedig neu ei arddangos ar y safle, fel sy’n digwydd ar hyn o bryd);<br>2) dylai profi<br>o nad oedd copi o’r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i’r cyhuddedig;<br>o nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo neu iddi wybod, am fodolaeth yr hysbysiad<br>fod yn amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o’r fath. | 12-7(1)–(5) Derbyn<br><br>12-7(2) Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dull a argymhellir yn rhan gyntaf yr argymhelliad hwn, lle cyflawnir trosedd o dan adran 171G. Bydd hyn yn cynnig eglurder, yn enwedig pan fydd sawl copi o Hysbysiad Stop Dros Dro wedi eu cyflwyno. Ynghyd ag Argymhelliad 12-18(1), bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau cysondeb o fewn y system orfodi gyfan.<br><br>Yn dilyn trafodaethau â Chomisiwn y Gyfraith rydym wedi cael cadarnhad bod anghysondeb posibl rhwng Argymhellion 12-7(2), 12-18(2), 12-21 a 15-16. Rydym am sicrhau, cymaint â phosibl, fod cysondeb rhwng darpariaethau tebyg (megis troseddau torri rheoliadau diogelu coed, hysbysiad stop a hysbysiad gorfodi). Felly, bydd angen i'r dull a fabwysiedir gael ei ystyried yn ofalus ar y cam drafftio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12-8 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau torri amodau, a geir ar hyn o bryd yn adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu diwygio fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am dorri'r amodau (yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn fuddiol sicrhau cysondeb o fewn y system orfodi gyfan, gan gyhoeddi hysbysiadau i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddynt a chyflwyno copïau. Bydd angen i'r union eiriad a ddylai gael ei ddefnyddio yn y Bil o ran torri hysbysiadau amodau gael ei ystyried yn ofalus ochr yn ochr â darpariaethau tebyg. |
| 12-9 | Argymhellwn y dylai adran 173(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig i'w gwneud yn glir y gall awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd mewn perthynas â'r ddau ddiben a bennwyd, fel y nodwyd yn Oxfordshire CC v Wyatt Bros (Oxford) Ltd [2005] EWHC 2402 (QB). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai fod yn glir ar wyneb y Bil y gall awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i gyflawni'r ddau ddiben a bennwyd yn adran 173(4) fel y darperir ar ei gyfer mewn cyfraith achosion. Bydd hyn yn cynnig eglurder o ran y gofynion a all gael eu pennu mewn hysbysiad gorfodi. |
| 12-10 | Argymhellwn y dylai fod darpariaeth benodol yn y Bil, sy'n ymgorffori'r egwyddor yn Murfitt v Secretary of State a Bowring v Secretary of State, i'r perwyl, pan fo hysbysiad gorfodi sy'n honni newid defnydd tir perthnasol yn cael ei gyflwyno, y gall yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i waith penodol gael ei waredu yn ogystal â rhoi'r gorau i'r defnydd heb awdurdod, ar yr amod bod y gwaith hwnnw wedi cael ei wneud ar neu ar ôl adeg y newid defnydd perthnasol a'i fod yn rhan annatod o'r newid neu weithrediad canlyniadol y defnydd newydd. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â chodeiddio'r egwyddor a sefydlwyd yn achos Murfitt ac achosion dilynol. Fodd bynnag, bydd angen ystyried ymhellach y graddau y gall yr egwyddor gael ei hamlinellu'n glir. Os caiff yr egwyddor ei chodeiddio, ystyrir y ffordd orau o gyflawni hyn yn ystod y gwaith o ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |
| 12-11 | Argymhellwn y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru esbonio goblygiadau'r egwyddor yn Mansi v Elstree RDC, i'r perwyl nad yw hysbysiad gorfodi yn cyfyngu ar hawliau unrhyw berson i ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad heb gais cynllunio y gellid bod wedi ymgymryd ag ef yn gyfreithlon yn union cyn cyhoeddi'r hysbysiad. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad. Cytunwn â'r ymatebwyr i'r papur ymgynghori y gallai cynnwys datganiad mewn hysbysiad gorfodi greu dryswch. Cytunwn â barn Comisiwn y Gyfraith mai canllawiau yw'r lle gorau i roi cyngor yn deillio o achos Mansi. Caiff hyn ei gynnwys pan fyddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein canllawiau ar y system orfodi. |
| 12-12 | Argymhellwn y dylai'r Bil:<br>1) hepgor adran 177(5) a (6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â chais am ganiatâd cynllunio y tybir ei fod wedi'i wneud gan apelydd sy'n dibynnu ar sail (a) yn adran 174(2) (dylai caniatâd fod wedi'i roi ar gyfer unrhyw fater y nodwyd yn yr hysbysiad gorfodi ei fod yn gyfystyr â thor-rheolaeth);<br>2) ddarparu, yn lle hynny, y gall Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl o dan adran 174 wneud pob un neu unrhyw un o'r canlynol:<br>o mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion sy'n sail i apêl o dan sail (a), rhoi caniatâd cynllunio neu ddiddymu unrhyw amod neu gyfyngiad yr honnir ei fod wedi cael ei dorri;<br>o mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion sy'n sail i apêl o dan sail (c) neu (d), cyhoeddi tystysgrif cyfreithlondeb, i'r graddau y maent yn penderfynu | 12-1(1) – Derbyn<br><br>12-12(2) – Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Rhan (1) o'r argymhelliad. Drwy hepgor adran 177(5) a (6) caiff y broses apeliadau ei symleiddio. Nid yw'r cysyniad o gais tybiedig yn gyfarwydd i lawer o randdeiliaid ymhlith y cyhoedd, ac nid yw'n angenrheidiol o ystyried y pwerau yn adran 177(1)(a) i roi caniatâd cynllunio mewn perthynas ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi. Bydd hyn yn cynnig eglurder ac yn symleiddio pethau i randdeiliaid o ran deall canlyniad posibl unrhyw apêl a wneir o dan sail (a). Ni fyddai diwygiad o'r fath yn newid effaith bresennol y polisi oherwydd byddai unrhyw apêl lwyddiannus a wnaed o dan sail (a) yn dal i arwain at awdurdodi'r datblygiad.<br><br>Wrth ddrafftio'r Bil bydd hefyd angen ystyried a oes angen gwneud newidiadau i ddarpariaethau eraill sy'n cyfeirio at geisiadau tybiedig er mwyn sicrhau bod y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn parhau.<br><br>Hefyd, cytunwn mewn egwyddor â'r diwygiadau arfaethedig i'r camau y gall Gweinidogion Cymru eu cymryd wrth benderfynu ar apêl o dan adran 174, a nodir yn Rhan (2) o'r argymhelliad. Ar hyn o bryd yr unig gyfyngiad ar y camau y gall Gweinidogion Cymru eu cymryd wrth benderfynu ar apêl gorfodi yw mai dim ond rhoi caniatâd cynllunio lle mae apêl o dan sail (a) y gallant ei wneud. Ar hyn o bryd gall Gweinidogion Cymru ddiddymu amodau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio a chyhoeddi tystysgrif cyfreithlondeb lle mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bod y materion hynny yn gyfreithlon mewn gwirionedd. | | apêl o dan unrhyw sail. Bydd y newid arfaethedig yn golygu y gall Gweinidogion Cymru barhau i roi caniatâd cynllunio lle mae apêl o dan sail (a), ond bydd yn ei gwneud hi'n glir mai dim ond lle mae apêl o dan sail (a) y gall Gweinidogion Cymru ddiddymu unrhyw amodau a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Bydd hefyd yn ei gwneud hi'n glir mai dim ond lle y caniateir apêl gorfodi o dan sail (c) a sail (d) y gellir cyhoeddi tystysgrif cyfreithlondeb.<br><br>Mewn ymateb i gynrychioliadau Arolygiaeth Gynllunio Cymru, byddai Rhan (2) o'r argymhelliad hwn hefyd yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i benderfynu ar apêl sy'n cynnwys sail (a) i'r elfennau hynny o'r tor-rheolaeth honedig, sy'n destun apêl sail (a), yn hytrach nag unrhyw fater neu bob un o'r materion honedig yn yr hysbysiad gorfodi. Byddai hyn yn osgoi'r angen i ystyried rhinweddau cynllunio unrhyw faterion honedig yn yr hysbysiad gorfodi ond nas codwyd gan yr apelydd. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi awgrymu y dylai apeliadau o dan sail (c) a sail (d) gael eu trin yn yr un modd.<br><br>Cytunwn mewn egwyddor â'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn Rhan (2) o'r argymhelliad. Fodd bynnag, rydym am sicrhau nad yw'r diwygiadau a awgrymir yn golygu nad oes gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ganiatáu apêl o dan sail wahanol i'r un a oedd yn sail i'r apêl. Mae angen tystiolaeth bellach er mwyn sicrhau bod y broses yn parhau'n deg i apelyddion ac ACau, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu apêl o dan y sail gywir os bydd yn wahanol i sail yr apêl a geir yng nghyflwyniad yr apelydd. |
| 12-13 | Argymhellwn y dylai sail (e) y gellir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi yn unol â hi (o dan adran 174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) gyfeirio at fethiant i gyflwyno copïau o'r hysbysiad fel sy'n ofynnol yn y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 172(2) (sy'n cyfeirio at gyflwyno hysbysiad i berchenogion a meddianwyr etc) yn hytrach nag fel sy'n ofynnol yn y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 172 yn ei chyfanrwydd (sydd hefyd yn cyfeirio at derfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai'r geiriad yn y Bil cydgrynhoi gyfateb i'r ystyr a roddwyd iddo yn *R (Stern) v Horsham DC.* Bydd angen i'r ffordd orau o gyflawni hyn gael ei hystyried yn ofalus wrth ei ddrafftio. |
| 12-14 | Argymhellwn y dylai adran 174(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gofynion ynghylch y datganiad i'w gyflwyno ar y cyd ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio fel na fydd yn dyblygu gofynion yr is-ddeddfwriaeth berthnasol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad ynghylch dileu dyblygu. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau dilynol, gael ei ystyried yn ofalus. |
| 12-15 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 285(1) a (2) yn y rhan o'r Bil sy'n ymdrin â gorfodi, i'r perwyl na chaniateir herio hysbysiad gorfodi, ac eithrio drwy apêl i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellid bod wedi cyflwyno apêl o'r fath ami. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i gadw darpariaethau sy'n cyfateb i adran 285(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac y dylai'r darpariaethau hyn gael eu symud i'r rhan o'r Bil sy'n ymdrin â gorfodi.<br><br>Caiff yr union eiriad i'w ddefnyddio ei ystyried wrth ddrafftio'r Bil a chaiff ei ystyried gydag Argymhelliad 17-1 yn ymwneud â darpariaethau yn Rhan 12 o Ddeddf 1990 (heriau yn yr Uchel Lys i ddilysrwydd camau gweithredu a phenderfyniadau o dan y Ddeddf). |
| 12-16 | Argymhellwn y dylai'r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 183(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y diwygiad a argymhellir i adran 183(4) yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Fel yr eglurwyd mewn ymateb i Argymhelliad 18-15(1) ac fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 12-2 a 12-5, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid defnyddio "dwelling" yn lle "dwellinghouse" yn y Bil cydgrynhoi, am ei fod yn derm mwy cyfarwydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12-17 | Argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 184 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am dorri rheolaeth (yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno); a phan gaiff hysbysiad ei arddangos ar y tir, y dylai fod mor agos ag sy'n bosibl yn rhesymol i'r man lle mae'r gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r diwygiad a argymhellir.<br><br>Ynghyd ag Argymhelliad 12-6 a 12-8, bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau cysondeb o fewn y system orfodi gyfan o ran y derminoleg a ddefnyddir a phryd y daw hysbysiadau a gyhoeddir i rym. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil o ran hysbysiadau stop gael ei ystyried yn ofalus, ynghyd â darpariaethau tebyg eraill. |
| 12-18 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai fod yn drosedd mynd yn groes i hysbysiad stop sydd wedi dod yn weithredol;<br>2) dylai profi<br>o nad oedd copi o'r hysbysiad stop wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig, ac<br>o nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo neu iddi wybod, am fodolaeth yr hysbysiad fod yn amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath. | 12-18(1) – Derbyn<br><br>12-18(2) – Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dull a argymhellir yn rhan gyntaf yr argymhelliad hwn, o ran lle cyflawnir trosedd o dan adran 187. Bydd hyn yn cynnig eglurder, yn enwedig pan fydd sawl copi o hysbysiad stop wedi'u cyflwyno. Ynghyd ag Argymhelliad 12-7(1), bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau cysondeb o fewn y system orfodi gyfan.<br><br>Fel y nodwyd mewn perthynas ag Argymhelliad 12-7(2), rydym wedi cael cadarnhad gan Gomisiwn y Gyfraith fod anghysondeb posibl rhwng Argymhellion 12-7(2), 12-18(2), 12-21 a 15-16. Rydym am sicrhau, cymaint â phosibl, fod cysondeb rhwng darpariaethau tebyg (megis troseddau torri rheoliadau diogelu coed, hysbysiad stop a hysbysiad gorfodi). Felly, bydd angen i'r dull a fabwysiedir gael ei ystyried yn ofalus ar y cam drafftio. |
| 12-19 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) pan fo awdurdod cynllunio yn penderfynu tynnu hysbysiad stop yn ôl, dylai'r hysbysiad beidio â bod yn weithredol ar unwaith;<br>2) dylid rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniad o'r fath mor fuan â phosibl ar ôl iddo gael ei wneud:<br>o drwy hysbysu pob un a hysbyswyd am yr hysbysiad gwreiddiol, ac<br>o os rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad gwreiddiol drwy hysbysiad safle, drwy arddangos hysbysiad arall o'r fath, yn yr un lleoliad. | Derbyn | Mae hyn yn ddull ymarferol. Pan fydd AC wedi penderfynu tynnu hysbysiad stop yn ôl, ni fydd yn weithredol mwyach ac felly ni ddylai fod ganddo unrhyw effaith gyfreithiol ychwaith. |
| 12-20 | Argymhellwn, pan fo hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 182 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a phan fo hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno ganddynt o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 185, ac yna'i ddiddymu, dylai unrhyw atebolrwydd am dalu iawndal sy'n codi o dan adran 186 fod yn daladwy ganddynt hwy ac nid gan yr awdurdod cynllunio. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor, os bydd iawndal yn daladwy lle mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cymryd camau gorfodi ac wedi cyhoeddi'r hysbysiad gorfodi a'r hysbysiad stop, mai Gweinidogion Cymru ddylai dalu unrhyw iawndal o'r fath.<br><br>Ystyrir yn llawn a oes angen diwygio deddfwriaeth neu a ellir cyflawni hyn mewn ffordd amgen fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Bil.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith, mewn sefyllfa lle cafodd yr hysbysiad gorfodi ei gyflwyno gan yr AC, y dylai barhau i fod yn atebol fel sy'n wir ar hyn o bryd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12-21 | Argymhellwn y canlynol:<br>1) dylai pob un o'r troseddau o dan adran 179(2) (torri hysbysiad gorfodi) ac adran 179(5) (ailddechrau gweithgaredd gwaharddedig yn dilyn hynny) gael eu hail-lunio er mwyn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn torri hysbysiad gorfodi, ac<br>o os oedd yr hysbysiad ar adeg ei dorri wedi'i gynnwys ar y gofrestr berthnasol; neu<br>o roedd y person yn ymwybodol o'r hysbysiad, am fod copi wedi'i gyflwyno neu fel arall.<br>2) dylai'r rheoliadau perthnasol gynnwys, ochr yn ochr â'r gofyniad i gynnwys yr hysbysiad gorfodi ar y gofrestr, ofyniad arall i gofnodi'r dyddiad y cafodd ei gynnwys felly yn gyntaf.<br>3) Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gynghori defnyddwyr y system gynllunio i edrych ar y gofrestr orfodi cyn ymgymryd â gweithgareddau ar dir a all fod yn destun rheolaeth gynllunio, a rhoi cyfarwyddiadau clir ynglŷn â sut i wneud hyn. | 12-21(1) – Derbyn mewn egwyddor<br><br>12-21(2) a (3) – Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor rhan gyntaf yr argymhelliad hwn. Mae'r materion yn debyg i'r rhai a godir gan Argymhelliad 15-16.<br><br>Nodwn fod y cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori wedi cael ei ddiwygio yn sgil sylwadau ymatebwyr.<br><br>Fel gydag Argymhelliad 15-16, cytunwn mewn egwyddor ag ail-lunio'r drosedd ond rydym am sicrhau, cymaint â phosibl, fod cysondeb rhwng darpariaethau tebyg (megis troseddau torri hysbysiad stop dros dro, hysbysiad stop a rheoliadau diogelu coed). Felly, bydd angen i'r dull a fabwysiedir gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig i'r offeryn statudol perthnasol a chaiff y Llawlyfr Rheoli Datblygu ei ddiwygio i gynnwys cyngor ar gyfeirio at y gofrestr gorfodi. Bydd y gwelliannau hyn a awgrymir i'r offeryn statudol perthnasol a'r canllawiau yn rhan o raglen waith yn y dyfodol. |
| 12-22 | Argymhellwn y dylai adran 172A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sicrwydd ynghylch peidio ag erlyn achos o dorri hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio er mwyn galluogi awdurdod i:<br>1) rhoi sicrwydd o'r fath, yn syml, drwy hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig, fel y'i diffiniwyd yn adran 329 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn hytrach na gwneud hynny drwy lythyr ar ffurf copi caled o reidrwydd;<br>2) rhoi sicrwydd mewn ymateb i gais gan berson (B), sy'n caffael buddiant mewn tir ar ôl i hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â'r tir gael ei gyhoeddi, yn esbonio ei bod yn ofynnol i'r awdurdod, unwaith bod yr hysbysiad gorfodi wedi'i gyhoeddi, gyflwyno copi ohono i berson (A) yr oedd B wedi caffael buddiant yn y tir oddi wrtho neu oddi wrthi. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â moderneiddio'r ddarpariaeth hon er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ACau wrth ddarparu sicrwydd ynghylch peidio ag erlyn achos. Yna, byddai'r newid deddfwriaethol arfaethedig yn cael ei gefnogi gan ganllawiau ar y defnydd o negeseuon e-bost pan roddir hysbysiadau o dan y ddarpariaeth hon.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno y dylai AC allu rhoi sicrwydd i berchennog a wnaeth gaffael buddiant mewn tir ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei gyflwyno.<br><br>Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir i roi Argymhelliad 12-22 ar waith gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |
| 12-23 | Argymhellwn y dylai adran 180(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â'r effaith ar hysbysiad gorfodi os caiff caniatâd cynllunio ei roi wedyn) gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig er mwyn cyfeirio at:<br>1) rhoi caniatâd cynllunio ar ôl i hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau gael ei gyhoeddi, yn hytrach nag ar ôl i gopi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno;<br>2) rhoi caniatâd cynllunio yn gyffredinol ar gyfer datblygiad yr ymgymerwyd ag ef eisoes;<br>3) rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad arall, unwaith bod y caniatâd hwnnw wedi cael ei roi ar waith. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad a wnaiff gynnig eglurder na fydd hysbysiad gorfodi na hysbysiad torri amodau yn effeithiol mwyach lle mae'n anghyson â'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer gwaith datblygu a wnaed eisoes, neu ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu i'w wneud yn y dyfodol unwaith y bydd y gwaith datblygu hwnnw wedi dechrau. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir gael ei ystyried yn ofalus wrth i'r Bil cydgrynhoi ddatblygu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12-24 | Argymhellwn y dylai troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth anwir mewn ymateb i gais gan awdurdod cynllunio, a geir ar hyn o bryd o dan adrannau 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – yn achos troseddau a gyflawnir ar neu ar ôl dyddiad deddfu'r Bil – oll fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod (yn y llys ynadon) neu ar dditiad (yn Llys y Goron), ac y dylai uchafswm y gosb ym mhob achos yn y naill achos a'r llall fod yn ddirwy o unrhyw swm. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor o ran sicrhau mwy o gysondeb rhwng y troseddau hyn a, lle y bo'n briodol, droseddau eraill a nodir yn Neddf 1990.<br><br>Cytunwn nad oes angen y posibilrwydd o garchar yn dilyn euogfarn am ddarparu gwybodaeth anwir yn fwriadol er mwyn cael tystysgrif datblygiad cyfreithlon o dan adran 194, ac i gais am wybodaeth gan Weinidogion Cymru neu AC o dan adran 303 (pŵer i ofyn am wybodaeth am fuddiannau mewn tir) ac y dylid ei ddileu. Yn ein barn ni, mae'r posibilrwydd o ddirwy ddiderfyn yn ddigon o reswm i beidio â gwneud hyn, ac yn ddigon o gosb os bydd rhywun yn euog o gyflawni'r troseddau hyn.<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y gall fod angen, mewn rhai achosion, ystyried a phenderfynu ar droseddau am ddarparu gwybodaeth anwir yn fwriadol o dan adran 65(6) (hysbysiad cais am ganiatâd cynllunio) ac adran 171D(5) (cosbau am beidio â chydymffurfio â hysbysiad tramgwyddo cynllunio) yn Llys y Goron. Cytunwn fod gwneud y troseddau hyn yn brofadwy naill ai mewn Llys Ynadon neu yn Llys y Goron yn cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfeirio achosion cymhleth i'w hystyried a'u penderfynu gan Lys y Goron. Fodd bynnag, bydd angen inni bennu ac ystyried yn fanwl unrhyw gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r newid hwn. Caiff hyn ei ystyried a'i bwyso a'i fesur yn erbyn y buddiannau sydd wedi'u nodi gan Gomisiwn y Gyfraith fel rhan o'r Asesiad Effaith Barnwrol y byddwn yn ei gynnal i gyd-fynd â Bil yn y dyfodol. |
| 12-25 | Argymhellwn y dylai'r troseddau sy'n ymwneud ag<br>1) adfer adeiladau neu waith ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi (o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 181(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990); a<br>2) methu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau (o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 187A(9))<br><br>yn achos troseddau a gyflawnir ar neu ar ôl dyddiad deddfu'r Bil, fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod neu ar dditiad, ac yn gosbadwy yn y naill achos a'r llall drwy ddirwy o unrhyw swm, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r cosbau ar gyfer achosion eraill o dorri hysbysiadau gorfodi cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor o ran sicrhau mwy o gysondeb rhwng y ddwy drosedd hyn a'r troseddau sy'n weddill am dorri hysbysiadau gorfodi cynllunio eraill o dan Ddeddf 1990.<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y dylai'r ddwy drosedd hefyd fod yn brofadwy mewn Llys Ynadon neu yn Llys y Goron. Cytunwn y bydd hyn yn sicrhau cysondeb o ran pob trosedd sy'n ymwneud â thorri hysbysiadau gorfodi cynllunio. Bydd hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfeirio achosion cymhleth i'w hystyried a'u penderfynu gan Lys y Goron. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymateb i'r argymhelliad blaenorol, bydd angen inni bennu ac ystyried yn fanwl unrhyw gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r newid hwn. Caiff hyn ei ystyried a'i bwyso a'i fesur yn erbyn y buddiannau sydd wedi'u nodi gan Gomisiwn y Gyfraith fel rhan o'r Asesiad Effaith Barnwrol y byddwn yn ei gynnal i gyd-fynd â Bil yn y dyfodol.<br><br>Cefnogwn yr elfen o'r argymhelliad sy'n cynnig cynyddu'r gosb am fethu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau o dan adran 187A i uchafswm cosb o unrhyw swm. Credwn y bydd newid o'r fath yn galluogi'r Llysoedd i gyflwyno cosbau ariannol priodol lle mae effaith y drosedd o ran torri'r hysbysiad gorfodi hwn yn sylweddol ac yn fwy o rwystr. |
| 12-26 | Argymhellwn na ddylai adrannau 57(7), 302 nac Atodlenni 4 a 15 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag achosion hanesyddol o dorri rheolaeth gynllunio gael eu hailddatgan yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y ddwy ddarpariaeth yn ofer ac na ddylent felly gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi. |

## Pennod 13 - Gwaith sy’n effeithio ar adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 13-1A | Argymhellwn y dylid symleiddio’r gyfundrefn ar gyfer rheoli gwaith ar adeiladau rhestredig drwy:<br>1) diwygio’r diffiniad o “ddatblygiad”, y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer, i gynnwys gwneud gwaith i addasu neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy’n debygol o effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol;<br>2) darparu nad oes angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith ar<br>o y tu mewn i adeilad eglwysig sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig gan un o’r enwadau esempt; na<br>o heneb gofrestredig.<br>3) sicrhau bod gwneud gwaith heb awdurdod i ddymchwel adeilad rhestredig, neu ei addasu neu ei ymestyn mewn unrhyw ffordd sy’n debygol o effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, yn dal i fod yn drosedd;<br>4) dileu’r gofyniad i gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith ar adeilad rhestredig;<br>5) rhoi’r mesurau ychwanegol a nodir yn Argymhellion 13-2, 13-3 a 13-5 i 13-8 ar waith, er mwyn sicrhau y cedwid y lefel bresennol o ddiogelwch a roddir i adeiladau rhestredig. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Nodwn y gwahaniaeth barn cryf a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynnig i unioni caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig yn gynnig cadarnhaol a fydd yn arwain at symleiddio'r drefn heb i'r mesurau amddiffyn presennol sy'n gymwys i adeiladau rhestredig gael eu colli.<br><br>Mae ymatebwyr eraill yn anghytuno, gan gredu bod yr argymhelliad hwn yn dibrisio adeiladau rhestredig. Hefyd, nodwn ymatebion yn datgan y bydd y cynnig hwn yn gofyn am gryn dipyn o newidiadau i ddeddfwriaeth a fyddai ond yn symleiddio'r weithdrefn ar gyfer cyfran fach o geisiadau. At hynny, er mai'r rhesymeg sy'n sail i'r argymhelliad yw dileu ac osgoi dyblygu gweithdrefnau, nid oedd nifer o ymatebion yn credu bod hyn yn broblem fawr yn ymarferol a nodwyd mai prin roedd yn codi.<br><br>Mae cydsyniadau adeilad rhestredig yn un o blith nifer o gydsyniadau statudol eraill (sy'n gorgyffwrdd weithiau) sy'n ofynnol ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio. Gall hyn fod yn ddryslyd ac mae'n creu ansicrwydd i ymgeiswyr a chymunedau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhaglen waith yn y dyfodol i gynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml.<br><br>Nodwn farn ac argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch cydsyniadau adeilad rhestredig, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd, a fydd yn creu sail dystiolaeth i lywio adolygiad o'r fath. |
| 13-1B | Argymhellwn y dylid symleiddio’r gyfundrefn ar gyfer rheoli gwaith dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth drwy:<br>1) dileu’r gofyniad i gael cydsyniad ardal gadwraeth i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth;<br>2) sicrhau bod gwneud gwaith heb awdurdod i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth yn dal i fod yn drosedd;<br>3) rhoi’r mesurau ychwanegol a nodir yn Argymhellion 13-6 i 13-8 ar waith er mwyn sicrhau y cedwid y lefel bresennol o ddiogelwch a roddir i adeiladau anrhestredig mewn ardal gadwraeth. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Nodwn i'r argymhelliad ynghylch cydsyniad ardal gadwraeth gael mwy o gefnogaeth nag unioni caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig. Cydnabu rhai ymatebion fod diwygiadau tebyg wedi cael eu gwneud yn Lloegr a'u bod wedi llwyddo. Yn yr un modd, nodwn fod dadleuon tebyg wedi cael eu gwneud yn erbyn yr argymhelliad hwn i'r dadleuon a wnaed yn gwrthwynebu uno caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig.<br><br>Mae cydsyniadau ardal gadwraeth yn un o blith nifer o gydsyniadau statudol eraill (sy'n gorgyffwrdd weithiau) sy'n ofynnol ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio. Gall hyn fod yn ddryslyd ac mae'n creu ansicrwydd i ymgeiswyr a chymunedau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhaglen waith yn y dyfodol i gynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml.<br><br>Nodwn farn ac argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch cydsyniadau ardal gadwraeth, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd, a fydd yn creu sail dystiolaeth i lywio adolygiad o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13-2 | Argymhellwn y dylid cyfyngu ar y pŵer i wneud gorchmynion datblygu cyffredinol a lleol fel na allant roi caniatâd ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys<br>1) dymchwel, addasu neu ymestyn adeilad rhestredig;<br>2) cyflawni unrhyw ddatblygiad gweithredol yng nghwrtil adeilad rhestredig; neu<br>3) adeiladu, ailadeiladu neu addasu giât, ffens neu wal sy'n ffinio â chwrtil adeilad rhestredig. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Nodwn yr argymhelliad na ddylai gorchmynion datblygu cyffredinol a lleol allu rhoi caniatâd ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys dymchwel, addasu neu ymestyn adeilad rhestredig neu waith yn ei gwrtil (gan gynnwys adeiladu neu addasu wal sy'n ffinio). Ceisia hyn gynnal effaith y mesur amddiffyn presennol a ddarperir drwy Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac eithrio rhai mathau o waith a fyddai fel arall yn cael eu caniatáu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Byddai'n cynnig diogelwch pellach drwy atal rhoi hawliau datblygu a ganiateir o ran rhai datblygiadau gweithredol yng nghwrtil adeiladau rhestredig a ganiateir ar hyn o bryd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn dilyn Argymhelliad 13-1A. Gan nad ystyrir Argymhelliad 13-1A am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhelliad 13-1A fynd rhagddo. |
| 13-3 | Argymhellwn y dylai cytundebau partneriaeth treftadaeth allu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu yn y cyfryw gategorïau ag y gellir eu rhagnodi. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Cafodd adran 26L ei mewnosod yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 gan adran 28 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Pan fydd wedi cychwyn yn llawn bydd yr adran hon yn galluogi cydsyniad adeilad rhestredig i gael ei roi'n awtomatig ar gyfer gwaith a nodir mewn cytundeb partneriaeth treftadaeth. Fodd bynnag, ni all cytundeb partneriaeth treftadaeth roi caniatâd cynllunio. Petai'n cael ei weithredu, byddai'r argymhelliad yn caniatáu i gytundeb partneriaeth treftadaeth roi caniatâd cynllunio ar gyfer mathau o waith datblygu wedi'u rhagnodi.<br><br>Bydd yr argymhelliad hwn yn dilyn Argymhelliad 13-1A. Gan nad ystyrir Argymhelliad 13-1A am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhelliad 13-1A fynd rhagddo. |
| 13-4 | P'un a gaiff caniatâd cynllunio ei uno â chydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth ai peidio, argymhellwn y dylid ymestyn y darpariaethau (a geir yn adrannau 191 a 192 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) sy'n ymwneud â thystysgrifau cyfreithlondeb i gynnwys gwaith y mae angen y cyfryw ganiatâd yn unig ar ei gyfer ar hyn o bryd. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Mae unrhyw gynnig i ymestyn tystysgrifau cyfreithlondeb i gynnwys gwaith sydd ond angen cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth ar hyn o bryd yn rhan o ddeddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol. Cafodd tystysgrifau cyfreithlondeb yng nghyd-destun cydsyniadau adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth eu hystyried gyntaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Ar y pryd nid oedd digon o gefnogaeth iddynt na thystiolaeth gymhellol bod eu hangen.<br><br>Nodwn yr ymatebion a gafwyd sy'n awgrymu y gallai tystysgrifau o ran gwaith arfaethedig fod yn ddefnyddiol yng nghyd-destun cydsyniadau adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth. Gall tystysgrifau o'r fath gwtogi ar yr angen i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth ar gyfer gwaith lle nad yw darpar ymgeiswyr yn sicr a yw'r gwaith yn effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig neu nad yw'n gyfystyr â dymchwel mewn ardal gadwraeth. Amcan tystysgrifau cyfreithlondeb datblygiad neu ddefnydd arfaethedig yw rhoi sicrwydd i berchenogion neu ddeiliaid drwy benderfynu a fyddai datblygiad (arfaethedig) angen caniatâd cynllunio a gallai ymestyn y sicrwydd hwn i adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth helpu'r perchenogion a'r deiliaid hynny.<br><br>Hefyd cydnabyddwn faterion a godwyd gan ymatebwyr ynghylch ymarferoldeb cyflwyno tystysgrifau cyfreithlondeb o ran gwaith arfaethedig a gwaith a wnaed eisoes. Er enghraifft, lefel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y wybodaeth a'r gwaith craffu sy'n angenrheidiol fel rhan o gais, yn enwedig o ystyried bod gwneud gwaith heb gydsyniad yn drosedd.<br><br>Bydd angen ystyried ymhellach sut y gellid gweithredu'r argymhelliad ac a yw'n ymarferol. |
| 13-5 | Argymhellwn y dylai’r Bil gynnwys darpariaethau i’r perwyl:<br>1) y gall unrhyw apêl sy’n ymwneud â gwaith ar adeilad rhestredig gynnwys fel sail apelio honiad nad yw’r adeilad dan sylw o ddiddordeb pensaernïol na hanesyddol arbennig, ac y dylid ei dynnu oddi ar y rhestr o adeiladau o’r fath a gynhelir gan Weinidogion Cymru;<br>2) os bydd adeilad yn destun hysbysiad diogelu adeilad (rhestriad dros dro), y gall yr hysbysiad o apêl gynnwys honiad na ddylid cynnwys yr adeilad ar y rhestr;<br>3) y gall Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl sy’n ymwneud ag adeilad rhestredig, arfer eu pwerau i dynnu’r adeilad oddi ar y rhestr;<br>4) wrth benderfynu ar apêl sy’n ymwneud â gorchymyn diogel adeilad, y gallant ddatgan nad ydynt yn bwriadu ei gynnwys ar y rhestr. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Bydd yr argymhelliad hwn yn dilyn Argymhelliad 13-1A. Mae'n anelu'n bennaf at gynnal y sefyllfa gyfreithiol bresennol drwy argymell bod darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai sydd bellach yn gymwys yn achos apeliadau cydsyniad adeilad rhestredig (fel y'i hamlinellir ar hyn o bryd yn adrannau 21 a 22 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990) yn cael eu cynnwys mewn unrhyw Fil sy'n darparu ar gyfer uno caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig.<br><br>Gan nad ystyrir Argymhelliad 13-1A am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhelliad 13-1A fynd rhagddo. |
| 13-6 | Argymhellwn y dylai’r Bil gynnwys darpariaethau i’r perwyl:<br>1) y dylai fod yn drosedd gwneud gwaith i<br>o ddymchwel adeilad rhestredig heb ganiatâd cynllunio;<br>o addasu neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy’n debygol o effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol; neu<br>o ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth;<br>2) y dylai trosedd o’r fath fod yn gosbadwy:<br>o yn dilyn collfarn ddiannod drwy roi hyd at chwe mis o garchar neu ddirwy neu’r ddau; neu<br>o yn dilyn collfarn ar dditiad drwy roi hyd at ddwy flynedd o garchar neu ddirwy neu’r ddau;<br>3) bod yr amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd yn union yr un fath â’r amddiffyniad sy’n gymwys ar hyn o bryd mewn perthynas â gwneud gwaith heb gydsyniad adeilad rhestredig. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Bydd yr argymhelliad hwn yn dilyn Argymhellion 13-1A a B. Mae'n ceisio sicrhau bod gwaith sydd heb ei awdurdodi i adeiladau rhestredig a dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth yn parhau i fod yn drosedd ar yr un sail â'r hyn a nodir yn adran 9 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (gan gynnwys yr adran honno fel y'i cymhwysir gan adran 73(3)).<br><br>Gan nad ystyrir Argymhellion 13-1A a B am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhellion 13-1A a B fynd rhagddynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13-7 | Argymhellwn na ddylai'r Bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl y dylai'r categorïau o ddatblygiad sy'n ddarostyngedig i derfynau amser o ran y cyfnod y gellir cymryd camau gorfodi gynnwys gwaith i wneud y canlynol:<br>1) ddymchwel adeilad rhestredig;<br>2) addasu neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy'n debygol o effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol;<br>3) dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Bydd yr argymhelliad hwn yn dilyn Argymhellion 13-1A a B. Mae'n ceisio sicrhau nad yw effaith cyfraith bresennol yn newid o ganlyniad i uno caniatâd cynllunio a chydsyniadau adeilad rhestredig/ardal gadwraeth lle mae a wnelo â chamau gorfodi o ran gwaith sydd heb ei awdurdodi i adeiladau rhestredig ac mewn ardaloedd cadwraeth. Gwna hyn drwy argymell nad oes unrhyw gyfnodau o amser ar gyfer cymryd camau gorfodi o'r fath mewn unrhyw Fil sy'n darparu ar gyfer uno caniatâd cynllunio a chydsyniadau adeilad rhestredig / ardal gadwraeth.<br><br>Gan nad ystyrir Argymhellion 13-1A a B am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhellion 13-1A a B fynd rhagddynt. |
| 13-8 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau i'r perwyl:<br>1) os cyflwynir hysbysiad gorfodi mewn perthynas â gwneud gwaith i<br>o ddymchwel adeilad rhestredig; neu<br>o addasu neu ymestyn adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd sy'n debygol o effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol;<br><br>fod y seiliau dros apelio yn erbyn hysbysiad o'r fath yn cynnwys seiliau sy'n cyfateb i seiliau (a), (d), (i), (j) a (k) fel y'u nodir yn Adran 39 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990;<br><br>2) os cyflwynir hysbysiad gorfodi mewn perthynas â gwneud gwaith i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, fod y seiliau dros apelio yn erbyn hysbysiad o'r fath yn cynnwys seiliau sy'n cyfateb i seiliau (a), (d), (j) a (k) fel y'u nodir yn Adran 39 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/793;<br>3) y gall Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, arfer eu pwerau i dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr;<br>4) wrth benderfynu ar apêl gorfodi sy'n ymwneud ag adeilad sy'n destun gorchymyn diogel adeilad, y gallant ddatgan nad ydynt yn bwriadu ei gynnwys ar y rhestr. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Bydd yr argymhelliad hwn yn dilyn Argymhellion 13-1A a B. Mae'n ceisio sicrhau nad yw effaith cyfraith bresennol yn newid o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig o uno caniatâd cynllunio a chydsyniadau adeilad rhestredig/ardal gadwraeth lle mae a wnelo ag apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi. Gwna hyn drwy argymell y dylai'r seiliau dros apelio ar hyn o bryd yn erbyn hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth gael eu cynnwys mewn unrhyw Fil sy'n darparu ar gyfer uno caniatâd cynllunio a chydsyniadau adeilad rhestredig/ardal gadwraeth. Hefyd ceisia'n eang gynnal pwerau Gweinidogion Cymru i benderfynu ar apeliadau o'r fath.<br><br>Gan nad ystyrir Argymhellion 13-1A a B am y tro er mwyn iddo fod yn rhan o adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio, byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach os bydd yr adolygiad ehangach hwn yn penderfynu y dylai Argymhellion 13-1A a B fynd rhagddynt. |
| 13-9 | Argymhellwn na ddylai cydsyniad heneb gofrestredig gael ei ddisodli gan ganiatâd cynllunio. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Nodwn y cafwyd cefnogaeth gref i'r argymhelliad hwn.<br><br>Nododd yr ymatebion yn cefnogi'r argymhelliad nad yw uno caniatâd cynllunio a chydsyniad heneb gofrestredig yn debygol o fod yn ymarferol. Ar hyn o bryd, caiff ceisiadau cydsyniad heneb gofrestredig eu gweinyddu gan Cadw, gyda Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt. Fel rheol ni fydd gan awdurdodau cynllunio (ACau) arbenigedd penodol ym maes archaeoleg. Mae Cadw wedi sefydlu tîm bach o arbenigwyr i ymdrin â'r nifer cymharol fach o geisiadau cydsyniad heneb gofrestredig a ddaw i law yng Nghymru bob blwyddyn. Noda'r ymatebion na fyddai rhoi'r ceisiadau hyn a'r arbenigedd dilynol i ACau yn effeithlon – nid yn ariannol nac yn weinyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gofynnodd rhai ymatebwyr a ddylai henebion cofrestredig gael eu trin yn wahanol i adeiladau rhestredig. Nodwyd y gallai arbenigedd ar henebion cofrestredig gael ei ddarparu drwy rôl yr ymgynghorai statudol, yn yr un modd â chydsyniadau cymhleth eraill sydd angen arbenigedd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhaglen waith yn y dyfodol i gynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml.<br><br>Nodwn farn ac argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch cydsyniadau heneb gofrestredig, yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd, a fydd yn creu sail dystiolaeth i lywio adolygiad o'r fath. |
| 13-10 | Argymhellwn y dylid gwneud y diffiniad o “adeilad rhestredig” yn fwy eglur drwy nodi’ drwy nodi’n glir ei fod yn cynnwys gwrthrychau a strwythurau sy’n bodoli ers cyn 1948 os oeddent o fewn cwrtil yr adeilad ar y rhestr fel yr oedd<br>1) yn achos adeilad a restrwyd cyn 1 Ionawr 1969, ar y dyddiad hwnnw; neu<br>2) mewn unrhyw achos arall, ar y dyddiad y’i cynhwyswyd gyntaf ar y rhestr. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor o ran darparu eglurder ynghylch y dyddiad y dylai cwrtil adeilad rhestredig gael ei asesu. Fodd bynnag, yn ein barn ni, bydd angen i'r union ddiffiniad gael ei ystyried ymhellach – gwneir hyn fel rhan o unrhyw broses i gyfuno neu ddiwygio prif Ddeddfau'r amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol. |
| 13-11 | Argymhellwn y dylid diwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 fel na fydd Rhan 2 (ardaloedd o bwys archaeolegol) yn gymwys yng Nghymru. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor o ran dirymu Rhan 2 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 mewn perthynas â Chymru.<br><br>Ers iddi gychwyn, dim ond pum ardal o bwys archaeolegol sydd wedi cael eu dynodi yn Lloegr (canolfannau hanesyddol Caer, Caerefrog, Caergaint, Caerwysg a Henffordd, i gyd yn 1984), heb unrhyw un yng Nghymru. Nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pŵer hwn i ddynodi yng Nghymru.<br><br>Cydnabyddwn y pryderon a godwyd gan ymatebwyr y gall ardaloedd o bwysigrwydd archaeolegol fod yn adnodd hanfodol er mwyn sicrhau yr ymchwilir i asedau claddedig ac y cânt eu cofnodi cyn iddynt gael eu difrodi neu eu dinistrio. Fodd bynnag, cydnabyddwn hefyd fod arferion wedi datblygu am fod datblygwyr wedi ariannu gwaith cofnodi archaeolegol.<br><br>Mae sawl adnodd arall ar gael i ACau er mwyn sicrhau bod gwaith ymchwilio a chofnodi hanfodol yn digwydd lle caiff cynigion datblygu eu gwneud ar safleoedd archaeolegol-sensitif, megis drwy amodau cynllunio a pholisïau priodol a geir yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn ein barn ni mae'r adnoddau hyn yn addas i gynnig lefel bwrpasol o waith ymchwilio a chofnodi.<br><br>Ystyrir hyn fel rhan o unrhyw broses i gyfuno prif Ddeddfau'r amgylchedd hanesyddol yn y dyfodol. |

## Pennod 14 - Hysbysebion awyr agored

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 14-1 | Argymhellwn y dylid gwneud y diffiniad o "hysbyseb" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn fwy eglur a'i gynnwys yn y Bil ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai un diffiniad o "hysbyseb" gael ei gynnwys yn y Bil cydgrynhoi ynghyd â'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysebu. Hefyd, cytunir y dylai'r diffiniad gael ei wneud yn eglur er mwyn creu un diffiniad sy'n osgoi cylchogrwydd cymaint â phosibl, ac sy'n cynnwys hanfod y diffiniad a geir ar hyn o bryd yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r mân welliannau a geir ar hyn o bryd yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. |
| 14-2 | Argymhellwn y dylid hepgor y cyfeiriad at arddangos hysbysebion sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y diffiniad statudol o "hysbyseb" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'r cyfeiriad at y term "arddangos" yn y diffiniad statudol presennol o "hysbyseb" yn ddefnyddiol ac y dylid ei hepgor o'r diffiniad i'w gynnwys yn y Bil cydgrynhoi. |
| 14-3 | Argymhellwn y dylai'r gair "safle" gael ei ddefnyddio yn lle "tir":<br>1) yn narpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â rheoli hysbysebion;<br>2) yn y Rheoliadau pan gânt eu diweddaru nesaf;<br><br>y dylai'r Bil a'r Rheoliadau, lle y bo'n briodol, gael eu drafftio drwy gyfeirio at hysbysebion yn cael eu harddangos "ar neu wrth dir". | Derbyn | Deallwn mai argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yw defnyddio'r gair "safle" yn lle "tir" ac y dylai'r Bil a'r Rheoliadau, lle y bo'n briodol, gael eu drafftio drwy gyfeirio at hysbysebion yn cael eu harddangos "ar neu wrth dir". Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y newid hwn yn debygol o wneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur heb newid yr effaith a gwneud y ddarpariaeth yn llai cymhleth. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil a'r Rheoliadau gael ei ystyried yn ofalus yng nghyd-destun pob darpariaeth ac yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth gyfan. |
| 14-4 | Argymhellwn y dylai diffiniad o "person displaying an advertisement" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei gynnwys yn y Bil ochr yn ochr â darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu, i gynnwys:<br>1) perchennog a deiliad y tir y mae'r hysbyseb yn cael ei harddangos arno;<br>2) unrhyw berson y mae'r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w nwyddau, ei fasnach, ei fusnes neu ei faterion eraill;<br>3) y person sy'n ymgymryd ag arddangos yr hysbyseb neu sy'n sicrhau eu bod yn parhau i gael eu harddangos. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r un diffiniad gael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau eglurder. Gall y diffiniad yn rheoliad 2(3) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 fod yn sail i hyn. Fodd bynnag, bydd ei union eiriad yn cael ei ystyried wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |
| 14-5 | Argymhellwn y dylai hysbysiad dirwyn i ben o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion:<br>1) cynnwys hysbysiad ynglŷn â hawliau unrhyw dderbynnydd i apelio yn ei erbyn;<br>2) dod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodedig o'r dyddiad cyflwyno);<br>3) cael ei gyhoeddi (yn hytrach na'i gyflwyno fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), gyda chopi yn cael ei gyflwyno i bawb y tybir eu bod yn arddangos yr hysbyseb dan sylw. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad ynghylch hysbysiadau dirwyn i ben. Bydd y diwygiad arfaethedig yn cysoni'r gweithdrefnau rhwng hysbysiadau dirwyn i ben a hysbysiadau gorfodi, a fydd yn helpu i roi mwy o eglurder a sicrwydd i bawb dan sylw. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Rheoliadau gael ei ystyried pan gaiff y Rheoliadau eu hadolygu a'u diweddaru nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14-6 | Argymhellwn y dylai adran 220(2), (2A) a (3) gael ei disodli gan ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud sy'n darparu ar gyfer:<br>1) mesuriadau, golwg a lleoliad hysbysebion y gellir eu harddangos, a'r ffordd y dylid eu cysylltu â'r tir;<br>2) gwahardd arddangos hysbysebion neu ddefnyddio tir i arddangos hysbysebion heb ganiatâd tybiedig neu ganiatâd penodol;<br>3) dirwyn caniatâd tybiedig i ben;<br>4) gwneud penderfyniadau am ganiatâd penodol a phenderfynu arnynt, a diddymu neu addasu caniatâd;<br>5) apeliadau yn erbyn hysbysiadau dirwyn i ben a phenderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd penodol;<br>6) ardaloedd lle mae hysbysebu yn ddarostyngedig i reolaethau arbennig;<br>7) darpariaethau canlyniadol ac atodol. | Derbyn mewn egwyddor | Mae adran 220(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyfyngu ar arddangos hysbysebion neu reoleiddio hynny i'r graddau y mae hynny'n hwylus yn eu barn nhw er budd amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd. Mae adrannau 220(2), (2A) a (3) yn darparu rhagor o fanylion am yr hyn a all gael ei gynnwys mewn rheoliadau o'r fath ond nid ydynt yn cyfyngu ar y pŵer yn adran 220(1). Felly, ym marn Llywodraeth Cymru gall Gweinidogion Cymru eisoes wneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer y materion a restrir yn yr argymhellion.<br><br>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai ailddatgan adrannau 220(2), (2A) a (3) ddisgrifio'r math o ddarpariaethau a all gael eu cynnwys mewn rheoliadau yn hytrach na rhoi pŵer i gymhwyso adrannau o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ag addasiadau. |
| 14-7 | Argymhellwn y dylid rhoi caniatâd tybiedig o dan y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion ar gyfer arddangos hysbysebion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. | Derbyn | Mae cydsyniad ar gyfer hysbysebion yn un o blith nifer o gydsyniadau statudol (sydd weithiau'n gorgyffwrdd) y mae angen eu cael yn aml ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio neu ar ei ôl. Mewn rhaglen waith yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cyfuno er mwyn symud tuag at fodel mwy integredig a syml. Bydd hyn yn cynnwys y cysylltiadau rhwng caniatâd cynllunio a chydsyniad ar gyfer hysbysebion.<br><br>Er gwaethaf yr adolygiad yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod buddiannau ymestyn caniatâd tybiedig o dan y Rheoliadau Hysbysebu i gynnwys lle rhoddwyd caniatâd cynllunio (fel yr argymhellir). Byddai hyn yn symleiddio'r system drwy ddileu'r gorgyffwrdd rhwng dwy gyfundrefn gydsynio, a dileu'r angen i gyflwyno dau fath gwahanol o gydsyniad a fydd yn lleihau costau i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio (ACau). |
| 14-8 | Argymhellwn y dylid cynnwys arddangos hysbysebion ar gerbydau statudol ac ôl-gerbydau o fewn rheolaeth gan y Rheoliadau sy'n cael eu diwygio er mwyn darparu:<br>1) nad oes angen cael caniatâd (penodol na thybiedig) i arddangos hysbyseb<br>o y tu mewn i gerbyd, nac<br>o ar y tu allan i gerbyd ar briffordd gyhoeddus, heblaw un nad yw'n symud am fwy nag 21 diwrnod;<br>2) y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbyseb ar y tu allan i gerbyd nad yw ar briffordd, ar yr amod bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel arfer fel cerbyd symudol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio yn bennaf i arddangos hysbysebion. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith y dylai arddangos hysbysebion ar gerbydau nad ydynt yn symud ac ôl-gerbydau ddod o dan reolaeth y system gynllunio. Drwy reoli'r math hwn o hysbysebu yn y ffordd a awgrymir gellir gwneud y gyfraith yn fwy eglur er mwyn helpu ACau i gymryd camau gorfodi effeithiol pan fydd achosion o'r fath yn digwydd.<br><br>Rhoddir ystyriaeth fanwl i'r gwelliannau sydd eu hangen i'r Rheoliadau Hysbysebu er mwyn cyflwyno'r rheolaeth hon pan gaiff y Rheoliadau eu hadolygu a'u diweddaru nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14-9 | Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:<br>1) cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau ynglŷn â hysbysebion i'w gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas ag arddangos hysbysebion;<br>2) cynnwys darpariaeth alluogi briodol yn y Bil, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd yn Argymhelliad 14-6. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cyflwyno system yn debyg i'r rhai sy'n llywodraethu ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb datblygu er mwyn darparu penderfyniad cyfrwymol ynghylch cyfreithlondeb hysbyseb bresennol neu arfaethedig. Er y bydd y broses hon yn un newydd o fewn y system, cytunwn â Chomisiwn y Gyfraith ei bod yn bwysig ei chyflwyno er mwyn cynnig eglurder i bawb sydd am wybod p'un a oes angen cael caniatâd ai peidio, yn enwedig pan fo canlyniadau arddangos hysbysebion heb awdurdod yn ddifrifol, oherwydd mae'n drosedd gwneud hynny. |
| 14-10 | Argymhellwn y dylid diwygio Dosbarth 13 yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992 er mwyn darparu y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion ar neu wrth dir sydd wedi cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw ers 10 mlynedd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â diwygio'r Rheoliadau er mwyn darparu y rhoddir caniatâd tybiedig i arddangos hysbysebion ar safle a ddefnyddiwyd at y diben hwnnw am 10 mlynedd o leiaf, yn hytrach na defnyddio dyddiad penodedig. Wrth i amser fynd yn ei flaen, byddai dyddiad penodedig (1 Ebrill 1974 ar hyn o bryd) yn llai ac yn llai perthnasol, yn syml oherwydd treigl amser. Mae cyflwyno cyfnod treigl o 10 mlynedd yn gyson ag amserlenni gorfodi eraill.<br><br>Caiff y gwelliant deddfwriaethol hwn ei ystyried pan gaiff y Rheoliadau eu hadolygu a'u diweddaru nesaf. |
| 14-11 | Argymhellwn na ddylid ailddatgan y pŵer (a geir yn adran 224(1) (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) i Weinidogion Cymru gynnwys yn y Rheoliadau ddarpariaethau tebyg i'r rhai sy'n rheoli hysbysiadau gorfodi yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylid ailddatgan y pŵer a geir yn adran 224(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd yn y Bil am y rhesymau a nodir yn y papur ymgynghori a'r adroddiad terfynol, a gefnogir gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd.<br><br>Fel mater ar wahân, nodwn y sylwadau a wnaed gan rai ymatebwyr ynghylch pwerau gorfodi amgen posibl o ran hysbysebion anawdurdodedig. Bydd angen i unrhyw ddarpariaethau newydd sy'n gysylltiedig â gorfodi gael eu hystyried fel rhan o Fil diwygio yn y dyfodol, megis y rhai a amlinellir yn Argymhelliad 14-12. |
| 14-12 | Argymhellwn y dylai'r pwerau a geir yn adran 43 o Ddeddf Dyfed 1987 ar hyn o bryd (tynnu hysbysebion heb awdurdod eraill) gael eu disodli gan weithdrefn newydd, sy'n gymwys i bob rhan o Gymru, ac sy'n caniatáu i unrhyw hysbyseb heb awdurdod heblaw poster neu hysbyslen, gael ei thynnu, ar yr amod:<br>1) na chaiff unrhyw hysbyseb ei thynnu na'i dileu heb roi 21 diwrnod o rybudd yn gyntaf i'r rhai sy'n gyfrifol;<br>2) bod hawl i apelio ar gael i dderbynwyr hysbysiad o'r fath a pherchenogion a deiliaid safle'r hysbyseb dramgwyddus – ar seiliau sy'n ymwneud â chyfreithlondeb yr hysbyseb, cyflwyno'r hysbysiad a'r cyfnod ar gyfer ei thynnu;<br>3) bod iawndal yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio am ddifrod a achoswyd i dir neu eiddo drwy dynnu'r hysbyseb (heblaw difrod i'r hysbyseb ei hun); a<br>4) y rhoddir diogelwch i ymgymerwyr statudol sy'n debyg i'r diogelwch a roddir iddynt gan adran 225K o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â chyflwyno gweithdrefn newydd yng Nghymru, sy'n caniatáu i unrhyw hysbyseb heb awdurdod gael ei thynnu, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr adroddiad terfynol. Drwy gyflwyno gweithdrefn newydd caiff pwerau ACau eu gwella ledled Cymru o ran hysbysebion heb awdurdod. Rydym hefyd yn cytuno y dylai adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei chadw er mwyn caniatáu i bosteri a hysbyslenni heb awdurdod gael eu tynnu neu eu dileu'n gyflym. |
| 14-13 | Argymhellwn y dylid cynyddu'r ddedfryd fwyaf yn dilyn collfarn am arddangos hysbysebion heb awdurdod ar y dyddiad y deddfwyd y Bil neu ar ôl hynny i ddirwy ddiderfyn. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â chynyddu'r ddedfryd fwyaf am arddangos hysbysebion heb awdurdod i ddirwy ddiderfyn. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â dulliau gorfodi eraill, wrth ddarparu mwy o rwystr hefyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14-14 | Argymhellwn y dylid nodi'n glir ar wyneb y Bil, yn hytrach nag yn y Rheoliadau (fel ar hyn o bryd), y dylai'r holl bwerau statudol sy'n ymwneud â hysbysebu gael eu harfer er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â nodi'n glir ar wyneb y Bil, yn hytrach nag mewn rheoliadau (fel ar hyn o bryd), y dylai'r holl bwerau statudol sy'n ymwneud â hysbysebu gael eu harfer er mwyn amwynder a diogelwch y cyhoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng pob swyddogaeth berthnasol sy'n ymwneud â hysbysebu. Bydd yr union eiriad i'w ddefnyddio yn cael ei ystyried wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi. |
| 14-15 | Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â phwyllgorau cynghori a thribiwnlysoedd) yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith fod y darpariaethau yn adran 220 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â phwyllgorau cynghori a thribiwnlysoedd yn penderfynu ar apeliadau yn lle Gweinidogion Cymru yn ofer ac na ddylid eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi. |
| 14-16 | Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau yn adran 221(1)(b), (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud ag ardaloedd arbrofol yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith fod adran 221(1)(b) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chaniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion mewn "ardaloedd arbrofol" yn ofer ac na ddylid ei gynnwys yn y Bil cydgrynhoi. |
| 14-17 | Argymhellwn na ddylid cynnwys adran 223 o Ddeddf Cynllunio Gwlad 1990, sy'n darparu ar gyfer talu iawndal mewn perthynas â chostau tynnu hysbysebion ar safleoedd a oedd yn cael eu defnyddio i hysbysebu yn 1948, yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod adran 223 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ofer ac na ddylai gael ei chynnwys yn y Bil cydgrynhoi. Cytunwn mai dim ond er mwyn diogelu tirfeddianwyr a oedd yn arddangos hysbysebion ar adeg cyflwyno'r system reoli bresennol y sefydlwyd yr hawl i gael iawndal. Gyda'r system wedi bodoli ers dros 70 mlynedd, cefnogwn farn y Comisiwn nad oes angen cymryd y camau diogelu hyn mwyach. |

## Pennod 15 - Coed a choetiroedd gwarchodedig

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 15-1 | Argymhellwn na ddylai'r Bil Cynllunio geisio diffinio "coeden" na "choetir", yng nghyd-destun gorchmynion diogelu coed. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na fyddai'n fuddiol diffinio ystyr 'coeden' na 'choetir' mewn deddfwriaeth sylfaenol. Gallai gwneud hynny olygu na nodir coed penodol oherwydd yr holl fathau gwahanol o rywogaethau, yn ogystal â chyfyngu ar gwmpas yr hyn a allai fod yn gyfystyr â 'choetir'. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a ellir cyflwyno diffiniad eang o'r hyn sy'n gyfystyr â 'choeden' neu 'goetir' mewn canllawiau yn y dyfodol. Byddai unrhyw ganllawiau yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir pan gaiff Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 eu hadolygu a'u diweddaru nesaf, neu pan wneir rheoliadau newydd. |
| 5-2 | Argymhellwn y dylai'r Bil ddarparu<br>1) y dylai swyddogaethau o dan y Cod sy'n ymwneud â diogelu coed gael eu harfer er mwyn amwynder;<br>2) bod amwynder at y diben hwnnw yn cynnwys golwg, oedran, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol;<br>3) y gall rheoliadau diogelu coed ragnodi materion yr ystyrir eu bod yn berthnasol i amwynder. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor bod yn rhaid i swyddogaethau o dan y Cod sy'n ymwneud â diogelu coed gael eu harfer er mwyn amwynder, oherwydd ystyriwn y bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb rhwng yr holl swyddogaethau perthnasol. Bydd angen i'r gwaith manwl o nodi'r swyddogaethau y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys iddynt a'r union eiriad i'w ddefnyddio gael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r Bil.<br><br>Hefyd, cytunwn fod ystyr 'amwynder' wedi newid dros y blynyddoedd a'i fod bellach yn golygu mwy nag amwynder gweledol. Felly, cytunwn y dylai ystyr 'amwynder' gael ei egluro mewn deddfwriaeth. Ystyrir y ffordd orau o gyflawni'r amcan hwn, naill ai drwy gynnwys darpariaethau yn y Bil, neu drwy ddarparu pŵer i wneud darpariaethau mewn rheoliadau. Bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir yn y Bil neu'r rheoliadau gael ei ystyried ar y cam drafftio. |
| 15-3 | Argymhellwn y dylai'r Bil ddarparu:<br>1) y gellir gwneud gorchmynion diogelu coed yn y dyfodol er mwyn diogelu coed unigol, grwpiau o goed neu ardaloedd o goed;<br>2) mai dim ond y coed hynny a oedd yn bodoli pan wnaed y gorchymyn a warchodir gan orchymyn grŵp neu ardal;<br>3) bod gorchymyn ardal newydd ond yn diogelu coed nes iddo gael ei gadarnhau, pan fydd yn rhaid ei droi'n orchymyn sy'n nodi'r coed sydd i'w diogelu naill ai'n unigol neu fel grŵp;<br>4) y gellir gwneud gorchmynion diogelu coetir yn y dyfodol er mwyn diogelu coetiroedd;<br>5) y gall gorchymyn diogelu coetir ddiogelu pob coeden, waeth beth fo'i hoedran a'i rhywogaeth, yn y coetir a nodwyd, p'un a oedd yn bodoli ar ddyddiad y gorchymyn ai peidio;<br>ac y dylid drafftio'r rheoliadau newydd yn unol â hynny. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ychwanegu cyfeiriad at orchymyn diogelu coed sy'n diogelu ardaloedd o goed a chyflwyno'r cysyniad o orchymyn diogelu coetir yn y Bil. Ni fydd hyn yn newid y gyfraith ond bydd yn ychwanegu eglurder. At hynny, bydd nodi'n glir pa goed a ddiogelir gan orchymyn ardal a gorchymyn diogelu coetir yn cynorthwyo awdurdodau cynllunio wrth iddynt ystyried y math priodol o orchymyn diogelu i'w ddefnyddio.<br><br>Hefyd, cytunwn â barn llawer o'r ymatebwyr a wnaeth wrthwynebu'r cynnig gwreiddiol i ddiddymu gorchmynion ardal ar ôl pum mlynedd. Cytunwn y byddai'r broses monitro ac adolygu y byddai ei hangen i ddeddfu hyn yn gosod baich diangen ar adnoddau awdurdodau cynllunio. Cytunwn â'r awgrym mai canllawiau yw'r dull mwyaf priodol o bwysleisio dymunoldeb troi gorchmynion ardal presennol yn orchmynion unigol, grŵp neu goetir yn raddol, er mwyn eu dileu yn y dyfodol. Caiff y diwygiad i ganllawiau ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau i'r rheoliadau, neu pan wneir rheoliadau newydd. Fodd bynnag, cytunwn mai dim ond hyd nes y'i cadarnheir y dylai gorchymyn ardal newydd ddarparu diogelwch, ac ar yr adeg honno dylai gael ei droi'n orchymyn unigol, grŵp neu goetir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15-4 | Argymhellwn y dylai rheoliadau newydd ynglŷn â choed ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a meddianwyr unrhyw barsel o dir y lleolir unrhyw ran o'r coed arno, ynddo neu uwch ei ben, gael eu hysbysu am orchymyn diogelu coed. | Derbyn | Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig bod pawb y mae gorchymyn diogelu coed yn debygol o effeithio arnynt yn cael eu hysbysu'n brydlon ac yn briodol er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd rhywun yn cyflawni trosedd yn anfwriadol. Serch hynny, cytunwn â barn Comisiwn y Gyfraith bod y gofyniad hysbysu presennol i gynnwys tir cyfagos yn ddiangen ac y dylid ei ddiwygio. Nodwn bryder Comisiwn y Gyfraith ynghylch y dull a fabwysiedir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diogelu Coed) (Lloegr) 2012 a'i gymhwyso lle mae coeden yn agos at ffin. Caiff yr union eiriad ei ystyried pan gaiff y rheoliadau eu hadolygu a'u diweddaru nesaf neu pan wneir rheoliadau newydd. |
| 15-5 | Argymhellwn na ddylid cynnwys gwaith ar goed o fewn cwmpas datblygiad y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer. | Tystiolaeth ategol i'w hystyried ymhellach | Er bod caniatâd cynllunio yn gydsyniad allweddol i alluogi gwaith datblygu i fynd rhagddo, mae cydsyniad ar gyfer gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu yn un o blith nifer o gydsyniadau statudol eraill (sy'n gorgyffwrdd weithiau) y mae angen ei gael ar y cyd â chaniatâd cynllunio neu ar ei ôl. Gall hyn fod yn hynod ddryslyd ac mae'n creu ansicrwydd i ymgeiswyr a chymunedau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol, mewn rhaglen waith yn y dyfodol, er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml. Nodwn farn ac argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch y cydsyniad i waith ar goed sydd wedi'u diogelu, a fydd yn llywio'r adolygiad ehangach hwn yn y dyfodol. |
| 15-6 | Argymhellwn y dylid tynhau'r eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith ar "trees that are dying or dead or have become dangerous" (a geir yn adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) pan gaiff y rheoliadau coed eu diweddaru nesaf. Argymhellwn na ddylai'r eithriad ond cynnwys torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau y mae angen gwneud y cyfryw waith ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol (neu i'r cyfryw raddau eraill ag y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid tynhau'r eithriad o ran yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â choed sy'n marw neu sydd wedi marw. Mae'r cyfeiriadau presennol hyn yn adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn amwys ac yn agored i'w dehongli, a gallant arwain at waith ar goeden sydd wedi'i diogelu nad oes ei angen.<br><br>Bydd y diwygiad arfaethedig i ddarparu y dylai'r eithriad ond cynnwys torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden y mae angen ei wneud ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol yn arwain at fwy o eglurder a sicrwydd i bawb dan sylw wrth benderfynu a oes angen gwneud gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu.<br><br>Caiff yr union eiriad ei ystyried wrth ddrafftio'r rheoliadau newydd. |
| 15-7 | Argymhellwn na ddylid ailddatgan yr eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith "[that is] necessary to prevent or abate a nuisance" (a geir yn adran 198(6)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) yn y Bil nac mewn rheoliadau newydd ynglŷn â choed. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw union ystyr yr ymadrodd "abatement of a nuisance" yn sicr ac y gall arwain at ddull anghyson o wneud gwaith ar goed sydd wedi'u diogelu. Drwy beidio ag ailddatgan yr eithriad yn y Bil cydgrynhoi na rheoliadau newydd, ceir eglurder a chydbwysedd, gan alluogi'r awdurdod cynllunio i ystyried unrhyw niwsans honedig yn erbyn unrhyw effaith ar amwynder a fyddai'n deillio o'r gwaith unioni arfaethedig. Ystyriwn fod manteision sicrwydd yn drech na'r posibilrwydd o weld mwy o geisiadau yn cael eu cyflwyno i'r system. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15-8 | Argymhellwn, pan gaiff y rheoliadau eu diweddaru nesaf, y dylid ystyried cyflwyno eithriad newydd i ganiatáu i waith gael ei wneud heb ganiatâd ar goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coetir sy'n llai na maint penodol, ond dim ond pan gaiff ei wneud yn unswydd er mwyn gwella tyfiant coed eraill. | Gwrthod | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â chyflwyno'r eithriad arfaethedig, am fod gennym nifer o bryderon a rennir â llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Cytunwn y byddai'r argymhelliad yn tanseilio diben gorchmynion diogelu coetir, sef darparu digon o ddiogelwch er mwyn sicrhau parhad hirdymor y coetir drwy naill ai sefydlu coed newydd yn naturiol neu blannu rhai newydd. Gallai caniatáu i waith gael ei wneud heb ganiatâd ar goed a warchodir gan orchymyn diogelu coetir sy'n llai na maint penodol at ddibenion gwella tyfiant coed eraill danseilio diben gorchymyn o'r fath. Gallai eithriad o'r fath hefyd gael effaith niweidiol ar ecoleg y coetir gan fod coed ifanc a'r prysgwydd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a chreu bioamrywiaeth a chynefinoedd amrywiol.<br><br>Felly, credwn y dylid parhau i gael caniatâd er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoli coetiroedd sydd wedi'u gwarchod yn cael ei wneud yn unol ag arferion gorau er mwyn eu diogelu yn eu cyfanrwydd. Pan fydd gorchymyn o'r fath yn gymwys, disgwyliwn i dirfeddianwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac i geisio caniatâd priodol lle mae angen. |
| 15-9 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau coed (ynghyd â darpariaeth alluogi briodol yn y Bil) er mwyn ei gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas â gwaith arfaethedig ar goeden neu goetir. | Gwrthod | Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod y materion a godir gan y cynnig hwn yn debyg i'r rhai a godir gan Argymhelliad 14-9 yn ymwneud â'r angen am gydsyniad i arddangos hysbysebion, yn yr achos hwn, nid ydym yn cytuno y dylai rhywbeth yn debyg i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei gyflwyno ar gyfer gorchmynion diogelu coed.<br><br>Nid ystyriwn y byddai hyn yn ychwanegu unrhyw werth gwirioneddol oherwydd gall y weithdrefn bresennol ar gyfer ceisio cydsyniad o dan gorchymyn diogelu coed gael ei defnyddio yn yr un modd heb fod angen adnoddau ychwanegol nac ardystiad.<br><br>At hynny, mae pryder ynghylch aseinio rhywbeth tebyg i dystysgrif cyfreithlondeb i goeden fyw a fydd yn tyfu ac yn newid dros amser. Byddai angen i unrhyw dystysgrif a roddwyd fod yn gymwys am gyfnod penodol a chael ei hadnewyddu'n rheolaidd wrth i'r goeden neu'r coed newid. Felly, byddai'r broses ond yn darparu sicrwydd dros dro i ymgeiswyr, yn wahanol i'r broses bresennol ar gyfer tystysgrifau defnydd cyfreithlon a datblygu tir a chyflwyniad arfaethedig tystysgrifau ar gyfer arddangos hysbysebion (fel y cynigir yn Argymhelliad 14.9), y gellir eu cyflwyno'n barhaol yn y ddau achos.<br><br>Fodd bynnag, byddwn yn parhau i werthuso'r sefyllfa, yn enwedig yn sgil gweithredu tystysgrifau cydymffurfio o ran Rheoliadau Rheoli Hysbysebion (gweler Argymhelliad 14-9). |
| 15-10 | Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gydnabod ceisiadau am ganiatâd o dan y rheoliadau coed. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â chyflwyno gofyniad i awdurdodau cynllunio gydnabod derbyn cais am ganiatâd o dan y rheoliadau coed er mwyn iddynt fod yn unol â mathau eraill o geisiadau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Er bod hyn yn arfer dda ar hyn o bryd, ystyriwn y byddai'n fuddiol cynnwys y gofyniad mewn deddfwriaeth. Caiff y diwygiad deddfwriaethol hwn ei ystyried pan gaiff y rheoliadau eu hadolygu a'u diweddaru nesaf neu pan wneir rheoliadau newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15-11 | Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:<br>1) cyfyngu'r gofyniad i blannu coeden gyfnewid, ar ôl i goeden beryglus gael ei chwympo neu yn dilyn gwaith heb awdurdod, i blannu coeden o rywogaeth briodol yn neu wrth ymyl lleoliad y goeden flaenorol (yn hytrach nag yn yr union leoliad fel mae ar hyn o bryd);<br>2) nodi'r gofyniad i blannu coed yn lle coed mewn coetir sydd wedi cael eu colli drwy gyfeirio at naill ai'r un nifer o goed neu'r un arwynebedd o goetir. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid diwygio'r geiriad mewn deddfwriaeth er mwyn caniatáu i goed cyfnewid gael eu plannu 'yn neu wrth ymyl' lleoliad y goeden flaenorol. Cytunwn fod rhesymau ymarferol, mewn rhai achosion, yn atal ailblannu "yn union leoliad" y goeden neu'r coed blaenorol. Fodd bynnag, dymunwn ystyried a ddylai'r awdurdod cynllunio ganiatáu'r lleoliad arfaethedig os nad yw yn union leoliad y goeden flaenorol. Caiff yr union eiriad i'w ddefnyddio yn y Bil ei ystyried yn ofalus pan fydd hyn wedi'i ddatrys.<br><br>Rydym hefyd yn cytuno y dylid nodi'r gofyniad i blannu coed yn lle coed mewn coetir sydd wedi cael eu colli drwy gyfeirio at naill ai'r un nifer o goed neu'r un arwynebedd o goetir ar ddwysedd y cytunir arno er mwyn adlewyrchu penderfyniad y Llys Apêl yn Distinctive Properties (Ascot) v Secretary of State. |
| 15-12 | Argymhellwn y dylid cyflwyno pŵer penodol sy'n galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu lacio hysbysiad cyfnewid. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n fuddiol cyflwyno darpariaeth mewn deddfwriaeth sy'n galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu lacio hysbysiad cyfnewid coed. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu disgresiwn drwy bŵer penodol wrth benderfynu ar y camau priodol i'w cymryd yn dilyn methiant i ailblannu'r coed. |
| 15-13 | Argymhellwn y dylid cynnwys pwerau sy'n galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau y mae wedi mynd iddynt wrth wneud a gorfodi hysbysiad cyfnewid coed pan gaiff y rheoliadau eu diweddaru nesaf. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylid gallu cofrestru costau y mae awdurdod cynllunio wedi mynd iddynt fel arwystl ar y tir. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau cynllunio i adennill eu costau wrth orfodi hysbysiadau cyfnewid coed oddi wrth brynwyr dilynol. Bydd y gallu i adennill y costau hyn yn helpu awdurdodau cynllunio i fynd ati'n rhagweithiol i orfodi hysbysiadau cyfnewid coed.<br><br>Ystyrir y ffordd orau o gyflawni'r amcan hwn, a hynny drwy naill ai arfer y pŵer yn adran 209(5) i ddiwygio'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cyffredinol) 1992), neu drwy wneud darpariaeth benodol yn y Bil y gall y costau gael eu cofrestru fel arwystlau tir.<br><br>Rydym hefyd yn cydnabod sylwadau a wnaed gan awdurdod cynllunio wrth ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch cyflwyno pwerau cyfatebol i gwmpasu materion gorfodi cynllunio yn fwy cyffredinol. Byddwn yn ystyried y mater hwn fel rhan o adolygiad ehangach rydym wedi ymrwymo i'w gynnal ar sefydlu'r broses o adennill costau wrth ddarparu'r gwasanaeth rheoli datblygu, a fydd yn cynnwys gorfodi. Bydd y ffrwd waith yn darparu'r dystiolaeth i lywio newid deddfwriaethol yn y dyfodol lle y bo angen. |
| 15-14 | Argymhellwn y dylid ymestyn cwmpas y materion a waherddir gan orchymyn diogelu coed i gynnwys achosi niwed i goeden:<br>1) yn fwriadol; neu<br>2) yn ddi-hid. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith y dylid defnyddio'r ymadrodd "niwed bwriadol neu ddi-hid" er mwyn darparu mwy o eglurder. |
| 15-15 | Argymhellwn y dylai'r ddwy drosedd a geir yn adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â gwaith a allai arwain at golli'r goeden (is-adran (1)) a gwaith arall (isadran (4)) gael eu disodli gan un drosedd, a all arwain at dreial yn dilyn collfarn ddiannod neu gollfarn ar dditiad, am dorri rheoliadau diogelu coed, y gellir ei chosbi, ar ôl dyfarnu person yn unig, â dirwy o unrhyw swm. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai darparu ar gyfer trosedd gyfun o fethu â chydymffurfio â rheoliadau diogelu coed yn gwella'r sefyllfa bresennol. Dylai'r drosedd honno arwain at dreial naill ffordd, a dylai person a ddyfernir yn euog o'r drosedd gael dirwy a bennir gan y llys (heb uchafswm statudol).<br><br>Bydd trosedd gyfun gyda'r llys yn pennu swm unrhyw ddirwy yn unol â ffeithiau'r achos a difrifoldeb y niwed a achoswyd yn osgoi'r problemau posibl a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith.<br><br>O ystyried y gallai'r newid hwn arwain at wrando mwy o achosion yn Llys y Goron (h.y. gallai rhai o'r mân droseddau a brofir ar hyn o bryd yn y llys ynadon o dan adran 210(4) gael eu profi yn Llys y Goron yn lle hynny), bydd angen inni sefydlu ac ystyried yn fanwl unrhyw gostau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ychwanegol a fyddai'n codi. Fel y tanlinellwyd yn ein hymateb i Argymhellion 12-24 a 12-25, caiff hyn ei ystyried a'i bwyso a'i fesur yn erbyn y buddiannau sydd wedi'u nodi gan Gomisiwn y Gyfraith fel rhan o'r Asesiad Effaith Barnwrol y byddwn yn ei gynnal i gyd-fynd â Bil yn y dyfodol. |
| 15-16 | Argymhellwn y dylai’r drosedd o dan adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (sef torri rheoliadau diogelu coed) a’r rheoliadau a wnaed ) ac o dan reoliadau a wnaed yn unol â’r ddarpariaeth sy’n ailddatgan adran 202A (sef gwahardd gwaith ar goeden sy’n destun gorchymyn diogelu) gael ei llunio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i’r erlyniaeth brofi:<br>1) bod copi o’r gorchymyn wedi’i gyflwyno yn unol â’r gofynion statudol perthnasol cyn i’r gwaith hwnnw ddechrau; neu<br>2) bod copi o’r gorchymyn ar gael i’w archwilio gan y cyhoedd ar adeg y gwaith.<br><br>Argymhellwn hefyd y dylai’r rheoliadau gynnwys, ochr yn ochr â’r gofyniad i sicrhau bod y gorchymyn ar gael i’w archwilio, ofyniad pellach i gofnodi ar y gorchymyn y dyddiad cyntaf yr oedd ar gael i’w archwilio. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn. Mae'r materion a godwyd yn debyg i'r rhai a godwyd gan Argymhelliad 12-21 yn ymwneud â throseddau lle na chydymffurfiwyd â hysbysiad gorfodi.<br><br>Noda Llywodraeth Cymru fod y cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori wedi cael ei ddiwygio yn sgil sylwadau ymatebwyr<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y gall problemau posibl godi wrth gychwyn/amddiffyn erlyniad am waith heb ei awdurdodi ar goeden neu goetir wedi'i ddiogelu os na chyflwynwyd copi o'r gorchymyn diogelu coed i'r rhai sydd angen gwybod amdano, neu os na ddarparwyd un at ddibenion archwilio. Nodwn hefyd y materion a godwyd gan ymatebwyr.<br><br>Cytunwn, mewn egwyddor, â mynd i'r afael â'r materion hyn ond rydym am sicrhau, cymaint â phosibl, fod cysondeb rhwng darpariaethau tebyg (megis troseddau torri hysbysiad stop dros dro, hysbysiad stop a hysbysiad gorfodi). Felly, bydd angen i'r dull a fabwysiedir gael ei ystyried yn ofalus ar y cam drafftio.<br><br>Hefyd, cytunwn gynnwys yn y rheoliadau pan fyddant yn cael eu hadolygu a'u diweddaru nesaf neu pan wneir rheoliadau newydd ofyniad i gofnodi ar Orchymyn Diogelu Coed y dyddiad roedd ar gael gyntaf er mwyn darparu eglurder a sicrhau bod awdurdod cynllunio yn gallu darparu tystiolaeth bod copi o'r gorchymyn ar gael i'r cyhoedd ei archwilio ar adeg y gwaith. Bydd yr union eiriad i'w ddefnyddio yn cael ei ystyried yn ofalus wrth ddrafftio'r ddarpariaeth. |
| 15-17 | Argymhellwn y dylai’r ddarpariaeth sy’n ailddatgan adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 roi pŵer i awdurdod sydd wedi cael ei hysbysu am waith ar goeden mewn ardal gadwraeth, i wneud y canlynol:<br>1) caniatáu i’r gwaith fynd yn ei flaen, heb unrhyw amodau heblaw terfyn amser o ddwy flynedd;<br>2) caniatáu i’r goeden gael ei chwympo, ar yr amod y caiff coeden gyfnewid ei phlannu;<br>3) gosod gorchymyn diogelu coed a chaniatáu gwaith ar y goeden heblaw ei chwympo, yn ddarostyngedig, o bosibl, i amodau; neu<br>4) gosod gorchymyn diogelu coed a gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith. | 15-17(1) – Derbyn<br><br>15-17(2), (3) a (4) – Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylai awdurdod cynllunio gael y pŵer i ganiatáu i'r gwaith fynd yn ei flaen heb unrhyw amodau heblaw terfyn amser o ddwy flynedd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno mewn egwyddor ag elfennau eraill argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, yn arbennig, geisio dileu'r broses dau gam sydd wedi'i nodi gan Gomisiwn y Gyfraith.<br><br>Fodd bynnag, bydd angen ystyried a ellir cyflawni'r amcan hwn, a'r ffordd orau o wneud hynny. Mae angen inni sicrhau bod unrhyw newidiadau yn arwain at weithdrefn syml. |

## Pennod 16 - Gwella, adfywio ac adnewyddu

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 16-1 | Argymhellwn y dylid ailddatgan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn nodi'n glir y gellir cyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i dir gael ei gynnal yn briodol os yw cyflwr y tir:<br>1) yn amharu ar amwynder rhan o ardal yr awdurdod neu ardal awdurdod cyfagos;<br>2) nad yw'n deillio, fel arfer, o gynnal gweithrediadau parhaus yn gyfreithlon ar y tir hwnnw nac o ddefnydd parhaus o'r tir hwnnw sy'n gyfreithlon;<br>3) nad yw i'w briodoli i wastraff a reolir na gwastraff echdynnol a ddyddodwyd yn anghyfreithlon yn groes i adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. | 16-1(1) – Derbyn<br><br>16-1(2) – Derbyn<br><br>16-1(3) – Gwrthod | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod nodi'r seiliau lle gellir cyflwyno hysbysiad adran 215 drwy gynnwys amodau (1) a (2) wrth ailddatgan adran 215 yn darparu mwy o eglurder na'r sefyllfa bresennol lle caiff rhai o'r seiliau eu nodi yn adran 217.<br><br>Cytunwn y dylai Awdurdod Cynllunio (AC) gynnal archwiliad cyn cyhoeddi hysbysiad adran 215 er mwyn sicrhau bod y tir dan sylw mewn cyflwr gwael, nad yw'n deillio, fel arfer, o gynnal gweithrediadau cyfreithlon nac o ddefnydd cyfreithlon h.y. gweithrediadau/defnydd nad ydynt yn torri Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990). Byddai'r newid arfaethedig hwn yn darparu eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle gellir cyhoeddi hysbysiad a gall atal cyhoeddi hysbysiad adran 215 yn ddiangen ac apelio wedyn.<br><br>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gwrthod amod (3) o'r argymhelliad hwn. Deallwn mai bwriad Comisiwn y Gyfraith yw atal cyhoeddi hysbysiad adran 215 lle mae cyflwr anniben tir yn deillio o waredu gwastraff yn anghyfreithlon gan drydydd parti. Er y derbynnir y gall trydydd parti ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau na ofynnwyd amdanynt, yn y pen draw tirfeddianwyr/meddianwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu a chynnal eu tir, a chyfrifoldeb ACau yw defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt i sicrhau bod amwynder lleol yn cael ei gynnal.<br><br>Nod hysbysiad adran 215 yw sicrhau datrysiad cymharol gyflym i dir na chaiff ei gynnal a'i gadw'n briodol, sy'n effeithio ar amwynder tir yn ardal AC neu dir cyfagos, ac nid yw Llywodraeth Cymru am gyfyngu ar ei gwmpas. Er ein bod yn cydnabod y dylai AC gynnal ymchwiliadau cyn cyhoeddi adran 215, ni fyddai'n gymesur i'r ymchwiliadau hynny gynnwys nodi pwy a fu'n gyfrifol am gael effaith andwyol ar amwynder y tir. |
| 16-2 | Argymhellwn y dylai fod modd cyhoeddi hysbysiad (o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) os yw cyflwr y tir dan sylw yn deillio o gynnal gweithrediadau neu o ddefnydd o'r tir a oedd yn gyfreithlon ar y pryd, ond nad ydynt/yw'n gyfreithlon mwyach. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod Comisiwn y Gyfraith wedi ystyried sicrhau bod gan ACau ddigon o bwerau i weithredu lle mae tir (neu adeiladau) yn cael effaith andwyol ar amwynder rhan o ardal yr awdurdod.<br><br>Mae Argymhelliad 16-1 yn nodi y dylai adran 215 o Ddeddf 1990 gael ei hailddatgan er mwyn nodi'n glir y gellir cyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i dir gael ei gynnal yn briodol os nad yw cyflwr y tir yn deillio, fel arfer, o gynnal gweithrediadau parhaus yn gyfreithlon ar y tir hwnnw nac o ddefnydd parhaus o'r tir hwnnw sy'n gyfreithlon.<br><br>Fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 16-1 deallwn fod cyfreithlon yn golygu na thorrir Rhan 3 o Ddeddf 1990.<br><br>Yn sgil trafod yr argymhelliad hwn ac Argymhelliad 16-1 â Chomisiwn y Gyfraith, ystyriwn y bydd y newid a awgrymir gan Argymhelliad 16-1 yn darparu digon o eglurhad y gellid cyflwyno hysbysiad yn yr amgylchiad a nodir gan y Comisiwn ym mharagraff 16.19 o'r ddogfen ymgynghori. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-3 | Argymhellwn y dylai hysbysiad o dan y ddarpariaeth yn y Bil newydd sy'n disodli adran 215:<br>1) dod i rym ar ddyddiad penodol a nodir ynddo (yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod penodedig o'r dyddiad cyflwyno);<br>2) cael ei gyhoeddi (yn hytrach na'i gyflwyno fel sy'n digwydd ar hyn o bryd), gyda chopi yn cael ei gyflwyno i bawb sy'n gyfrifol am gynnal y tir dan sylw;<br>3) cynnwys hysbysiad ynglŷn â hawliau unrhyw dderbynnydd i apelio yn ei erbyn. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddiwygio'r gofynion o ran hysbysiadau a gyhoeddir o dan adran 215 o Ddeddf 1990. Bydd hyn yn cysoni gweithdrefnau rhwng hysbysiadau adran 215, hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau dirwyn hysbysebion i ben, ac yn darparu eglurder a sicrwydd. Fodd bynnag, bydd angen i'r union eiriad a ddefnyddir gael ei ystyried yn ofalus. |
| 16-4 | Argymhellwn y dylai'r Bil nodi'n glir y dylai apeliadau yn erbyn hysbysiadau o dan adran 217 gael eu penderfynu fel arfer gan arolygwyr, yn unol ag Argymhelliad 11-2. | Derbyn | Deallwn y dylai'r argymhelliad gyfeirio at apeliadau a wneir o dan adran 217 (apeliadau yn erbyn hysbysiadau adran 215).<br><br>Ar sail y ddealltwriaeth hon mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai apeliadau o dan adran 217 gael eu penderfynu fel arfer gan unigolion penodedig (Arolygwyr Cynllunio). Nid yw apeliadau o'r fath yn destun dadlau fel rheol ac nid ydynt yn gymhleth eu natur, o gymharu ag achosion y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt fel arfer, ac Arolygwyr Cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar yr apeliadau hyn yn y lle cyntaf. Gan fod Arolygwyr Cynllunio yn penderfynu ar y rhan fwyaf o apeliadau o dan Ddeddf 1990, byddai'r newid arfaethedig yn darparu cysondeb o ran y ffordd mae'r system apeliadau cynllunio yn gweithredu'n fwy cyffredinol.<br><br>Cytunwn hefyd y byddai'n symlach ac yn gliriach i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio er mwyn gwrthdroi'r rhagdybiaeth bresennol mai Gweinidogion Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am benderfynu ar apeliadau sy'n gysylltiedig â chynllunio oni ddirprwyir hynny i berson a benodir ganddynt, i un lle mae'n glir mai unigolyn penodedig (Arolygydd Cynllunio) sy'n penderfynu ar bob apêl, oni ragnodir mai Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arni neu sy'n ei hadfer (mewn cyfarwyddiadau sy'n benodol i achos). (Gweler ein hymateb i Argymhelliad 11-2 hefyd.) |
| 16-5 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys pwerau, sy'n disodli'r rhai sydd ar gael ar hyn o dan adran 89(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, er mwyn galluogi awdurdod cynllunio, mewn perthynas ag unrhyw dir y mae ei gyflwr yn effeithio ar amwynder ei ardal neu unrhyw ardal gyfagos (neu sy'n debygol o effeithio arni am fod wyneb y tir wedi cwympo o ganlyniad i weithrediadau mwyngloddio tanddaearol), i wneud y canlynol:<br>1) cyhoeddi hysbysiad a chyflwyno copi ohono i berchennog a meddiannydd y tir ac arddangos hysbysiad priodol ar y tir, sy'n datgan bwriad yr awdurdod i wneud gwaith adferol;<br>2) gwneud y gwaith a nodir yn yr hysbysiad ei hun, naill ai<br>o ar delerau y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (ynglŷn â gwneud y gwaith ei hun a chynnal y tir wedyn); neu<br>o os na cheir unrhyw ymateb i'r hysbysiad;<br>3) adennill cost gwaith o'r fath oddi wrth y perchennog, neu wneud y gost yn arwystl at y tir;<br>4) caffael y tir at ddibenion gwneud gwaith o'r fath, drwy ddefnyddio pwerau gorfodol neu drwy gytundeb. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor disodli'r pwerau a nodir ar hyn o bryd yn adran 89(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ("Deddf 1949") gyda phwerau yn cyd-fynd â'r rhai a nodir ar hyn o bryd yn adran 215 o Ddeddf 1990. Byddai hyn yn arwain at roi thema debyg o bwerau yn yr un rhan o'r Bil.<br><br>Mae'r pwerau o dan adran 89(2) o Ddeddf 1949 yn caniatáu i ACau wneud gwaith eu hunain, naill ai ar dir sy'n eiddo iddynt neu ar dir arall yn amodol ar gael caniatâd pawb sydd â buddiant yn y tir, hyd yn oed os bydd cyflwr y tir yn deillio o weithrediadau/defnydd nad yw'n groes i Ran 3 o Ddeddf 1990. Mae adran 89(2) hefyd yn galluogi ACau i wneud gwaith angenrheidiol ar dir sy'n debygol o fynd yn segur, cael ei esgeuluso neu fod yn flêr yr olwg am fod yr wyneb wedi cwympo, o ganlyniad i weithrediadau mwyngloddio tanddaearol blaenorol. Mae'r pwerau hyn yn wahanol i'r rhai a geir yn adran 215 o Ddeddf 1990, ac am fod angen i waith ar dir (heblaw am dir y mae AC yn berchen arno) gael ei gymeradwyo cyn iddo ddechrau, nid ydynt yn cynnwys hawl i apelio.<br><br>Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pwerau ychwanegol posibl yn adran 89(2) o Ddeddf 1949, ystyriwn fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r pwerau hynny yn arwain at ddyblygu darpariaethau sydd eisoes yn Neddf 1990, e.e. y pwerau yn adran 215 ac adran 219 a'r pwerau caffael a dyrannu a geir yn Rhan 9, a sicrhau bod unrhyw weithdrefn newydd sy'n gysylltiedig â'r pŵer yn adran 89(2) yn briodol i'r gwaith y cafwyd caniatâd i'w wneud. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-6 | Argymhellwn y dylai'r Cod Cynllunio newydd gynnwys pwerau, sy'n cyfateb i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd o dan 89(1) o Ddeddf 1949, er mwyn galluogi awdurdod cynllunio i wneud y canlynol:<br>1) cyhoeddi hysbysiad a chyflwyno copi ohono i berchennog a meddiannydd y tir, sy'n datgan bwriad yr awdurdod i wneud gwaith tirlunio er mwyn gwella'r tir;<br>2) gwneud y gwaith a nodir yn yr hysbysiad ei hun, naill ai<br>o ar delerau y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdod a pherchennog a meddiannydd y tir (ynglŷn â gwneud y gwaith ei hun a chynnal y tir wedyn); neu<br>o os na cheir unrhyw ymateb i'r hysbysiad;<br>3) caffael y tir at ddibenion gwneud gwaith o'r fath drwy gytundeb, neu drwy ddefnyddio pwerau gorfodol os na ellir dod o hyd i'r perchennog ar ôl i ymholiadau rhesymol gael eu gwneud. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â'r argymhelliad i gynnwys pwerau sy'n cyfateb i'r rhai yn adran 89(1) o Ddeddf 1949 ac y gallai'r rhain gael eu hailddatgan yn briodol ynghyd â darpariaethau tebyg yn y Bil. Cytunwn y dylai'r pŵer presennol i blannu coed gael ei ehangu i gwmpasu tirlunio.<br><br>Nodwn fod rhai ymatebwyr wedi codi pryderon am gynnwys pwerau prynu gorfodol a gwneud gwaith heb gytundeb y tirfeddianwyr. Yn hyn o beth, mae adran 89 o Ddeddf 1949 yn cynnwys pwerau prynu gorfodol presennol. Os caiff Argymhelliad 16-6(3) ei weithredu, byddai pwerau prynu gorfodol awdurdodau cynllunio yn fwy cyfyngedig nag o dan Ddeddf 1949.<br><br>Fel gydag Argymhelliad 16-5, ystyriwn fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn diffinio cwmpas unrhyw bŵer prynu gorfodol, gan nodi sylwadau ACau a ymatebodd, er mwyn atal dyblygu darpariaethau a geir yn Neddf 1990 eisoes e.e. y pwerau caffael a dyrannu a geir yn Rhan 9 a sicrhau bod unrhyw weithdrefn newydd sy'n gysylltiedig â'r pŵer yn adran 89(1) o Ddeddf 1949 yn briodol i'r gwaith y caniateir iddo ddigwydd. |
| 16-7 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn hwyluso'r gwaith o waredu graffiti a phosteri sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon,<br>1) drwy alluogi awdurdodau cynllunio i wneud y canlynol:<br>o ymdrin â graffiti neu bosteri sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon sy'n amharu ar amwynder neu sy'n dramgwyddus, drwy ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr neu feddianwyr y tir yr effeithir arno eu gwaredu;<br>o ymdrin â hysbysebu mynych heb awdurdod, drwy gyflwyno hysbysiad i'r rhai sy'n gyfrifol am arwynebau sy'n cael eu gorchuddio'n barhaus â phosteri wedi'u gosod yn anghyfreithlon, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau ataliol er mwyn atal hyn rhag digwydd eto hyd y gellir;<br>o yn y naill achos neu'r llall, cymryd camau uniongyrchol lle y bo angen, a chodi tâl ar y rhai sy'n gyfrifol lle y bo'n briodol; a<br>2) drwy alluogi cynghorau tref a chymuned i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig mewn achosion priodol. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn. Gall gweithgareddau fel graffiti a phosteri sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon gael effaith niweidiol ar amwynder ardal a mynd yn groes i agenda Llywodraeth Cymru a nodir yn ei pholisi cynllunio cenedlaethol, sef cefnogi llesiant pobl a chymunedau a diogelu gwerth amgylcheddol ac amwynder lleoedd.<br><br>Cytunwn y gallai fod yn briodol i gyflwyno rhyw fath o reolaeth i hwyluso'r gwaith o waredu graffiti a phosteri sydd wedi'u gosod yn anghyfreithlon, yn debyg fwy neu lai i'r darpariaethau a gyflwynwyd yn Neddf 1990 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr.<br><br>Rydym wedi ystyried gwrthwynebiadau rhai ymatebwyr i'r argymhelliad hwn ar sail caledi ychwanegol i berchenogion eiddo yn deillio o weithredoedd trydydd parti, yn ogystal â phroblemau mynych lle mae'r perchennog wedi cymryd camau rhesymol i'w hatal. Mae'r gwrthwynebiadau hyn yn gwbl ddealladwy. Yn yr un modd, mae cynsail i reoli'r gweithgareddau hyn gan drydydd partïon, megis yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, darpariaethau i Loegr yn unig a gyflwynwyd yn Neddf 1990 drwy Ddeddf Lleoliaeth 2011 a hysbysiadau adran 215 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal tir yn briodol. Os gwneir darpariaeth newydd, bydd angen pwyso a mesur buddiannau'r cyhoedd a rhai perchenogion.<br><br>Ar y cam hwn, dim ond pwerau i wneud rheoliadau a gynigir gan yr argymhelliad. Ystyriwn fod hyn yn briodol oherwydd, o ystyried hanes diweddar y pwnc hwn, rhaid newid y drefn o bryd i'w gilydd mewn ymateb i fater sy'n datblygu. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yn fanwl gwmpas unrhyw bŵer galluogi ac a ddylai rhai darpariaethau gael eu gosod mewn deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Gan fod y newidiadau a argymhellir yn gyfystyr â newid polisi sy'n debygol o ofyn am Fil diwygio yn y dyfodol er mwyn ei gyflawni, yn hytrach na thrwy ymgynghoriad, caiff barn Comisiwn y Gyfraith a'r ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried ymhellach fel rhan o'r sail dystiolaeth er mwyn llywio unrhyw Fil yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys pa mor briodol yw'r argymhelliad i Gynghorau Tref a Chymuned gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-8 | Argymhellwn y dylid diwygio Rhan 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd menter) ac Atodlen 32 i’r ddeddf honno a’r darpariaethau sy’n ymwneud ag ardaloedd menter yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig, fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ("Deddf 1980") a Deddf 1990, yn ymwneud ag ardaloedd menter, mewn perthynas â Chymru. Nodwn y gefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn ymhlith ymgyngoreion.<br><br>Fel yr eglurwyd mewn ymateb i Argymhelliad 5-12 a 7-9, cytunwn na ddylai darpariaethau a geir yn Rhan 1 o Ddeddf 1990 ar hyn o bryd sy'n galluogi awdurdodau ardaloedd menter i gael eu dynodi'n ACau ac adran 88 ac adran 89 (caniatâd cynllunio i ddatblygu mewn ardaloedd menter) o Ddeddf 1990 gael eu hailddatgan.<br><br>Ni wnaed unrhyw orchymyn o dan Atodlen 32 i Ddeddf 1980 yng Nghymru ers 1985.<br><br>Ymhellach, cyflwynwyd cynllun ardaloedd menter newydd yn 2012 drwy ddiwygio Deddf Lwfansau Cyfalaf 2001. Mae'r ffaith bod dau gynllun yn bodoli sydd â'r un enw yn creu mwy o ddryswch yn y dirwedd ddeddfwriaethol sydd ohoni.<br><br>Felly, cytunwn ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai Rhan 18 o Ddeddf 1980 ac Atodlen 32 i'r ddeddf honno gael eu diwygio fel na fyddant yn gymwys mwyach yng Nghymru. |
| 16-9 | Argymhellwn y dylid diwygio Deddf Trefi Newydd 1981 a’r darpariaethau sy’n ymwneud â threfi newydd yn Neddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a deddfwriaeth gysylltiedig, fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. | Gwrthod | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddatgymhwyso'r darpariaethau perthnasol sy’n ymwneud â threfi newydd yn Neddf Trefi Newydd 1981, Deddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Trefol 1985, Deddf Tai ac Adfywio 2008 na Deddf 1990 mewn perthynas â Chymru. Ystyriwn eu bod yn berthnasol o hyd.<br><br>Mae gan Weinidogion Cymru rôl arwain bwysig i'w chwarae wrth ystyried y galw am dai, cyfleusterau a seilwaith. Ystyriwn y dylai fod gan Weinidogion Cymru yr holl adnoddau sydd eu hangen er mwyn cefnogi gwaith datblygu ac adfywio yn y dyfodol.<br><br>Er nad yw'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio yng Nghymru ers tro, un o amcanion Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol yw darparu seilwaith modern a chysylltiedig a gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff iechyd, cymdeithasau tai a phartneriaid allweddol eraill gynllunio cartrefi, cyfleusterau a seilwaith newydd mewn ffordd gydgysylltiedig. Byddai'n fuddiol cadw'r pwerau a geir yn Neddf Trefi Newydd 1981, a allai gael eu defnyddio i weithredu yn y ffordd gydgysylltiedig hon.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith o farn wahanol, ystyriwn fod angen cadw pwerau yn ymwneud â threfi newydd er mwyn cynnal yr opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru er mwyn cefnogi eu rôl arwain. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-10 | Argymhellwn y dylid diwygio<br>1) Rhan 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ac Atodlenni 26 i 31 i'r ddeddf honno (ardaloedd datblygu trefol a chorfforaethau datblygu trefol), a'r<br>2) darpariaethau sy'n ymwneud â chorfforaethau datblygu trefol yn Neddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Datblygu Trefol 1985, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993, a deddfwriaeth gysylltiedig,<br>fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. | Gwrthod | Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddatgymhwyso'r darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â chorfforaethau datblygu trefol yn Neddf 1980, Deddf Trefi Newydd a Chorfforaethau Trefol 1985, Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 na Deddf 1990 mewn perthynas â Chymru.<br><br>Mae gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol rôl arwain bwysig i'w chwarae o ran adfywio. Ystyriwn y dylai fod gan Weinidogion Cymru yr holl adnoddau sydd eu hangen er mwyn cefnogi gwaith datblygu ac adfywio yn y dyfodol drwy sefydlu cyrff cyflawni priodol sy'n debyg i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.<br><br>Am y rhesymau a roddir mewn perthynas ag Argymhelliad 16-9, byddai'n fuddiol cadw'r pwerau a geir yn Rhan 16 o Ddeddf 1980, a allai gael eu defnyddio i weithredu yn y ffordd gydgysylltiedig hon.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith o farn wahanol, ystyriwn ei bod yn angenrheidiol bod cadw pwerau yn ymwneud â chorfforaethau datblygu trefol yn cynnal yr opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru er mwyn cefnogi eu rôl arwain. |
| 16-11 | Argymhellwn y dylid diwygio<br>1) Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 (ardaloedd ymddiriedolaethau gweithredu tai), a'r<br>2) darpariaethau sy'n ymwneud ag ymddiriedolaethau gweithredu tai yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth gysylltiedig<br><br>fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddatgymhwyso Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 a darpariaethau perthnasol yn Neddf 1990 (ardaloedd Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai), mewn perthynas â Chymru.<br><br>Nod Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai yw rheoli tai awdurdod lleol mewn ardal ddynodedig am gyfnod penodol, trwsio a moderneiddio'r tai sydd ganddo, gwella amgylchedd cyffredinol yr ardal ac wedyn ei hadfywio, cynyddu amrywiaeth tenantiaeth drwy drosglwyddo perchenogaeth i landlordiaid cymdeithasol eraill. Ym mhapur gwyn 1987, a wnaeth gefnogi cyflwyno Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai, awgrymwyd y dylent gael eu sefydlu mewn ardaloedd canol dinas â phroblemau tai a phroblemau cymdeithasol difrifol, ac mewn ardaloedd lle ceir tai cyngor fwyaf.<br><br>Ni sefydlwyd ymddiriedolaeth o'r fath yng Nghymru ac ymddengys fod y ddeddfwriaeth hon yn amherthnasol bellach, gan fod mentrau eraill wedi cael eu sefydlu yng Nghymru sydd wedi sicrhau gwelliannau i stoc dai a chynyddu amrywiaeth tenantiaeth. |
| 16-12 | Argymhellwn y dylid diwygio Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 ac Atodlen 5 i'r ddeddf honno (byrddau datblygu gwledig) a deddfwriaeth gysylltiedig fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 ac Atodlen 5 i'r ddeddf honno, fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru.<br><br>Er ein bod o'r farn y dylai adnoddau adfywio eraill gael eu cynnal er mwyn cefnogi rôl arwain Gweinidogion Cymru wrth weithredu'r strategaeth genedlaethol, nid yw byrddau datblygu gwledig yn berthnasol iawn o ystyried y defnydd cyfyngedig a'r gwrthwynebiad a gafwyd i'r unig fwrdd a gynigiwyd yng Nghymru.<br><br>Ynghyd â'r stigma sydd ynghlwm wrth fyrddau o'r fath, gall bwrdd datblygu gwledig ddefnyddio pwerau y gellir tybio eu bod wedi'u gorfodi ar ardaloedd o'r fath. Mae hyn yn groes i'r rôl gefnogol a hyrwyddir yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r problemau arbennig a wynebir gan ardaloedd gwledig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-13 | Argymhellwn na ddylid ailddatgan adran 231 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael a datblygu tir) yn y Bil. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylai adran 231 o Ddeddf 1990 gael ei hailddatgan.<br><br>Mae adran 231 o Ddeddf 1990 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gymell AC i wneud y canlynol:<br>• cymryd camau i gaffael tir a ddylai, ym marn Gweinidogion Cymru, gael ei gaffael gan yr AC hwnnw o dan adran 226;<br>• cymryd y fath gamau a all gael eu nodi yn y gorchymyn i wneud y gwaith datblygu os ydynt yn fodlon bod awdurdod lleol wedi methu â chyflawni, ar dir a gafaelwyd ganddo o dan adran 226 neu a ddyrannwyd iddo o dan adran 229, unrhyw ddatblygiad a ddylai, ym marn Gweinidogion Cymru, gael ei gyflawni.<br><br>Pe byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau hyn, byddai ymchwiliad yn gyntaf i'r honiad bod yr AC wedi methu â chaffael y tir. Pe byddai Gweinidogion Cymru wedyn yn gwneud gorchymyn i'r AC gymryd camau i gaffael tir, gallai'r ymchwiliad cyntaf hwn gael ei ddilyn gan ymchwiliad pellach pe byddai gwrthwynebiad i orchymyn prynu gorfodol yr AC. Ar y ddau achlysur, byddai'r ymchwiliad yn mynd i'r afael ag addasrwydd ac anghenraid y caffaeliad gorfodol.<br><br>Ymhellach, pe byddai Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gaffael tir at ddibenion cynllunio, dull mwy uniongyrchol fyddai defnyddio pwerau o dan adran 228 o Ddeddf 1990 er mwyn caffael tir eu hunain (ar yr amod bod diben cyhoeddus) yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i AC wneud gorchymyn prynu gorfodol nad yw am ei wneud, a gwneud gwaith datblygu nad yw'n bwriadu ei wneud. |
| 16-14 | Argymhellwn y dylid ymgorffori yn y Bil ddarpariaethau sy'n cyfateb i Ran 9 (heblaw adran 231) ac adrannau 251, 258, a 271 i 282 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (caffael tir at ddibenion cynllunio). | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad i ymgorffori'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â chaffael tir at ddibenion cynllunio a hawliau tir cysylltiedig mewn un man. |

## Pennod 17 - Heriau yn yr Uchel Lys

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 17-1 | Argymhellwn y dylai Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (heriau yn yr Uchel Lys i ddilysrwydd gweithredoedd a phenderfyniadau o dan y Ddeddf) gael ei disodli yn y Bil Cynllunio gan ddarpariaethau newydd i'r perwyl y gall llys ystyried achos ar gyfer amau unrhyw benderfyniad gan gorff cyhoeddus o dan y Cod (ac eithrio un y mae hawl i apelio i Weinidogion Cymru yn ei erbyn) – ac unrhyw fethiant i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath – ond dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>1) caiff yr achos ei ddwyn drwy gais am adolygiad barnwrol;<br>2) caiff y ffurflen gais ei chyflwyno:<br>o cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos yn achos her i benderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (ac eithrio penderfyniad sy'n rhoi caniatâd cynllunio), hysbysiad cyfnewid coed, hysbysiad tir blêr y golwg neu benderfyniad sy'n rhoi tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli; neu<br>o cyn diwedd y cyfnod o chwe wythnos mewn unrhyw achos arall,<br>sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y gwnaed y penderfyniad perthnasol. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith fod cryn orgyffwrdd rhwng y ddau lwybr sydd ar gael ar hyn o bryd i herio dilysrwydd penderfyniadau cynllunio (o dan Ran 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil). Heb fawr ddim gwahaniaeth rhyngddynt, cytunwn mewn egwyddor nad oes angen cadw system ar wahân mwyach i herio o dan ddeddfwriaeth gynllunio a chredwn mai'r weithdrefn adolygiad barnwrol o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil sy'n darparu'r llwybr mwyaf priodol i herio dilysrwydd penderfyniadau cynllunio.<br><br>Caiff y weithdrefn hon ei deall yn helaeth ac mae'n cynnig dull syml o adolygu penderfyniadau gweinyddol. Bydd y newid deddfwriaethol hefyd yn gwneud y gyfraith yn llai cymleth ac yn gwneud y system yn fwy hygyrch i ddarpar hawlwyr sy'n ceisio herio dilysrwydd penderfyniadau cynllunio. Hefyd, nodwn y gefnogaeth gynhwysfawr a gafwyd gan ymatebwyr i'r papur ymgynghori ar y newid a argymhellwyd i'r ddeddfwriaeth.<br><br>Fodd bynnag, bydd angen ystyried y darpariaethau manwl ac unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth gysylltiedig wrth i'r Bil ddatblygu er mwyn sicrhau y gall trefniadau ymarferol gael eu rhoi ar waith a, lle y bo'n briodol, y cedwir gwahaniaethau.<br><br>Byddai angen i newid o'r fath i'r ddeddfwriaeth hefyd gael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Barnwrol a fydd yn cyd-fynd â Bil yn y dyfodol. |
| 17-2 | Argymhellwn y dylid cynnwys Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (sy'n ymwneud â chywiro mân wallau mewn penderfyniadau) yn y Bil, ond y dylid ei diwygio er mwyn rhoi cyfnod o 14 diwrnod y gall Gweinidogion Cymru neu arolygydd ymateb i gais i gywiro eu penderfyniad/ei benderfyniad ac y gall ymgeisydd ymateb i hysbysiad ganddynt/ganddo eu bod/ei fod yn bwriadu gwneud cywiriad o'r fath oddi mewn iddo. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor fod angen i'r darpariaethau o dan Ran 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 gael eu hadolygu o ran yr amser sydd ei angen i ymdrin â gwallau y gellir eu cywiro.<br><br>Dylai sefydlu cyfnod o 14 diwrnod i fynd i'r afael ag unrhyw gais am gywiriad ac oedi'r terfyn amser o chwe wythnos ar gyfer her yn yr Uchel Lys unwaith y gwneir cais atal ceisiadau diangen i'r Uchel Lys lle byddai cywiriad syml i benderfyniad yn datrys y mater.<br><br>Hefyd, byddwn yn ystyried cwmpas adran 59 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 o ran y penderfyniadau y mae angen eu nodi. |

## Pennod 18 - Darpariaethau Amrywiol ac Atodol

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 18-1 | Argymhellwn y dylid:<br>1) symleiddio darpariaethau'r Bil sy'n ei gymhwyso at ymgymerwyr statudol hyd y gellir, er mwyn nodi'r cyrff hynny sy'n ymgymerwyr statudol at unrhyw un o ddibenion y Bil neu bob un ohonynt ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tano;<br>2) cynnwys un rhestr o gyrff o'r fath yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â phob ymgymerydd o'r fath:<br>o at ba ddiben y caiff y corff ei wneud yn ymgymerydd statudol;<br>o y Gweinidog priodol;<br>o ei dir gweithredol. | 18-1(1) - Derbyn mewn egwyddor<br><br>18-1(2) - Gwrthod | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith bod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol yn gymhleth ac yn ddryslyd. Byddwn yn ceisio cydgrynhoi a symleiddio'r agwedd hon ar y gyfraith er mwyn creu deddfwriaeth fwy hygyrch. Fodd bynnag, dim ond yn ystod y broses o ystyried yn fanwl a drafftio darpariaethau i'w cynnwys yn y Bil cydgrynhoi y gallwn bennu ein gallu i wneud hynny a bydd yn dibynnu ar y graddau y gellir cyflawni newidiadau drwy ymarfer cydgrynhoi.<br><br>Nodwn ail ran yr argymhelliad am ganllawiau ar agweddau penodol ar y darpariaethau sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol. Mae gennym nifer o bryderon ymarferol am yr agwedd hon ar yr argymhelliad.<br><br>Mae'r gwaith o lunio a chynnal un rhestr gynhwysfawr o gyrff sy'n ymgymerwyr statudol yn debygol o fod yn llafurus a heb fod iddo fawr ddim budd ymarferol o ystyried nad yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol iawn i'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n defnyddio'r system gynllunio. Mae'r gwaith o ddiweddaru'r rhestr hefyd yn debygol o beri problemau, er enghraifft, byddai angen diweddaru'r rhestr pan fydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi trwyddedau newydd, neu'n dirymu rhai presennol, o dan Ddeddf Trydan 1989 (mae cyrff o'r fath yn ymgymerwyr statudol at ddibenion penodol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Yn ein barn ni, ni fydd yr amser sydd ei angen i lunio a chynnal y canllawiau hyn yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau o ystyried buddiannau ymarferol cyfyngedig y gwaith.<br><br>Ceir mwy o eglurder o ran y "Gweinidog priodol" drwy'r ymarfer cydgrynhoi. Rhydd y cyfle i adlewyrchu'n gywir drosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru drwy Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, wrth baratoi a drafftio'r Bil y gwelir i ba raddau y ceir eglurder. Gellir wedyn ystyried a oes angen canllawiau ychwanegol ar y mater hwn ar ôl ailddrafftio'r darpariaethau.<br><br>Ni fyddai ychwaith yn ymarferol diffinio ar gyfer pob ymgymerydd statudol ei dir gweithredol y tu hwnt i'r darpariaethau mewn deddfwriaeth. Dim ond fesul achos y gellir nodi hyn yng nghyd-destun y datblygiad arfaethedig neu'r gweithrediad ar dir a gyflawnir gan yr ymgymerydd statudol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ystyr tir gweithredol er mwyn gwneud y gyfraith bresennol yn fwy hygyrch.<br><br>Felly, ar sail ein pryderon, ni chynigiwn gyflwyno'r elfen hon o'r argymhelliad. |
| 18-2 | Argymhellwn, pan gaiff y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ei ddiwygio nesaf, y dylid ystyried ei rannu'n ddau orchymyn, sef un sy'n ymdrin â hawliau datblygu a ganiateir sy'n ymwneud ag anheddau ac un sy'n ymdrin ag achosion eraill. | Gwrthod | Noda Llywodraeth Cymru fod y cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori wedi cael ei ddiwygio yn sgil sylwadau ymatebwyr. Awgrymodd y cynnig dros dro y dylid ystyried rhannu'r darpariaethau hynny yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1995 (Gorchymyn 1995) a oedd yn ymwneud â datblygu gan ymgymerwyr statudol, y Goron, gweithredwyr mwynau, a chyrff tebyg eraill, a'r rhai'n ymwneud â datblygu'n gyffredinol.<br><br>Yr argymhelliad diwygiedig yw y dylid ystyried rhannu y Gorchymyn 1995 yn ddau orchymyn, gyda hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid tai mewn un gorchymyn a'r mathau eraill o hawliau datblygu a ganiateir mewn un arall. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y cynnig dros dro a'r argymhelliad diwygiedig. O ran y cynnig dros dro, cytunwn â safbwyntiau sawl ymatebydd y byddai rhannu'r darpariaethau hynny sy'n ymwneud â datblygu gan ymgymerwyr statudol a chyrff tebyg eraill yn gwneud pethau'n fwy cymhleth i weithwyr proffesiynol, heb fawr ddim budd ymarferol i'r rhai nad ydynt yn weithwyr proffesiynol sy'n defnyddio'r system.<br><br>Ar ôl ystyried yr argymhelliad diwygiedig, ein barn ni yw y dylai pob hawl datblygu a ganiateir cael eu lleoli mewn un gorchymyn, gan ei fod yn golygu y gall defnyddwyr a gweithredwyr y system gynllunio gael gafael arnynt mewn un man, sy'n creu deddfwriaeth fwy hygyrch. Mae Gorchymyn 1995 hefyd wedi'i strwythuro'n sawl rhan er mwyn adlewyrchu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr neu weithredwyr y system gynllunio i gael gafael ar yr hawliau datblygu a ganiateir perthnasol sydd o ddiddordeb iddynt.<br><br>Fodd bynnag, cydnabyddwn y gellid gwella trefniant y Gorchymyn hwn er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Gwnawn ystyried symleiddio, ail-gategoreiddio a chyfuno rhai rhannau o'r Gorchymyn pan gydgrynhoir y Gorchymyn hwn fel rhan o'n rhaglen waith ddeddfwriaethol yn y dyfodol.<br><br>O ystyried natur dechnegol hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid tai ac er mwyn gwneud yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch i'r rhai nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, rydym wedi cyhoeddi canllaw enghreifftiol i ddeiliaid tai, sy'n darparu dehongliad syml o'r hawliau datblygu hynny a ganiateir a ddefnyddir yn gyffredin. |
| 18-3 | Argymhellwn na ddylid ailddatgan adran 283 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymerwyr statudol) yn y Cod. | Gwrthod | Mae adran 222 o Ddeddf 1990 yn rhoi caniatâd cynllunio tybiedig lle mae arddangos hysbysebion yn unol â'r rheoliadau o dan adran 220. Fodd bynnag, nid yw'n atal gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu lle arddangosir hysbysebion i'r awdurdod cynllunio. Felly, gellir gwneud cais am ganiatâd cynllunio o ran arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymerwyr statudol. Er y gellir gwneud cais o'r fath o hyd, mae angen adran 283 er mwyn cynnal y sefyllfa gyfreithiol gyfredol.<br><br>Mae cydsyniad hysbysebu yn un o blith nifer o gydsyniadau statudol eraill (sy'n gorgyffwrdd weithiau) sy'n ofynnol ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio. Gall hyn fod yn ddryslyd ac mae'n creu ansicrwydd i ymgeiswyr a chymunedau.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhaglen waith yn y dyfodol i gynnal adolygiad ehangach o gydsyniadau statudol er mwyn nodi a all y cyfundrefnau cydsynio amrywiol sy'n gorgyffwrdd yn uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio gael eu cynnwys mewn ffordd fwy integredig a syml.<br><br>Ystyrir y gofyniad parhaus am ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 283 o Ddeddf 1990 fel rhan o'r adolygiad hwnnw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18-4 | Argymhellwn na ddylid ailddatgan adran 316A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gan awdurdodau lleol sy'n ymgymerwyr statudol ac arddangos hysbysebion ar eu tir gweithredol) yn y Bil. | Derbyn | Mae adran 316A yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i wneud addasiadau ac eithriadau i ddarpariaethau penodedig o ran eu cymhwyso i awdurdodau cynllunio sy'n ymgymerwyr statudol.<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith na ddylai adran 316A gael ei hailddatgan yn y Bil am na wnaed unrhyw reoliadau o dan y ddarpariaeth hon hyd yma, a chefnogaeth glir ymatebwyr i'r ymgynghoriad i'r argymhelliad hwn.<br><br>Gan ystyried y graddau y gellir gwneud eithriadau ac addasiadau o dan y ddarpariaeth hon, ni allwn ragweld amgylchiadau lle byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau yn adran 316A.<br><br>Am y rheswm hwn, cytunwn â'r argymhelliad na ddylai adran 316A gael ei hailddatgan yn y Bil cydgrynhoi. |
| 18-5 | Argymhellwn y dylai Bil newydd ddefnyddio fel arfer – yn lle'r term "winning and working" – y term "gweithrediadau mwyngloddio", wedi'i ddiffinio fel ei fod yn cynnwys:<br>1) cloddio a gweithio mwynau mewn, ar neu o dan dir, p'un ai drwy weithio ar wyneb y ddaear neu dan ddaear;<br>2) gwaredu deunydd o unrhyw fath o:<br>o ddyddodion gweithio mwynau;<br>o dyddodion lludw tanwydd maluriedig neu ludw neu glincer ffwrnais arall; Neu<br>o ddyddodion haearn, dur neu slag metalig;<br>3) echdynnu mwynau o arglawdd rheilffordd nas defnyddir. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad y dylai'r term "gweithrediadau mwyngloddio" gael ei ddefnyddio yn y Bil cydgrynhoi yn lle'r term "winning and working of minerals", am ei fod yn derm mwy cyffredin.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r diffiniadau presennol o "winning and working of minerals" a "gweithrediadau mwyngloddio" gael eu rhesymoli gyhyd â phosibl. Wrth wneud hyn bydd yn bwysig cynnal sylwedd y gyfraith bresennol. Bydd hyn yn pennu'r graddau y gall y diffiniadau hyn gael eu rhesymoli a'u disodli gan un diffiniad. Caiff hyn, a'r union eiriad i'w ddefnyddio, eu hystyried yn llawn wrth ddrafftio'r Bil. |
| 18-6 | Argymhellwn nad oes angen ailddatgan Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (caniatadau mwynau a roddwyd cyn 1 Gorffennaf 1948) nac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (caniatadau mwynau a roddwyd rhwng 1 Gorffennaf 1948 a 22 Chwefror 1982) yn y Bil, ond y dylent aros fel y maent. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oes angen i rai elfennau penodol o'r Atodlenni i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi ac y dylent barhau yn y Deddfau hyn. Fel y nodir yn yr adroddiad mae hyn yn cynnwys y gofynion i lunio cofrestrau o ganiatadau mwynau erbyn dyddiadau penodedig, sydd bellach wedi hen fynd heibio.<br><br>Fodd bynnag, mae'r cofrestrau o ganiatadau mwynau ac agweddau eraill ar yr Atodlenni hyn sy'n ymwneud â safleoedd segur a'u hailactifadu yn y dyfodol o bosibl yn dal i fod yn berthnasol. Gallai fod yn briodol i'r agweddau hyn ac eraill sy'n parhau i fod yn berthnasol lunio rhan o'r ymarfer cydgrynhoi er mwyn creu deddfwriaeth fwy hygyrch.<br><br>Fel y cydnabyddir yn yr Adroddiad, bydd y ffordd orau o gyflwyno'r darpariaethau hyn yn cael ei phenderfynu wrth fynd ati i ddrafftio'r Bil yn fanwl. Fodd bynnag, ni fydd y gwaith o gydgrynhoi a chyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol yn newid effaith gyfreithiol y darpariaethau, y nodwn eu bod yn peri pryder i rai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18-7 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys y canlynol:<br>1) y darpariaethau a geir yn Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau) ar hyn o bryd;<br>2) y rhai a geir yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dirwyn caniatadau mwynau i ben) ar hyn o bryd.<br><br>Mewn perthynas â dirwyn caniatadau mwynau i ben, dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu canllawiau ar ystyr "substantial extent" yn Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | Derbyn mewn egwyddor | Er mwyn creu deddfwriaeth fwy hygyrch, cred Llywodraeth Cymru ei bod yn synhwyrol i'r Atodlenni a nodir yn yr argymhelliad hwn gael eu hymgorffori yn y Bil cydgrynhoi.<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y dylid darparu canllawiau ar ystyr "substantive extent" yn Atodlen 9 i Ddeddf 1990. Fodd bynnag, mae rhai canllawiau ar yr ystyr yng nghyd-destun Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 eisoes wedi'u darparu yng Nghanllawiau Cynllunio Mwynau 14, sy'n parhau i fod yn bolisi yng Nghymru. Gellir ystyried gwelliannau pellach i'r agwedd hon ar y canllawiau pan gaiff Canllawiau 14 eu diweddaru nesaf. |
| 18-8 | Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar y ffurf y maent yn gymwys fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 (mewn perthynas â datblygu mwynau) yn y Bil ei hun yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno na ddylai addasiadau i Ddeddf 1990 a ragnodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1995 gael eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi. Bydd ymgorffori'r addasiadau hyn o ran datblygu mwynau yn y Bil yn darparu deddfwriaeth fwy hygyrch i weithredwyr a defnyddwyr y system gynllunio.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw pŵer i ddiwygio'r addasiadau a nodir yn y Bil cydgrynhoi. Rhydd hyn yr hyblygrwydd angenrheidiol i ymateb i natur hynod dechnegol datblygu sy'n cynnwys gweithrediadau mwyngloddio neu sy'n cynnwys gollwng gwastraff mwynau. |
| 18-9 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys<br>1) pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer graddfa ffioedd am gyflawni ganddynt hwy neu awdurdodau cynllunio unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Cod, drwy gyhoeddi yn hytrach na rhagnodi;<br>2) darpariaeth sy'n cyfateb i adran 303(10) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (ni ddylai incwm o'r ffioedd a godir felly fod yn fwy na chost cyflawni'r swyddogaeth berthnasol);<br>3) darpariaeth sy'n mynnu y rhoddir cyhoeddusrwydd priodol i unrhyw raddfa ffioedd arfaethedig cyn iddi gael ei chyhoeddi'n ffurfiol. | 18-1 – Derbyn<br><br>18-2 – Derbyn mewn egwyddor<br><br>18-3 – Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru, i'r graddau na allant wneud hynny o dan bwerau presennol, gael y pŵer i gyhoeddi ffioedd sy'n gysylltiedig â chynllunio mewn dogfen gyhoeddedig ar wahân i reoliadau. Bydd rheoliadau yn ofynnol o hyd er mwyn darparu ar gyfer materion eraill megis eithriadau rhag ffioedd. Fodd bynnag, bydd y gallu i nodi'r ffioedd sy'n daladwy mewn dogfen gyhoeddedig yn hytrach na mewn rheoliadau yn ei gwneud yn haws i Lywodraeth Cymru ymateb i unrhyw newidiadau i gostau cyflawni swyddogaethau awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru, a mynd i'r afael â'r gwaith o sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio y lefel briodol o adnoddau.<br><br>Cytunwn mewn egwyddor na ddylai'r ffioedd a godir fod yn uwch na chost cyflawni'r swyddogaeth berthnasol.<br>Cydnabyddwn y sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gan wahanol sectorau o ran y ffordd y dylai ffioedd eu strwythuro, eu dosbarthu a'u perthynas â darparu gwasanaeth o safon. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ymchwil bellach i ffioedd cynllunio, a bydd y themâu hyn yn rhan o'i chylch gwaith.<br><br>Hefyd, cytunwn â'r argymhelliad a'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw raddfa ffioedd newydd fod yn destun ymgynghoriad. |
| 18-10 | Argymhellwn y dylai fod un ddarpariaeth yn y Bil yn darparu ar gyfer penderfynu ar anghydfodau ynglŷn ag iawndal gan yr Uwch Dribiwnlys o dan ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â dirymu caniatâd cynllunio, ei addasu neu ei ddirwyn i ben, hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau stop, difrod a achosir gan fynediad at ddibenion gorfodi, diogelu coed, priffyrdd ac ymgymerwyr statudol, o dan y darpariaethau yn Neddf Iawndal Tir 1961. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai un ddarpariaeth sy'n adlewyrchu'r gyfraith bresennol o ran penderfynu ar anghydfodau ynglŷn ag iawndal gan yr Uwch Dribiwnlys sy'n ymwneud â'r meysydd a awgrymir gan Gomisiwn y Gyfraith helpu i symleiddio ac egluro'r gyfraith, gan arwain at ddeddfwriaeth fwy hygyrch. Fodd bynnag, nid yw dileu ailadrodd bob amser yn gwella hygyrchedd. Bydd p'un a yw'n gwneud hynny ai peidio yn yr achos hwn yn cael ei ystyried wrth ddrafftio'r Bil. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18-11 | Argymhellwn y dylai canllawiau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau ac apeliadau cynllunio annog personau yn gryf i gynnwys datganiad gwirionedd wedi'i eirio'n briodol mewn unrhyw ddatganiad tyst (gan gynnwys mewn perthynas ag apeliadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig). | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru farn ddiwygiedig Comisiwn y Gyfraith ar y mater hwn ar ôl ystyried y sylwadau a gafwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru i'r ymgynghoriad. Gan ein bod yn rhannu pryderon yr Arolygiaeth Gynllunio, cytunwn â barn ddiwygiedig Comisiwn y Gyfraith ei bod yn fwy priodol annog drwy ganllawiau gynnwys 'datganiad gwirionedd' mewn unrhyw ddatganiad tyst sy'n ymwneud ag apeliadau cynllunio.<br><br>Cefnogir ardystiad eisoes yn y canllaw gweithdrefnol ar gyfer tystiolaeth arbenigol yn ymwneud ag apeliadau cynllunio yng Nghymru (Canllaw Gweithdrefnol – Cymru, Mai 2017). Mae Atodiad 5 i'r canllaw hwn yn egluro'r hyn sy'n gyfystyr â thystiolaeth arbenigol yn y broses apeliadau cynllunio a'r angen i gynnwys math priodol o ardystiad mewn tystiolaeth o'r fath. Fe'i hawgrymir fel a ganlyn:<br>*"Mae'r dystiolaeth yr wyf wedi'i pharatoi ac yn ei darparu ar gyfer yr apêl hon, cyfeirnod APP/xxx, (yn y Datganiad Ysgrifenedig o Dystiolaeth hwn, y datganiad ysgrifenedig hwn neu'r adroddiad hwn) yn wir ac wedi cael ei pharatoi ac yn cael ei rhoi yn unol â chanllawiau fy sefydliad proffesiynol, a chadarnhaf mai'r safbwyntiau a fynegir yw fy ngwir safbwyntiau proffesiynol".*<br><br>Rydym wedi trafod yr argymhelliad hwn ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru, sy'n cytuno y dylai canllawiau annog cynnwys ardystiad gwirionedd mewn unrhyw ddatganiad achos a phroflen dystiolaeth sy'n cefnogi'r apêl, ni waeth a yw'n ymwneud â thystiolaeth arbenigol ai peidio. Fodd bynnag, bydd gwahaniaeth yn parhau rhwng tystion arbenigol ac unrhyw bersonau eraill, a all gael ei gyflawni drwy greu ardystiadau ar wahân.<br><br>Bydd angen i'r math priodol o ardystiad ar gyfer tystion nad ydynt yn arbenigol gael ei ystyried ymhellach. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gael eu gwneud fel rhan o unrhyw adolygiad ehangach o'r canllaw yn y dyfodol gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. |
| 18-12 | Argymhellwn y dylid ailddatgan y pŵer i wneud gorchmynion ynglŷn â chostau partïon mewn achosion, a geir yn adran 322C(6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, ar ffurf ddiwygiedig er mwyn nodi'n glir mai dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caiff gorchymyn o'r fath ei wneud:<br>1) mae parti mewn apêl wedi ymddwyn yn afresymol;<br>2) mae ymddygiad afresymol wedi achosi i bartïon eraill fynd i gostau diangen neu wastraffus. | Derbyn | Drwy gynnwys y pŵer i wneud gorchmynion ynglŷn â chostau partïon (a geir yn adran 322C(6) o Ddeddf 1990 ar hyn o bryd) yn y Bil cydgrynhoi, cytunwn y byddai'n fuddiol ymgorffori'r egwyddor hirsefydledig hon mewn deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Mae'r egwyddor sefydledig hon wedi'i nodi'n fanwl ar hyn o bryd yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu (Mai 2017) a 'Canllaw Gweithdrefnol – Cymru' (Mai 2017) yr Arolygiaeth Gynllunio. Drwy ei chynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, gellir gwneud yr amgylchiadau lle y gellir dyfarnu costau yn eglur a gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr a gweithredwyr y system gynllunio. Bydd yr union eiriad i'w ddefnyddio yn cael ei ystyried yn llawn wrth ddrafftio'r Bil. |
| 18-13 | Argymhellwn y dylai'r Bil Cynllunio ymgorffori darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai a geir ar hyn o bryd yn:<br>1) adran 276 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (pŵer awdurdod cynllunio i werthu deunyddiau a symudwyd wrth gyflawni gwaith);<br>2) adran 289 o'r Ddeddf honno (y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i feddiannydd unrhyw eiddo beidio ag atal gwaith rhag cael ei gyflawni)<br>3) adran 294 o'r Ddeddf honno (cyfyngu ar atebolrwydd landlordiaid ac asiantau mewn perthynas â chostau y gellir eu hadennill), | Derbyn | Noda Llywodraeth Cymru y gefnogaeth aruthrol a gafwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad i'r argymhelliad hwn. Cytunwn fod y pwerau a ddarperir yn yr adrannau hyn o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn parhau i fod o ddefnydd. Drwy eu cynnwys yn y Bil cydgrynhoi ceir cyfraith fwy hygyrch a dealladwy.<br><br>Cymhwysir yr adrannau hyn o Ddeddf 1936 gydag addasiadau gan Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992. Cymhwysir yr adrannau wedi'u haddasu at y camau y mae angen eu cymryd gan rai hysbysiadau penodol o dan Ddeddf 1990, sef hysbysiad gorfodi, hysbysiad cyfnewid coed a hysbysiad tir blêr yr olwg. Rhydd yr ymarfer cydgrynhoi gyfle i gynnwys y darpariaethau perthnasol o Ddeddf 1936 yn y Bil heb fod angen eu cymhwyso gydag addasiadau. Byddai hyn yn golygu nad oedd angen darpariaeth megis yr hyn a geir yn Rheoliadau 1992 mwyach, a thrwy hynny byddai'r fframwaith statudol ar gyfer cynllunio defnydd tir yn cael ei resymoli. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i fod yn gymwys i achosion lle mae'r awdurdod yn ymgymryd â gwaith sy'n ofynnol gan hysbysiadau dirwyn i ben, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau cyfnewid coed a hysbysiadau tir blêr y golwg. | | Lle y cymerir camau penodol gan awdurdod cynllunio i orfodi gorchmynion dirwyn i ben, mae Deddf 1990 yn cymhwyso'n uniongyrchol adran 276 o Ddeddf 1936 ond nid adrannau 289 na 294. Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y dylai adrannau 289 a 294 fod yn gymwys i'r un graddau am resymau'n ymwneud â chysondeb. Cytunwn y byddai cymhwyso adran 294 o Ddeddf 1936 at y camau a gymerir gan awdurdod cynllunio yn darparu cysondeb.<br><br>Nodwn fod yr argymhelliad yn cyfeirio at gymhwyso adran 289 at waith sy'n ofynnol gan hysbysiad dirwyn i ben gan yr awdurdod cynllunio. Gan mai i berchnogion ac nid awdurdodau cynllunio y mae adran 289 o Ddeddf 1936 yn gymwys, deallwn fod argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn golygu y dylai adran 289 o'r Ddeddf fod yn gymwys lle mae gorchymyn dirwyn i ben yn gofyn am wneud gwaith. Cytunwn y byddai cymhwyso adran 289 mewn amgylchiadau o'r fath yn darparu cysondeb. Mae'r newidiadau y gellir eu cyflawni drwy'r ymarferion cydgrynhoi hyn yn debygol o gynnig y cyfle i gyflawni'r cysondeb hwn. |
| 18-14 | Nid ydym yn argymell ddylai'r Bil roi unrhyw ddiffiniadau pellach o'r termau, heblaw'r rhai a argymhellir isod. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mewn egwyddor â'r hyn a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith. Hefyd, nodwn yr awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad o ran cyflwyno diffiniadau pellach ar gyfer rhai termau neu eiriau, a'r sylwadau a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith mewn ymateb iddynt.<br><br>Fodd bynnag, gall yr ymarfer o lunio a drafftio'r Bil cydgrynhoi ofyn i ni ystyried yr angen i gyflwyno labeli a diffiniadau pellach er mwyn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Byddai unrhyw ddiffiniadau newydd ar gyfer geiriau a thermau i'w cyflwyno fel rhan o'r ymarfer cydgrynhoi ond yn egluro ac nid yn newid effaith polisi a chyfreithiol y gyfraith bresennol.<br><br>Caiff cyfeiriadau a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn awgrymu diffiniadau pellach ar gyfer termau neu eiriau penodol yng Ngorchymyn 1995 eu hystyried a byddant yn llywio'r gwaith o'i gydgrynhoi, a gyflawnir fel rhan o raglen waith yn y dyfodol. |
| 18-15 | Argymhellwn y dylai:<br>1) darpariaethau'r fersiwn Saesneg o'r Bil sy'n cyfateb i adrannau 55, 171, 183, 196A a 214B ac Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu llunio drwy gyfeirio at "dwelling", yn hytrach na "dwellinghouse";<br>2) yr adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniad o'r term "annedd", i'r perwyl ei fod yn cynnwys tŷ neu fflat. | 18-15(1) - Derbyn<br><br>18-15(2) - Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid defnyddio "dwelling" yn lle "dwellinghouse" yn y Bil cydgrynhoi, am ei fod yn derm mwy cyffredin a fydd yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch.<br><br>Nodwn farn Comisiwn y Gyfraith y dylid cyflwyno diffiniad i'r perwyl bod annedd yn cynnwys tŷ a fflat. Bydd angen ystyried hyn yn fanwl wrth ddrafftio'r Bil er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd.<br><br>Hefyd, nodwn farn y Comisiwn y bydd cyflwyno'r diffiniad yn y Bil wedyn yn gymwys yn awtomatig i is-ddeddfwriaeth bresennol a wneir oddi tano. Cododd hyn rai pryderon ymhlith ymatebwyr ynghylch a allai'r diffiniad awgrymedig ar gyfer y Bil arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd o ystyried bod y diffiniad presennol mewn is-ddeddfwriaeth (yng Ngorchymyn 1995) yn wahanol i'r hyn a gynigir, nad yw'n cynnwys fflatiau'n benodol. Y pryder yw y gallai diffiniad yn y Bil cydgrynhoi gario drosodd o bosibl a bod yn gymwys i Orchymyn 1995, gan olygu bod fflatiau yn cael budd awtomatig o fwy o hawliau datblygu a ganiateir sy'n anaddas.<br><br>O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol diweddar, nid yw barn y Comisiwn am y mater penodol hwn yn gywir mwyach. Ni fydd diffiniadau yn y Bil cydgrynhoi yn gymwys yn awtomatig i is-ddeddfwriaeth bresennol nac is-ddeddfwriaeth newydd a wneir oddi tano, ac ni fyddant ychwaith yn atal is-ddeddfwriaeth rhag defnyddio termau a diffiniadau gwahanol lle y bo'n briodol. Ystyrir pa ddiffiniadau sy'n briodol i'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil cydgrynhoi ar adeg drafftio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18-16 | Argymhellwn y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth i'r perwyl mai cwrtil adeilad yw'r tir sydd â chysylltiad agos ag ef ac, wrth benderfynu a yw strwythur o fewn "cwrtil" adeilad, y dylai'r ffactorau i'w hystyried gynnwys y canlynol:<br>1) 'cynllun' ffisegol yr adeilad, y strwythur, a'r adeiladau a'r tir o'i amgylch;<br>2) perchenogaeth o'r adeilad a'r strwythur yn y gorffennol a'r presennol;<br>3) eu swyddogaeth a'r defnydd a wneir neu a wnaed ohonynt, yn y gorffennol a'r presennol. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith ei bod yn amhosibl llunio diffiniad cynhwysfawr o'r term "cwrtil". Mae'r gwaith o nodi graddau "cwrtil" adeilad neu a yw strwythur / adeilad o fewn "cwrtil" yn fater y mae ond yn bosibl ei ystyried fesul achos.<br><br>Er hyn, cytunwn y gall fod yn ddefnyddiol cael diffiniad sy'n helpu defnyddwyr a gweithredwyr y system gynllunio i ddeall y term yn well, ac yn rhoi man cychwyn iddynt ystyried y mater hwn. Mae'r hyn a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith yn synhwyrol a gall amlinellu'r ffactorau a nodwyd gan y Llys Apêl yn *Attorney General ex rel. Sutcliffe v Calderdale* fod yn fan cychwyn synhwyrol wrth asesu cwrtil adeilad neu a yw strwythur / adeilad yn rhan ohono.<br><br>Fodd bynnag, bydd angen i'r union eiriad gael ei ystyried yn ofalus ymhellach wrth ddrafftio'r Bil cydgrynhoi, er enghraifft er mwyn sicrhau nad yw'n golygu na ellir ystyried materion eraill. Bydd casgliad yr ymarfer manwl hwn yn ein helpu i benderfynu a yw'n fwy priodol ei gynnwys mewn statud neu mewn canllawiau, oherwydd gall fod angen ystyried materion pellach yn ei sgil. |
| 18-17 | Argymhellwn y dylai'r adran ddehongli o'r Bil gynnwys diffiniadau o'r termau canlynol:<br>1) "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol", yn debyg i'r diffiniad a geir yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, ynghyd â chyfeiriad at ffermio yn unol â'r rhai a geir yn adrannau 147 a 171 ar hyn o bryd;<br>2) "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", yn debyg, fwy neu lai, i'r diffiniad yn Rhan 6 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir;<br><br>ac argymhellwn na ddylid rhoi unrhyw ddiffiniadau pellach o'r termau hynny mewn perthynas â hysbysiadau prynu na hysbysiadau malltod. | Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai un diffiniad o "amaethyddiaeth" ac "amaethyddol" yn adran ddehongli'r Bil ddarparu mwy o symlrwydd, hygyrchedd ac eglurder i ddefnyddwyr y system. Cytunwn y gall y cyfeiriad yn adrannau 147 ac 171 o Ddeddf 1990 at y diffiniad o "amaethyddol" yn Neddf Amaethyddol 1947 fod yn ddiangen am ei fod yn debyg iawn i'r diffiniad presennol o "amaethyddiaeth" a geir yn adran 336 o Ddeddf 1990. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth mae'r cyfeiriad ychwanegol at "ffermio tir" yn adrannau 147 ac 171 yn ei ychwanegu at y diffiniad hwn sy'n golygu bod angen ei gadw. Ystyrir ymhellach sut y gellir symleiddio wrth ddrafftio'r Bil.<br><br>O ran diffinio "tir amaethyddol" ac "uned amaethyddol", mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor o ddefnyddio'r un diffiniad ar gyfer pob un o'r termau hyn ar gyfer y Bil a Gorchymyn 1995. Fodd bynnag, bydd angen ystyried ymhellach y defnydd o'r un diffiniad a'r dull a awgrymir o seilio'r diffiniadau yn y Bil ar y rhai a geir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn 1995 wrth ddrafftio'r Bil er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd. |
| 18-18 | Argymhellwn na ddylid cynnwys y darpariaethau canlynol, yr ymddengys eu bod yn ddarfodedig neu'n ddiangen, yn y Bil Cynllunio:<br>1) adran 314 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (dosrannu costau gan gynghorau sir);<br>2) adran 335 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y gydberthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall a oedd mewn grym yn 1947);<br>3) Atodlen 16 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (darpariaethau'r Ddeddf a gymhwyswyd neu addaswyd gan amrywiol ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf), heblaw Rhan 3, y dylid ei chadw mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 318 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | 18-18 (1) a (2) – Derbyn<br><br>18-18(3) – Derbyn mewn egwyddor | Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith a noda gefnogaeth aruthrol ymatebwyr i'r argymhelliad hwn na ddylai adrannau 314 na 335 o Ddeddf 1990 gael eu cario ymlaen i'r Bil cydgrynhoi.<br><br>Cytunwn na ddylai Atodlen 16 barhau fel y mae, ond bydd angen i ni sicrhau bod effaith bresennol darpariaethau sy'n cyfeirio at Atodlen 16 yn cael ei chynnal. Ystyrir y ffordd orau o gyflawni hyn yn ystod y cam drafftio. |